# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 23AIN MEHEFIN, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

[BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru)

(Dosbarthwyd 15/6/16)

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## AELODAETH (19)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Aled Ll. Evans
Charles Wyn Jones
W. Tudor Owen
Sedd Wag
E. Selwyn Griffiths
Dilwyn Morgan
Gethin Glyn Williams
Gweno Glyn
Michael Sol Owen
John Wyn Williams

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Trevor Edwards
John Brynmor Hughes
Angela Russell
Thomas G. Ellis
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Aeron M. Jones

## Llafur (1)

Y Cynghorydd

Sion W. Jones

## Aelod Lleyg (1)

John Pollard

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2016/17.

**2. IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2016/17.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

**6. COFNODION** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Mai 2016, fel rhai cywir.

**7. ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL** 9 - 67

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

**8. CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 - ALLDRO REFENIW** 68 - 102

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cyllid.

**9. CYFRIFON TERFYNOL HARBYRAU GWYNEDD 2015/16** 103 - 113

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid.

**10. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** 114 - 124

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**11. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2015/16** 125 - 145

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

# PWYLLGOR ARCHWILIO 5/5/16

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd John Pughe Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Trevor Edwards (Is-Gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Tom Ellis, Aled Ll. Evans, Gweno Glyn, E. Selwyn Griffiths, Aeron M. Jones, Charles Wyn Jones, Dilwyn Morgan, Michael Sol Owen, Angela Russell a Gethin Glyn Williams.

**Hefyd yn Bresennol:** Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid - ar gyfer Eitem 5 ar y rhaglen), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Luned Fôn Jones (Rheolwr Archwilio), Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol, Deloitte), Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte), Bethan Griffith (Rheolwr Cydlynu Risg ac Yswiriant – ar gyfer Eitem 9 ar y rhaglen) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Sian Gwenllian, John B. Hughes, Sion Wyn Jones a Mr John Pollard.

## 1. CROESO

Estynnwyd croeso i aelod newydd o'r Pwyllgor, y Cynghorydd Gweno Glyn a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf.

Croesawyd yn ogystal Clare Edge a Ian Howse o gwmni Deloitte.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 21 Ionawr 2016 a 11 Chwefror 2016, fel rhai cywir.

## 4. SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN ARCHWILIO 2016 CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Clare Edge (Rheolwr Archwilio Ariannol, Deloitte) a Ian Howse (Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol, Deloitte) ar ran Swyddfa Archwilio Cymru (SAC). Ymddiheurwyd bod y fersiwn Gymraeg o'r adroddiad wedi ei rhyddhau yn hwyrach a nodwyd y sicrheir yn y dyfodol y rhyddheir yr adroddiad yn ddwyieithog yn amserol.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn manylu ar drefniadau archwilio SAC ar gyfer 2016. Amlygwyd y prif risgiau archwilio ariannol gan nodi bod nifer o'r risgiau yn berthnasol i holl Awdurdodau Lleol gyda rhai yn benodol ar gyfer Cyngor Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynnau, ymatebodd y swyddogion iddynt fel a ganlyn:

- Bod gwaith i baratoi gwybodaeth i'r actiwari yn mynd rhagddo;
- Bod swyddogion proffesiynol perthnasol yn hyderus bod penderfyniad y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2014 i danlinellu penderfyniad blaenorol i beidio buddsoddi arian y Cyngor ei hun yn Israel, oedd yn destun Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys, yn un dilys a chyfreithlon;
- O ran diffyg yn y Gronfa Bensiwn, bod adolygiad SAC o sefyllfa cronfeydd pensiwn llywodraeth leol yng Nghymru wedi dangos bod diffyg Cronfa Gwynedd yn

gymharol isel. Ychwanegwyd y ceir cadarnhad o'r sefyllfa erbyn mis Medi 2016 yn dilyn y prisiad teirblynyddol cyfredol gan yr actwari.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**5. ADRODDIAD Y GWEITHGOR GWELLA RHEOLAETHAU**

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfarfod o'r gweithgor uchod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill 2016 i ystyried archwiliadau a dderbyniodd gategori barn C yn ystod y cyfnod rhwng 1 Tachwedd 2015 a 31 Ionawr 2016 sef -

a) Canolfan Hamdden Arfon
b) Cartref Plas y Don
c) Cartref Plas Hedd
ch) Cynnal a Chadw Adeiladau a Safleoedd

Gwahoddwyd swyddogion i fynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y materion sy'n codi o'r archwiliadau a'r gwaith a wnaed ers cyhoeddi'r adroddiadau archwilio er mwyn cryfhau'r rheolaethau mewnol dan sylw.

Nododd aelod bod tueddiad yn dod i'r amlwg fod gwasanaeth neu sefydliad lle roedd rheolwr newydd yn derbyn archwiliad categori barn C. Felly, dylid sicrhau bod cefnogaeth briodol i'r unigolyn a sicrhau bod trefniadau anwytho/hyfforddiant mewn lle.

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio bod ymweliadau di-rybudd wedi eu cynllunio ar gyfer 4 Canolfan Hamdden a gobeithir y byddai'r trefniant yma yn ysgogi staff y canolfannau hamdden i weithredu yn unol â'r gofynion.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**6. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL 1/2/16 – 31/3/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio yn amlinellu gwaith Archwilio Mewnol am y cyfnod. Nodwyd bod 26 adroddiad am archwiliadau o'r cynllun gweithredol wedi ei gwblhau yn ystod y cyfnod (gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos), 3 archwiliad dilyniant a 2 archwiliad ymatebol.

Mewn ymateb i sylw gan aelod parthed diffiniad y categori 'Derbyniol' yng nghyswllt gwaith dilyniant, nododd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg bod Archwilio Mewnol yn adolygu diffiniadau categori a'r drefn o gyhoeddi argymhellion ar hyn o bryd.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y prif faterion canlynol –

**Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol – Defnydd o Lungopiwyr mewn Ysgolion**

Mewn ymateb i sylw gan aelod, nododd y Rheolwr Archwilio nad oedd categori barn wedi ei ddyrannu i'r archwiliad yma gan nad oedd y pryderon a amlygwyd yn gyffredinol ar draws yr ysgolion. Nodwyd bod y materion ynghlwm a'r archwiliad yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd busnes rhanbarthol yr Adran Addysg.

**Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion**

Holodd aelod sut y cyfleuir y negeseuon a amlygwyd gan yr archwiliad i'r ysgolion. Nododd y Rheolwr Archwilio bod y Pennaeth Addysg yn amlygu'r negeseuon yn y cyfarfodydd busnes rhanbarthol.

**Arlwyaeth Ysgolion Uwchradd – Ysgol Ardudwy, Ysgol y Gader a Ysgol y Moelwyn**

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswllt diffyg bodolaeth contractau cyfredol ar gyfer staff y gegin, nododd y Rheolwr Archwilio y tynnwyd sylw'r Adran Addysg nad oedd contractau staff y gegin wedi eu diwygio yn dilyn penderfyniad y Cyrff Llywodraethu i beidio ymrwymo i gytundeb arlwyo'r Adran Addysg. Nodwyd bod yr Adran Addysg yn gweithredu ar y mater.

**Incwm Meysydd Parcio**

Mewn ymateb i bryder aelod o ran lefel yr arian a gedwir yn y peiriannau, nododd y Rheolwr Archwilio bod amlder casglu arian o'r peiriannau yn ddibynnol ar y tymhorau a defnydd o'r peiriannau. Nodwyd bod cwmni G4S Cash Solutions (UK) Limited yn casglu'r arian yn unol â'r cytundeb.

Nododd aelod y dylid edrych ar ffyrdd eraill o dalu ffi parcio megis drwy ddefnyddio ffôn symudol. Ymatebodd y Pennaeth Cyllid gan nodi bod yr Adran Rheoleiddio wedi codi'r mater o ran derbyn taliad mewn ffyrdd amgen ac fe anfonir neges at yr Adran i symud ymlaen efo'r mater.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Chwefror 2016 i 31 Mawrth 2016 a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2015/16**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Archwilio. Nodwyd bod Safonau Archwilio Mewnol yn y Sector Gyhoeddus yn gofyn iddi gyflwyno barn yn flynyddol ar fframwaith reolaeth fewnol y Cyngor. Ar sail y gwaith a gwblhawyd yn ystod 2015/16, roedd y swyddog yn fodlon bod gan Gyngor Gwynedd fframwaith cadarn o reolaeth fewnol.

Adroddwyd bod 73 allan o 74 archwiliad a oedd yng nghynllun archwilio addasedig terfynol archwilio mewnol wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2016, sef 98.65% o'r cynllun, yn erbyn uchelgais perfformiad o 95% ar gyfer 2015/16.

Nodwyd y cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2016/17 i'r pwyllgor hwn yn y cyfarfod diwethaf ar 11 Chwefror ac y gwelir y cynllun terfynol fel Atodiad 3 i'r adroddiad.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau yng nghyswllt gostyngiad yn lefel staffio Archwilio Mewnol, nododd y Pennaeth Cyllid bod y gostyngiad yn unol â cynllun arbedion effeithlonrwydd a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn.

Nododd aelod wrth hyfforddi swyddogion yn yr adrannau i weithredu'n briodol y gellir ysgafnhau pwysau gwaith Archwilio Mewnol er mwyn galluogi rhoi ystyriaeth lawnach i'r archwiliadau sy'n derbyn categori barn B.

Diolchwyd i staff Archwilio Mewnol am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2015/16.**

**8. HAWLIADAU YSWIRIANT YN ERBYN Y CYNGOR**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a oedd yn rhoi diweddariad o'r eitem a gyflwynwyd yng nghyfarfod 11 Chwefror 2016 yn manylu ar drefniadau'r Cyngor o

ran delio â hawliadau yswiriant. Tynnwyd sylw bod 78.5% o hawliadau atebolrwydd yn erbyn y Cyngor wedi eu setlo heb gostau.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol ymatebodd y swyddogion i ymholiadau'r aelodau fel a ganlyn:

- Yng nghyswllt rhif 84 'Anafwyd yr hawlydd oherwydd eira a rhew ar y ffordd', mai diffyg dogfennaeth o ran graeanu yn yr achos penodol yma oedd rheswm penderfynu yn erbyn y Cyngor, yn hytrach na diffyg graeanu;
- Bod yr Uned Yswiriant yn cynnal trafodaethau efo'r adrannau ar hyd y broses pan dderbynnir hawliad yswiriant yn erbyn y Cyngor ac yn rhannu gwersi i ddysgu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yng nghyswllt cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio gan ddefnyddio canllawiau asesu CIPFA.

**PENDERFYNWYD cynnal gweithdy yn ystod Mehefin 2016 er mwyn cynnal hunanasesiad o effeithiolrwydd y Pwyllgor.**

**10. HUNANASESIAD O DREFNIADAU LLYWODRAETHU**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg yng nghyswllt addasiadau i'r hunanasesiad ers cyflwyno adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ar 11 Chwefror 2016 yn dilyn adolygiad y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu o drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod Tachwedd a Rhagfyr 2015.

Nodwyd yn dilyn derbyn awgrym gan y Grŵp Rheoli Corfforaethol bod y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi asesu os dylid defnyddio matrics Impact / Effeithiolrwydd 5 x 5 yn hytrach na 10 x 10, fel modd o wella'r ardrawiad gweledol. Daethpwyd i'r casgliad bod y matrics 5 x 5 yn rhagori o ychydig ac roedd yr asesiad ar ei newydd wedd wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Tynnwyd sylw bod 2 elfen arall wedi eu hychwanegu, sef Defnydd o Dechnoleg a Rheolaeth Asedau ac fe ddiwygiwyd y teitl 'Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff' i 'Cynllunio'r Gweithlu'.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r asesiad o drefniadau llywodraethu.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.35am a daeth i ben am 12.25pm

____________________________

**CADEIRYDD**

CYFARFOD: **PWYLLGOR ARCHWILIO**

DYDDIAD: **23 Mehefin 2016**

TEITL: **Adroddiadau Archwilio Allanol**

PWRPAS: **Cyflwyno crynodeb o gamau gweithredu sefydlwyd gan y gwasanaethau mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio**

AWDUR: **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**

AELOD CABINET: **Cynghorydd Dyfrig Siencyn**

---

## 1. Cyflwyniad

1.1 Penderfynwyd yng nghyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio ar 21ain Ionawr 2016 i gymeradwyo trefn o gyflwyno crynodeb o gamau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau archwilio allanol a'u hargymhellion er ystyriaeth y Pwyllgor Archwilio.

1.2 Mae cyfrifoldeb ar y Pwyllgor Archwilio i ystyried adroddiadau archwilio allanol, gan gynnwys adroddiadau cenedlaethol, yr argymhellion a gynhwysir ynddynt, a goblygiadau rhain i lywodraethu, rheoli risg neu reolaeth, gan sicrhau bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod yr argymhellion hyn yn cael eu gweithredu.

## 2. Dilyniant o'r adroddiad blaenorol

Darparir eglurhad/ gwybodaeth bellach ar y materion isod a adnabuwyd yn y cyfarfod arbennig ar 21ain Ionawr 2016.

2.1 **Sicrhau bod gwasanaeth yn hybu annibyniaeth i bobl hyn**; angen derbyn cadarnhad mai ond yng nghyswllt teleofal y cwblhawyd y gwaith (4.6)
Roedd y sylwad yng ngholofn Cynnydd yr adroddiad blaenorol yn cyfeirio at y maes Teleofal yn unig. Yn yr adroddiad yma rydym wedi sicrhau bod unrhyw wybodaeth yn y golofn Cynnydd yn cyfeirio ar gynnydd ar yr argymhelliad yn unig i osgoi unrhyw ddryswch.

2.2 **Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)** angen derbyn cadarnhad bod monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli tu allan i ardal yr awdurdod yn digwydd (8.1)
Mae trefn weithredol mewn lle, ac mae swyddog wedi ei leoli gyda'r BIBPC sy'n cadw trosolwg o'r sefyllfa all-sirol, ac yn cadw mewn cysylltiad gyda swyddogion y Cyngor. Mae unrhyw bryderon yn cael eu cyfeirio at y swyddog yma, ac mae trafodaethau yn cymryd lle rhwng y Cyngor a'r BIBPC ac os yn berthnasol y darparwyr i drafod y pryderon a ffeindio ffordd ymlaen.

2.3 **Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth** y dylid derbyn mwy o wybodaeth gan nad yw'r sylwadau yn cadarnhau bod cysondeb yn ansawdd y cynlluniau gofal (8.5)

Mae hi yn her barhaus i gael plant a phobl ifanc i fynychu cyfarfodydd ac adolygiadau sydd yn ymwneud a hwy. Ar y cyfan, mae pobl ifanc yn dewis peidio mynychu. Mae'r gofynion i Swyddogion Adolygu Annibynnol o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn sicrhau fod y swyddog yma yn cyfarfod gyda phob person ifanc cyn eu hadolygiad i sicrhau fod eu dymuniadau yn cael eu clywed. Mae gan hyn oblygiadau adnoddau i'r Adran o ran amser i wireddu hyn o ystyried y cynnydd yn niferoedd plant mewn gofal. Mae eiriolaeth annibynnol yn cael ei gynnig i bob plentyn mewn gofal ac maent yn derbyn taflenni gwybodaeth ac yn y blaen am y gwasanaeth. Nid yw mwyafrif y plant mewn gofal yn dewis derbyn eiriolaeth annibynnol, yn hytrach os oes ganddynt fater sydd angen ei ddatrys, maent yn dewis person sydd yn rhan o'u bywydau i eiriol ar eu rhan, er enghraifft gofalwr maeth, athro, gweithiwr cymdeithasol ac yn y blaen. Mae hyn i gyd yn cyfrannu tuag at sicrhau fod gan blant a phobl ifanc rhywun sydd yn eiriol drostynt ar faterion y maent angen cymorth. Yn ddiddorol, mae canran uchel o blant mewn gofal yn dewis cysylltu gydag eiriolwyr annibynnol i fynychu cyfarfodydd fel adolygiadau ar eu rhan i siarad drostynt a rhannu eu dymuniadau.

2.4 **Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Llety)** y dylid derbyn cadarnhad o ran bwriadau'r Adran Plant a Theuluoedd yng nghyswllt ymateb i'r diffyg amrediad lleoliadau sydd ar gael i rai sydd hefo anghenion cymhleth (8.7)

Mae dod o hyd i leoliadau addas yn lleol i gyfarch yr anghenion mwyaf dwys a chymhleth yn her barhaus ac mae'r rhai sydd angen lleoliadau arbenigol preswyl i gyfarch yr anghenion yma yn anorfod yn mynd tu allan i'r Sir. Ni fyddai'r bobl ifanc yma yn addas ar gyfer lleoliadau maeth ar y cam cychwynnol, ond mae strategaeth yr Adran i sicrhau fod lleoliadau yn cael eu craffu yn rheolaidd yn weithredol ac mae nifer sylweddol llai o bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl nag sydd wedi bod yn hanesyddol (12 o gymharu â 22 yn flaenorol). Mae canfod lleoliadau maeth yn llai o her ac rydym yn ffodus fod gennym adnoddau addas i gyfarch anghenion yn fewnol o fewn ein hadnoddau maethu ein hunain. Wrth gwrs ni ellir dweud fod gennym adnoddau digonol, gan fod y maes yn un sydd yn 'volatile' ac yn newid o ddydd i ddydd yn ddibynnol ar yr achosion a ddaw i sylw, ond ar hyn o bryd nid ydym yn orbryderus nad oes gennym adnoddau maethu digonol.

2.5 **Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau**; y dylid derbyn cadarnhad pam fod ceisiadau DoLS wedi cynyddu o 7 yn 2013-14 i 365 yn 2014-15 (8.11)

Mae'r cynnydd mawr mewn ceisiadau DoLS yn batrwm cenedlaethol sydd wedi amlygu ei hun yn dilyn dyfarniad y goruchaf lys yn achos Cheshire West.

2.6 **Adolygiad Gwasanaeth Gofal Cartref Pobl Hyn Gwynedd gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)** nodir fel cynnydd 'Ar waith (parhaus)', byddai'n fwy synhwyrol nodi ei fod wedi ei gwblhau ar ddyddiad penodol gan ddweud ei fod yn waith parhaus. Nodwyd y gofynnir am gadarnhad o'r sefyllfa

Mae'r cofnod bellach wedi ei newid a'r sefyllfa wedi ei gadarnhau fel wedi ei gwblhau. Mae trefniadau mewn lle i sicrhau fod asesiadau risg yn cael eu cwblhau, mae ein holl ddogfennau wedi eu haddasu ar ffurf Cynllun Gofal Personol ac mae Ymweliadau

Monitro 27 yn cael eu cynnal gan swyddogion monitro Darparu, Oedolion Iechyd a Llesiant.

2.7 **Adolygiad Cenedlaethol o DoLS yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr – AGGCC** – nodir yn y golofn cynnydd bod camau penodol yn y cynllun gweithredu wedi eu gwireddu ond ddim yr argymhelliad i gyd. Dylid nodi un cynnydd sef 'Ar waith' (9.1)
Rydym wedi sicrhau bod unrhyw wybodaeth yn y golofn Cynnydd yn cyfeirio ar gynnydd ar yr argymhelliad yn unig i osgoi unrhyw ddryswch.

## 3. Crynodeb o'r adroddiadau yn Atodiad 1

Ceir crynodeb isod o'r adroddiadau sydd yn Atodiad 1.

3.1 Cyflwynir yn Atodiad 1 restr o arolygiadau a gynhaliwyd gan archwilwyr allanol dros y blynyddoedd diwethaf ynghyd â'u cynigion ar gyfer gwella, eu cynlluniau gweithredu a'r cynnydd sydd wedi digwydd hyd yma. Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'n fodlon gyda'r cynnydd sydd wedi digwydd.

3.2 Mae'r wybodaeth wedi ei nodi mewn trefn gronolegol er hwylustod ac yn cynnwys ymateb i adroddiadau cenedlaethol yn ogystal â rhai sy'n benodol i Wynedd.

3.3 O'r 102 o gynigion / argymhellion sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1, mae crynodeb o'r cynnydd arnynt fel a ganlyn:

| **Cynnydd** | **Nifer** |
|---|---|
| Heb gychwyn | 1 |
| Wrthi'n cael ei gynllunio | 11 |
| Ar waith | 40 |
| Wedi'i gwblhau | 50 |
| **Cyfanswm** | **102** |

3.4 Gwelir fod 50 allan o 102 wedi eu cwblhau.

## 4. Argymhellion

4.1 **Bydd angen i'r pwyllgor ystyried a yw'r cynigion ar gyfer gwella yn adroddiadau'r archwilwyr allanol a restrir yn Atodiad 1 wedi eu gweithredu, gan benderfynu os ydyw am alw unrhyw fater i mewn am ystyriaeth bellach, unai i'r pwyllgor llawn neu'r Gweithgor Gwella Rheolaethau.**

## ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

# ATODIAD 1

### 1. Adolygiad 2012 o'r Gwasanaeth Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Derbyniwyd yr adroddiad ar 1 Medi 2012 a chyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 27 Medi 2012.

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Sicrhau bod trefniadau cynllunio olyniaeth effeithiol ar waith ar gyfer swydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd a Hyfforddiant. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Cadw trefniadau cynllunio olyniaeth yr uned gyfan o dan ystyriaeth barhaus, nid ar gyfer un swydd yn unig | Mor fuan â phosib | Mae trefniadau'r holl uned dan ystyriaeth barhaus yng nghyd-destun y gyfundrefn diwygio lles, ac mae rolau a chyfrifoldebau yr holl swyddi wedi eu hystyried wrth ddarganfod arbedion effeithlonrwydd a thoriadau yn unol â'r fframwaith gorfforaethol.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn gwybod beth yw gofynion pob swydd ar ei strwythur, ac mae'n datblygu gwybodaeth a sgiliau pob un o'i swyddogion yn barhaus. Mae'r gwasanaeth felly o'r farn nad oes camau ymarferol pellach penodol sydd angen eu cymryd ar hyn o bryd. Rydym yn fodlon fod y cynnig yma wedi cael ei gyflawni. | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r trefniadau parhad busnes a nodir yn y cynllun adfer ar ôl trychineb. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Sicrhau fod trefniadau cynllunio argyfwng yr Adran Gyllid ar gael i bawb. | Mor fuan â phosib | Mae'r Uned Budd-daliadau, fel pob uned arall o fewn y Cyngor, yn gweithio oddi mewn i'r trefniadau corfforaethol. Cymeradwywyd fersiwn ddiweddaraf Cynllun Parhad Gwasanaeth yr Adran Gyllid gan y Tîm Rheoli Adrannol ar 1 Mehefin 2016, a'i gylchredeg wedi hynny. | **Wedi'i gwblhau** |
| 3 | Ystyried cyflwyno proses ymgynghori neu arolwg i werthuso barn cwsmeriaid am y gwasanaeth. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg | Adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Medi 2012, "Mae'r Cyngor yn gryf o blaid yr egwyddor cyffredinol o ymgynghori gyda chwsmeriaid. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried y byddai'n amserol i wneud hynny mor agos i'r newidiadau cenedlaethol mwyaf radical erioed i'r gwasanaeth budd-dal (torri'r lefel o lwfans rhent a ganiateir, cyflwyno'r cynllun cymorth lleol ar gyfer treth cyngor, ac allfudo hawliadau budd-dal tai y Cyngor i gyfundrefn Credyd Cynhwysol y 'DWP' eu hunain)." Cymeradwywyd y sylwadau hyn gan y Pwyllgor ar y pryd. | Mor fuan â phosib | Fel y bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol, bu llithriad sylweddol yn amserlen Llywodraeth San Steffan wrth gyflwyno Credyd Cynhwysol. Oherwydd hyn, mae'r sefyllfa a ddisgrifiwyd yn 2012, i bob pwrpas yn parhau.<br><br>Rydym yn fodlon fod Siop Gwynedd yn ymgynghori yn barhaus. Mae trefniant yn ei le fel bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu pasio ymlaen i'r Uned Fudd-daliadau fel sy'n briodol. | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

### 2. Ebrill 2012 - Adborth ar Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Cyngor Gwynedd - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnyddi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor wella'r cynllun gweithredu sy'n ategu'r strategaeth wybodaeth i gynnwys camau gweithredu i ganfod anghenion gwybodaeth a chudd-wybodaeth y Cyngor a chydlynu gweithgarwch yr ystod o wasanaethau gwybodaeth i fodloni'r anghenion hyn. | Rheolwr Gwybodaeth | Trafodwyd hyn gyda Gwenan Parry, Pennaeth Cefnogaeth Gofal Cwsmer yn 2012.<br>Y teimlad oedd nad swyddogaeth y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth oedd canfod anghenion gwybodaeth y Cyngor ac mai ein rôl ni oedd darparu canllawiau ac arbenigedd ar sut i reoli gwybodaeth unwaith mae wedi cyrraedd y Cyngor (o ran diogelwch, gwaredu, cywirdeb, cadw am gyfnodau priodol). Dyma yw rôl gwasanaethau rheoli gwybodaeth ym mhob Cyngor.<br>Rôl yr Uned Ymchwil yw ymateb i anghenion gwybodaeth gwasanaethau.<br>Mae'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn mynd i gael ei diweddaru yn fuan felly gallwn ymgorffori hyn i'r dyfodol os oes dymuniad i wneud hynny. | | Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi adnabod Llywodraethu Gwybodaeth fel blaenoriaeth uchel iawn, ac wedi adrodd hynny yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn 2015.<br>Fel canlyniad i hyn, mae Llywodraethu Gwybodaeth wedi ei gynnwys yn y Cynllun Strategol (Prosiect C8). Erbyn diwedd 2017, bydd y Cyngor wedi asesu priodoldeb y trefniadau diogelu gwybodaeth a llunio cynigion fel bo'r angen. Gan fod hwn yn brosiect yn y Cynllun Strategol, bydd yn cael sylw rheolaidd gan y Panel Cyflawni perthnasol.<br><br>Mae cytundeb yn awr bod angen drafftio Strategaeth Rheoli Gwybodaeth newydd fydd yn ehangach na'r cynllun blaenorol ac yn cwmpasu materion megis data agored, y defnydd o wybodaeth, ansawdd gwybodaeth.<br>Hefyd, mae'r Grwp Asesu Trefniadaeth Llywodraethu wedi comisynu darn o waith i ganfod pa ddefnydd yr ydym yn ei wneud o wybodaeth trwy ofyn i adrannau gyflawni hunan-asesiad. | **Ar waith** |
| 2 | Datblygu fforwm priodol i gydlynu gweithgareddau timau gwybodaeth y Cyngor. | Rheolwr Gwybodaeth | Mae yna gydweithredu gyda'r tîm gwybodaeth Adran Oedolion yn digwydd eisoes a byddwn yn sicrhau ein bod yn glir am bwrpas ac amcan y fforwm.<br><br>Byddwn hefyd yn edrych i mewn i'r dull mwyaf priodol o gydlynu gweithgareddau timau gwybodaeth y Cyngor | | Bydd hyn ddigwydd yn naturiol fel rhan o'r gwaith o lunio'r Strategaeth Gwybodaeth newydd. Mae yn digwydd yn anffurfiol eisoes e.e. rhwng y tim Ymchwil a'r tim data Gwasanaethau Cymdeithasol. | **Heb gychwyn** |

# ATODIAD 1

## 3. Arolwg 3 blynedd Estyn 2013 : Arolygiad ar Ansawdd Gwasanaethau Addysg Awdurdod Lleol Gwynedd i blant a phobl ifanc yn ystod Mawrth 2013

Yn dilyn arolygiad Estyn o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ar 11 - 15 Mawrth 2013, barnwyd bod angen monitro cynnydd yr awdurdod gan Estyn.  Derbyniwyd a chadarnhawyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Cabinet ar 17 Medi 2013.  Ystyriwyd Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Estyn gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 3 Hydref 2013.

Yn dilyn ymweliad arolygwyr Estyn ar 2-5 Rhagfyr 2014, derbyniwyd llythyr yn cofnodi canlyniadau terfynol y monitro ar ôl yr arolygiad:
“Bernir bod Cyngor Gwynedd wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn sgil arolygiad Mawrth 2013.   O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r awdurdod o unrhyw weithgarwch dilynol pellach.”

Bu i Arolygwyr Estyn fynychu cyfarfod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 12 Chwefror 2015 er mwyn adrodd yn ôl ar ganfyddiadau eu hymweliad 2-5 Rhagfyr 2014.

<u>Cylch Arolygiadau Awdurdodau Lleol (ESTYN)</u>

O ran cylch arolygiad awdurdodau lleol, mae’r cylch diwethaf newydd ddod i ben a bellach mae’r cylch yn o leiaf unwaith bob 6 blynedd.

- Cylch tair blynedd ysgolion unigol wedi dod i ben a bellach wedi newid i unwaith o leiaf bob 6 blynedd.
- Mae ESTYN yn gallu ymweld ag unrhyw ysgol neu awdurdod ar unrhyw amser, ond maent angen rhoi o leiaf mis o rybudd i ysgol ac o leiaf 12 wythnos (neu 3 mis) o rybudd i awdurdod lleol.
- Mae arolygydd cyswllt ysgolion (ESTYN) yn rhoi ymweliad pob tymor.
- Mae Adolygiad yn digwydd ar hyn o bryd ar gonsortia gwella ysgolion Cymru, sef: Gwe, Erw a dau gonsortiwm o’r de.



| Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi’n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi’i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | A1 Gwella diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau’r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy’n gweithio i’r awdurdod ac yn cael eu diweddaru a’u lledaenu’n rheolaidd. | Swyddog Monitro: Cyfarwyddwr Corfforaethol | Dosbarthu a sicrhau ymwybyddiaeth o ‘Bolisi a Chanllawiau Diogelu Plant ac Oedolion’ (corfforaethol) a chydymffurfiaeth ohono.<br><br>Sicrhau bod holl staff y Cyngor ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu sylfaenol<br><br>Sicrhau bod y flaenoriaeth i faes Diogelu Plant ac Oedolion yn cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Stratgeol y Cyngor<br><br>Aelodau Arweiniol yn debryn tystiolaeth o berfformiad corfforaethol/ trawsadrannol y CYngor parthed materion diogelu plant ac oedolion | Chwefror 2014 | **Adran Addysg:**<br><br>Un o brif flaenoriaethau Cynllun Busnes yr Adran Addysg yw *‘Adolygu trefniadau diogelu trwy sicrhau bod gweithdrefnau a pholisïau’r cyngor yn cael eu deall yn glir gan bawb sy’n gweithio ym maes addysg ac yn cael eu diweddaru a’u lledaenu’n rheolaidd’*.<br><br>Er mwyn sicrhau fod yr ysgolion yn gwbl glir o’u cyfrifoldebau a bod gweithdrefnau a diwylliant diogelu cadarn yn ysgolion Gwynedd, penodwyd Swyddog Diogelu i’r Adran Addysg, sydd yn weithredol ers Medi 2015.<br><br>Nodir isod y meysydd sydd wedi eu hadnabod fel blaenoriaethau i’r Swyddog Diogelu:<br><br>• Adolygu Hyfforddiant Amddiffyn Plant Lefel 1 a Lefel 2<br>• Adolygu’r polisïau enghreifftiol sydd ar gael i ysgolion yn y maes diogelu, amddiffyn plant ac ymyrraeth gorfforol yng nghyd-destun datblygiadau cenedlaethol a chanllawiau’ cadw’r dysgwyr yn ddiogel’<br>• Sicrhau fod pob Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu’r polisïau perthnasol<br>• Bob ysgol i dderbyn ymweliad Diogelu cyn arolwg<br>• Cytuno ar un strategaeth sirol<br>• Cytuno ar bolisi Sirol Enghreifftiol<br>• Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar ‘Cam-fanteisio’n rhywiol ar blant’ (CSE) | **Wedi’i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant Radicaleiddio<br>• Codi ymwybyddiaeth Ymddygiad Rhywiol Niweidiol (HSB)<br><br>Lluniwyd ffurflen wirio i ysgolion yn unol â gofynion Estyn ac mae'r Adran Addysg wedi derbyn y rhain yn ôl ac wedi dadansoddi'r wybodaeth. Yn deillio o hyn, lluniwyd Cynllun Busnes Diogelu Addysg ar gyfer 2016 - 17 sydd yn cynnwys y meysydd cyffredin sydd angen sylw yn dilyn dadansoddi a chrynhoi ffurflenni yma. Mae'r dadansoddiad o grynodeb gweithredu pob ysgol yn sail i unrhyw gefnogaeth/ ymyrraeth bellach gan y Swyddog Diogelu.<br><br>Adroddir yn rheolaidd i'r Panel Strategol Diogelu ar gynnydd yn erbyn y blaenoriaethau uchod. Rhaglen waith pellach wedi ei lunio ar gyfer 2016/17. | |
| 2 | A2 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4 trwy dargedu adrannau sy'n tanberfformio mewn ysgolion uwchradd sy'n perfformio'n wael yn fwy cadarn. | Swyddogion Monitro:<br>Dau Gyfarwyddwr Corfforaethol, Uwch Reolwr Ysgolion | Sicrhau ymateb buan ac effeithiol i ganfyddiadau ymchwil y Gweithgor Craffu i berfformiad CA4 ysgolion uwchradd Gwynedd<br><br>Sicrhau, trwy'r CLG gyda'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol [GwE] bod ysgolion targed yn cael cyfranogi o rwydweithiau a fforymau proffesiynol i rannu arferion da ac i fanteisio ar arbenigeddau Arweinwyr System ac arweinwyr ysgol llwyddiannus.<br><br>Sicrhau bod yr ysgolion targed wedi cytuno [ac wedi | Haf 2015 | Mae'r argymhelliad yma yn rhan o brosiect P1 Cynllun Strategol y Cyngor sef 'Gwella a chysoni safonau addysg'. Adroddir ar gynnydd y prosiect i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc ac i'r Cabinet.<br><br>Pwrpas y prosiect hwn yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau sy'n eu galluogi i fyw a ffynnu yn lleol. Mae'r Adran yn gweithredu camau ymarferol yn yr ysgolion er mwyn gwella a chysoni safonau addysg ac yn targedu pynciau penodol, ac yn herio perfformiad mewn meysydd penodol.<br><br>Yn ystod 2015/16, lluniwyd Strategaeth Ansawdd Addysg sy'n gosod cyfeiriad a chamau gweithredol i wella a chysoni safonau addysg.<br><br>Nodir isod y prif flaenoriaethau ar gyfer 2016/17:<br>• Cyflwyno model newydd o gefnogi ysgolion a fydd yn cryfhau systemau cefnogi ysgol i ysgol, datblygu partneriaethau newydd, gwella deilliannau cyfnod allweddol, yn ogystal â chefnogi ysgolion i berfformio yn y chwarteli Uchaf<br>• Adolygu strwythurau'r Adran Addysg trwy greu strwythur ardal newydd a diffinio rôl 'Swyddog Addysg Ardal' er mwyn cydlynu'n well y gefnogaeth i'r ysgolion a'r holl wasanaeth cefnogol | Wedi'i gwblhau |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | cychwyn gweithredu] ar gynlluniau cadarn i wella safonau llythrennedd [darllen ac ysgrifennu yn benodol] a rhif ar draws yr ysgol yn unol â gofynion y Fframwaith Genedlaethol | | • Gweithredu manyleb glir rhwng y Cyngor a GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion) a fydd yn sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle i fonitro ac arfarnu cynnydd yn yr ysgolion<br>• Gweithio gyda GwE i sicrhau codi safonau Saesneg a Mathemateg mewn adrannau penodol yn ein hysgolion Uwchradd<br>• Datblygu a gweithredu system dracio a thargedu effeithiol, ynghyd a gwell safon addysgu a dysgu mewn pynciau megis Saesneg a Mathemateg yn benodol. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at gynyddu nifer y disgyblion fydd yn ennill trothwy Lefel 2+ (5 gradd A* -C TGAU) neu gyfatebol<br>• Targedu gwelliant mewn ysgolion sy'n tanberfformio yn gyffredinol neu yn perfformio yn gyfforddus<br>• Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion.<br><br>O ran canlyniadau Haf 2015, nodir isod y prif gryfderau:<br>• Dangosyddion perfformiad allweddol ym mhob cyfnod allweddol yn gwella erbyn hyn, ac yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau lleol (ALlau) tebyg;<br>• Perfformiad yn dda iawn yn CA3 ac yn gryf erbyn diwedd CA4 gan fod ar y brig mewn tri allan o'r chwe prif ddangosydd.<br>• Mae bron pob disgybl yn gadael yr ysgol gydag achrediad ar ddiwedd cyfnod allweddol 4;<br>• Perfformiad holl ddisgyblion yr Awdurdod yn y dangosyddion sgôr pwynt cyfartalog, sgôr pwynt cyfartalog wedi ei gapio a lefel 1;<br><br>Rhaglen waith wedi ei lunio ar gyfer 2016/17. | |
| 3 | A3 Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio. | Swyddogion Monitro: Pennaeth Addysg, Uwch Reolwr Ysgolion, Uwch Reolwr ADY a Chynwysiad Addysg, Uwch Ymgyngh-orydd Her, Cyfarwyddwr Corfforaethol | Grymuso gweithredu'r Awdurdod mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion cynradd.<br><br>Mewn achosion ble gosodir ysgol mewn categori statudol gan Estyn, yr Awdurdod i symud ar fyrder i ddefnyddio'r pwerau statudol<br><br>Sicrhau bod gweithdrefnau miniog a phriodol yn eu lle trwy'r Gwasanaeth Rhanbarthol [GwE] i fonitro | Haf 2014 | Mae'r argymhelliad yma yn rhan o brosiect P2 Cynllun Strategol y Cyngor sef 'Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth'. Adroddir ar gynnydd y prosiect i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc ac i'r Cabinet.<br><br>Pwrpas y prosiect hwn yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.<br><br>Yn ystod 2015/16, comisiynwyd adroddiad i faes arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd. Byddwn yn gweithredu ar argymhellion yr adroddiad hwnnw yn ystod 2016/17.<br><br>Erbyn diwedd y prosiect, bydd gwell ansawdd o ran arweinyddiaeth o fewn ysgolion Gwynedd a bydd strwythur gyrfa gliriach yn ei le ar gyfer athrawon. Bydd hyn yn allweddol os am sicrhau bod plant a phobl ifanc yn elwa o safonau mwy cyson yn ein hysgolion, gan y bydd effaith arweinyddiaeth gref yn cael effaith positif ar gyrhaeddiad plant a phobl ifanc.<br><br>Nodir isod y prif flaenoriaethau ar gyfer 2016/17: | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ac arfarnu cynnydd yr ysgolion ac i ddwysau y gweithredu a'r ymyrraeth ble na welir y cynnydd disgwyliedig.<br><br>Grymuso a miniogi gweithdrefnau atebolrwydd mewnol y Cyngor am berfformiad ysgolion | | • Gweithredu cynllun datblygu arweinyddiaeth sy'n gwella amodau arweinyddiaeth ysgolion yng Ngwynedd<br>• Monitro a herio pob ysgol a defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i'r awdurdod wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion sy'n tanberfformio<br>• Sicrhau trefniadau lle bo'r awdurdod a chyrff llywodraethu yn ymyrryd ynghynt mewn ysgolion ble mae arweinyddiaeth yn peri pryder<br>• Sicrhau strwythur rheolaeth gydweithredol ar lefel dalgylch ac ardal a fydd yn rhyddhau amser i benaethiaid arwain yn effeithiol<br>• Datblygu rheolwyr a darpar reolwyr o fewn gwasanaethau ac adnabod arweinwyr ar gyfer y dyfodol<br><br>Rhaglen waith wedi ei lunio ar gyfer 2016/17. | |
| 4 | A4 Parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. | Swyddog Monitro:<br>Uwch Reolwr ADY a Chynwysiad Addysg | Sicrhau arfarniad o ddulliau a gweithdrefnau cofnodi absenoldebau ysgolion uwchradd Gwynedd.<br><br>Sicrhau targedau gwella presenoldeb ysgolion penodol yn unol â'u perfformiad blaenorol a chytuno ar gynllun gweithredu cytunedig gyda phob ysgol ym maes presenoldeb<br><br>Sicrhau bod data presenoldeb yn cael ei archwilio'n fanwl a rhagweithiol gan y gwasanaeth presenoldeb a lles, a chynllunio gwelliant yn dilyn hunan arfarniadau blynyddol. | Gorffennaf 2013 | Yn ystod 2014/15 bu i bresenoldeb disgyblion o fewn y sector uwchradd gynyddu 0.4% i 94.6%. Yn genedlaethol bu i'r ffigwr gynnydd 0.2% i 93.8%.<br><br>Mae presenoldeb ysgolion uwchradd Gwynedd wedi codi o'r 4ydd safle yn 13/14 i gydradd 2il uchaf drwy Gymru.<br><br>Mae'r Gwasanaeth Lles yn parhau i ddatblygu a gweithredu strategaethau presennol yr awdurdod i wella presenoldeb mewn ysgolion uwchradd. | **Wedi'i gwblhau** |
| 5 | A5 Gwella ansawdd hunanarfarnu, a'r modd y caiff cynlluniau gwella a gweithdrefnau rheoli | Swyddogion Monitro:<br>Pennaeth Addysg, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad, | Sicrhau cynhwysedd ychwanegol o fewn yr Adran Addysg i gydlynu materion rheoli perfformiad<br><br>Sicrhau adnabod y rhaglenni gwella unigol sy'n cyfrannu tuag at | Rhagfyr 2013 | Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad, hunan arfarnu a chynlluniau gwella yr Adran Addysg wedi cryfhau.<br><br>Mae gan bob Gwasanaeth/Tîm Gynlluniau Busnes a rhaglenni gwella unigol. Mae'r rhain wedi eu rhannu i dair lefel:<br>• Lefel 1 – Blaenoriaethau Adran<br>• Lefel 2 – Blaenoriaethau Gwasanaeth / Uned | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhelliad | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | perfformiad eu rhoi ar waith yn yr adran addysg. | Swyddog Gwella Ansawdd Addysg Cynorthwyol | fesuryddion yr Adran/ Gwasanaeth Addysg.<br><br>Creu matrics o'r mesuryddion<br><br>Cytuno a sefydlu trefn hunan arfarnu gadarn | | • Lefel 3 – Blaenoriaethau Timau Unigol<br><br>Mae'r Cynlluniau yma'n cynnwys mesuryddion perfformiad a chofrestrau risg sydd yn amlygu'r rhwystrau sydd angen eu symud yn rhagweithiol er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon i bobl Gwynedd.<br><br>Mae llinellau atebolrwydd o'r adran i'r cyngor yn fwy clir a bellach mae 'na gyswllt mwy uniongyrchol o flaenoriaethau corfforaethol i flaenoriaethau'r adran addysg<br><br>Adroddir ar gynnydd ac effaith y gweithredu yn chwarterol ac mae trefn ac amserlen benodol yn ei le er mwyn adrodd i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc ac i'r Cabinet. Mae'r drefn adrodd yn cynorthwyo aelodau'r Cabinet i flaenoriaethu beth i'w gyfarch fel rhan o welliant parhaus y Cyngor. Mae'r drefn hefyd yn sicrhau fod yr aelodau yn gallu dal timau gwasanaeth i gyfri am eu perfformiad, yn ogystal â chynorthwyo cynghorwyr i adnabod materion i'w craffu. | |
| 6 | A6 Parhau i roi cynlluniau ar waith i leihau nifer y lleoedd gwag. | Swyddogion Monitro: Rheolwr Arweiniol (Ad-drefnu Ysgolion Uwchradd), Rheolwr Arweiniol Ad-drefnu Ysgolion Cynradd, Uwch Reolwr Ysgolion, a Swyddog i'w ddynodi. | Gweithredu rhaglenni llefydd gweigion ardaloedd a dalgylchol penodol | Parhaus | Mae'r argymhelliad yma yn gysylltiedig â Phrosiectau P3 i P6 Cynllun Strategol y Cyngor sef 'Rhaglen rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol'. Adroddir ar gynnydd y prosiect i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc ac i'r Cabinet.<br><br>Pwrpas y rhaglen hon yw datblygu rhwydwaith o ysgolion hyfyw i'r dyfodol. Bydd ei chyflawni yn creu gwell amodau i ddatblygu arweinyddiaeth, cynyddu a chysoni safonau addysg, a gwella profiadau i blant a phobl ifanc. Mae angen hefyd cynllunio a modelu ar gyfer strwythur i'r dyfodol gan roi sylw penodol ar gynllunio ar gyfer y trothwy nesaf o brosiectau cyfalaf y Llywodraeth.<br><br>Y prif brosiectau ar gyfer 2016/17:<br>• P3 – Ysgol Hafod Lon<br>• P4 – Dalgylch y Gader<br>• P5 – Ysgol Glancegin<br>• P6 – Dalgylch y Berwyn.<br><br>Ceir manylion pellach yng Nghynllun Strategol y Cyngor.<br>Rhaglen waith wedi ei lunio ar gyfer 2016/17. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

## 4. Blwyddyn 2012-2013 - Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Derbyniwyd 28 Hydref 2013.

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 28 Ionawr 2014, ac i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 13 Chwefror 2014.



| Cyf | GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi un o'r canlynol:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llunio Gwasanaethau** | | | | | |
| 1 | Cynnal y momentwm o ran ad-drefnu gwasanaethau preswyl i bobl hŷn | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cynllun gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglyn a'r ffordd ymlaen<br>• Cytuno ffordd ymlaen gyda chartrefi preswyl y Cyngor Gwynedd Council<br>• Agor Uned Ysbaid yn benodol ar sail peilot<br>• Datblygu cynigion er mwyn darparu ystod o wlâu sydd yn diwallu'r galw drwy Adolygiad Dechrau i Ddiwedd 'End to End' y Gwasanaeth Oedolion. | Mawrth 2014 | Mae gwaith wedi cychwyn i ddatblygu 40 uned Tai Gofal Ychwanegol ar safle Hafod y Gest ym Mhorthmadog mis Mawrth 2016, bydd y cyfnod adeiladu yn parhau am 18 mis, gyda bwriad i gwblhau erbyn Hydref 2017.<br><br>Mae Grŵp Gweithredol a Grŵp Cyfathrebu wedi ei sefydlu mewn partneriaeth gyda Grŵp Cynefin. Mae diwrnodau agored wedi ei drefnu ar gyfer hyrwyddo'r cynllun yn yr ardaloedd lleol yn ystod mis Ebrill a Mai 2016.<br><br>Cyflwynwyd Strategaeth Lletya Pobl Hyn i'r Cabinet 15fed Mawrth 2016.<br><br>Mae'r Cyngor wedi agor unedau gofal tymor byr mewn pedwar o'i gartrefi gofal preswyl drwy gydweithio efo Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.<br>• Mae'r unedau wedi eu lleoli yn: Plas y Don, Pwllheli; Bryn Blodau, Llan Ffestiniog; Llys Cadfan, Tywyn a Plas Pengwaith, Llanberis. Bydd yr unedau yn cael eu defnyddio mewn nifer o amgylchiadau, er enghraifft i roi gofal ysbaid, i roi gofal ychwanegol fel nad oes rhaid i berson fynd i'r ysbyty neu fel rhan o'r gwaith gwella a chryfhau yn dilyn gwaeledd neu anaf. | **Wedi'i gwblhau** |
| | | | | | | |
| | **Cael gafael ar gymorth** | | | | | |
| 2 | Rhagweld y galw am gymorth cymunedol | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a | • Parhau i fonitro er rhagweld y galw<br>• Ymchwil a dadansoddi mewn perthynas â newidiadau | Mawrth 2014 Parhau s | Mae gwaith dadansoddi demograffi yn rhan allweddol o'r cylch cynllunio. Mae'r manylion yma yn cael eu cyflwyno gan yr adran, er mwyn sicrhau fod cynnydd mewn demograffi yn cael eu adlewyrchu o fewn cyllidebau. | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**



| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Llesiant | demograffig a'r effaith ar y gwasanaeth | | Yn ogystal mewn ymateb i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae trefniadau mewn lle i greu Set Data Gyffredinol fydd yn cael ei ddefnyddio I rhagweld galw am wasanaethau i'r dyfodol. | |
| | | | | | | |
| | **Y gwasanaethau a ddarparwyd** | | | | | |
| **3** | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon gwaith / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn á darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia | Mawrth 2014 | Sefydlwyd gwasanaeth dydd arbenigol ar gyfer oedolion a phroblemau cof yn ardal Arfon yng Nghanolfan Dydd Plas Hedd, Bangor. Mae'n wasanaeth newydd sy'n ddarpariaeth ar y cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Darperir y gwasanaeth bob dydd Mercher a dydd Sadwrn. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ddarparu gwasanaeth o'r fath ar ddydd Sadwrn.<br><br>Sefydlwyd clwb cinio gyda Age Cymru yn Tai Gofal Ychwanegol Awel y Coleg.<br>Cytundeb gyda Age Cymru i sefydlu gweithgareddau yn Awel Y Coleg, Y Bala.<br><br>Gwelwyd datblygiadau gan Age Cymru yn Nefyn, Y Bala ac yn Nolgellau, ble sefydlwyd canolfannau Heneiddio'n Dda, gyda nifer o 'glybiau/gweithgareddau' wedi eu sefydlu oddi mewn y canolfannau yma. Mae 36 clwb yn Nefyn a 5 yn Bala. Agorwyd y ganolfan Heneiddio'n Dda Dolgellau ym mis Mehefin 2013. Mae'n agored am 2 ddiwrnod yr wythnos, ac mae nifer o weithgareddau wedi cychwyn fel 'clybiau' mewnol, 5 ar hyn o bryd. Golyga hyn fod 46 o glybiau gweithgareddau bellach yn weithredol i unigolion dros 50.<br><br>Mae gwaith yn parhau i sicrhau bod darpariaeth addas o ofal dydd yn y sir. | **Wedi'i gwblhau** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4** | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i oedolion | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Anabledd Dysgu ac yn benodol:<br>• Adnabod modelau llety a gofal dydd ar gyfer pobl ac Anableddau Dysgu | Mawrt h 2014 | Mae datblygiad model llety newydd Pant yr Eithin, Harlech, wedi ei gwblhau ar gyfer 8 oedolyn gydag anabledd dysgu, 6 byngalo un Ystafell wely ac yn byngalo dwy Ystafell wely.<br><br>Mae gwaith yn parhau yn y maes Anableddau Dysgu i ymgorffori egwyddorion y model 'Symud Ymlaen' ym mhob agwedd o'r gwasanaethau a gynigir. Y weledigaeth yw sicrhau bod pob unigolyn yn cyflawni hyd eithaf ei allu, ac yn cael ei annog i anelu'n uwch a meithrin sgiliau a phrofiadau newydd o hyd.<br><br>Mae Tîm Rheoli Anabledd Dysgu wedi cael ei sefydlu o dan arweinyddiaeth y Uwch Reolwr i gadw ffocws ar ddatblygiad yn y maes ac i weithio a chefnogi wrth drawsffurfio'r gwasanaeth. Yn ogystal mae Bwrdd Prosiect Anabledd Dysgu yn cael ei ail-sefydlu er mwyn cadw ffocws a momentwm ar y gwaith prosiect & targedau arbedion.<br><br>Mae cyfarfodydd chwarterol wedi eu trefnu hefyd gydag iechyd er mwyn eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen trawsnewid. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Trefniadau felly mewn lle yn y maes anabledd dysgu i ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned. | |
| **5** | Datblygu'r amrywiaeth o wasanaethau yn y gymuned yn y gwasanaethau i blant | Pennaeth Addysg | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Anghenion Dysgu Ychwanegol ac yn benodol:<br>• Cytuno ar fodel newydd o ddarparu profiadau a chyfleoedd addysgol i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>• Penderfynu ar safleoedd posibl ar gyfer sefydlu Canolfan Rhagoriaeth Addysg Arbennig newydd yn ardal Dwyfor-Meirionnydd | Mawrth 2014 | Model Newydd<br>• Wedi datblygu Strategaeth newydd yn cynnig ffordd newydd fwy Integredig o gyflwyno gwasanaeth i blant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br>Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys y bwriad i roi mwy o sylw i'r canlynol:<br>• Blynyddoedd Cynnar ac ymyrraeth gynnar;<br>• Sefydlu tîm canolog, Integredig o arbenigeddau penodol i hwyluso cyd-weithio a chyd-gynllunio;<br>• Dad-gomisiynu'r CBAAA;<br>• Rhaglen Hyfforddiant i uwchraddio sgiliau'r gweithlu;<br>• Cyflwyno'r defnydd o Gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.<br>Gobeithio cael cymeradwyaeth y Cyngor i'w mabwysiadu – rhagfyr 2015.<br><br>Canolfan Ragoriaeth Addysg Arbennig newydd Meirionnydd/Dwyfor:<br>• Wedi cytuno ar safle ym Mhenrhyndeudraeth a'r gwaith eisoes wedi cychwyn. Gobeithio cwblhau yn ystod tymor yr Hydref 2016 | **Ar waith** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Yr effaith ar fywydau pobl** | | | | | |
| **6** | Sicrhau bod gwasanaeth yn hybu annibyniaeth i bobl hŷn | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Cynllun Gweithredu 2013-14 Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Pobl Hŷn (gan anelu i sicrhau cydweithio gwell gyda'r Gwasanaeth Iechyd) ac yn benodol:<br><br>Gofal Preswyl<br>• Ystyried argymhellion asesiad lletya a gofal Porthmadog<br>• Adnabod ffordd ymlaen i'r ddarpariaeth yn nalgylch Porthmadog<br>• Gweithredu rhaglen ymgysylltu ynglŷn â'r ffordd ymlaen<br>• Cytuno ffordd ymlaen cyda chartrefi presywl y Cyngor Gwynedd Council Agor Uned Ysbaid benodol ar sail peilot.<br><br>Gofal Dydd<br>• Cytuno ar gynllun sy'n cyfarch anghenion gofal dydd pobl hŷn gan gynnwys cyfleon | Mawrth 2014 | Gweler uchod – 1(i) | **Wedi'i gwblhau** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwiath / gwirfoddoli / cymdeithasu / gofal personol a gofal dwys<br>• Adnabod opsiynau gofal dydd Maesincla Caernarfon<br>• Datblygu Rhaglen Waith ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynglŷn â darpariaeth gofal dydd arbenigol dementia<br><br>Teleofal<br>• Cwblhau adolygiad o achos fusnes teleofal<br>• Cytuno ar y ffordd ymlaen | | Gweler Uchod 3(i)<br><br>Achos fusnes wedi ei gwblhau a ffordd ymlaen wedi ei adnabod. | |
| **7** | Gwella'r broses o gynllunio addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd / Pennaeth Addysg | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos<br>• Rôl allweddol i'r Cydlynydd Addysg Grwpiau Bregus i sicrhau a chodi ymwybyddiaeth ymysg ysgolion Gwynedd am bwysigrwydd cwblhau y cynlluniau addysg personol yn amserol | Parhaus | Mae'r sefyllfa o ran cwblhau cynlluniau addysg personol plant mewn gofal wedi dirywio ymhellach, gyda 25 allan o 66 wedi eu cwblhau o fewn 20 diwrnod ysgol yn 2015/16, sef 37.9%.<br><br>Mae'r Panel Rhiantu Corfforaethol wedi adnabod cynlluniau addysg personol fel maes sydd angen gwaith pellach. Yr her i'r Panel yw sicrhau bod llais y plentyn cael ei clywed ac ein bod yn ymateb i hyn. | **Ar waith** |
| **8** | Sicrhau gwasanaethau iechyd i blant sy'n derbyn gofal | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd / BIPBC | • Y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol | Parhaus | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers nifer o flynyddoedd i geisio datrys y problemau o ran cynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn amserol. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn dal y Bwrdd iechyd i gyfrif er mwyn herio ymarfer a sicrhau fod gwelliannau yn y drefn yn digwydd. Er hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn hynod o siomedig, ond yn ystod y flwyddyn hon rydym yn gweld gwelliant yn y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn gan fod canlyniadau chwarter 1 yn dangos fod 60.7% wedi eu cynnal o fewn amser a 63.4% ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn galonogol ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd yn lleol (60%). Mae yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, ond rydym o'r farn ein bod wedi datrys y problemau mwyaf o ran trefniadau a phrosesau er mwyn gweld cynnydd parhaus. | **Wedi'i gwblhau** |
| | | | | | | |

**ATODIAD 1**

| | GWEITHRED | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Erbyn pryd | Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi un o'r canlynol: <br>• Heb gychwyn <br>• Wrthi'n cael ei gynllunio <br>• Ar waith <br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | |
| **9** | Sefydlu system sicrhau ansawdd yn y gwasanaethau i oedolion | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data <br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol <br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth <br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws y gwasanaeth | Mawrth 2014 | Datblygwyd system newydd erbyn Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran gan amlygu unryw materion ansawdd data. Defnyddir o hyn allan er mwyn adrodd ar ddata perfformiad neu rheolaethol yn unol â'r angen. <br><br>Mae'r gwaith o greu strategaeth sicrwydd ansawdd yn derbyn sylw ac yn cael ei gynllunio o fewn y strwythur newydd yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. | **Ar waith** |
| | | | | | | |
| | **Darparu Cyfeiriad** | | | | | |
| **10** | Sicrhau cefnogaeth gorfforaethol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig ym maes cynllunio addysg | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | • Datblygu Strategaeth <br>• Gweithredu'r Strategaeth | Ebrill 2014 | Mae Strategaeth Rhiantu Corfforaethol yn y broses o gael ei gwblhau, a bydd ffocws ar sicrhau cefnogaeth addysg i blant mewn gofal yn derbyn sylw. Mae'r strategaeth wedi bod mewn ffurf drafft ers cyfnod, ac yn dilyn colli swydd bu oediad yn y gwaith o'i gwblhau. Ers Hydref 2015 mae penderfyniad fod y cyfrifoldeb gweithredol am waith y Panel Rhiant Corfforaethol yn eistedd gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn hytrach na gyda'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, ac mae sicrhau fod strategaeth a chynllun gweithredu clir mewn lle yn flaenoriaeth o ran y rhaglen waith. | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

**5. Mai 20 – 22 Mai 2014: Adolygiad Cenedlaethol o'r Defnydd o Drefniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DOLS) yng Nghymru 2014 – Awdurdod Lleol Gwynedd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC)**

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd barhau i ddatblygu dealltwriaeth am y Ddeddf Galluedd Meddyliol, y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a goblygiadau dyfarniad y Goruchaf Lys ar bob lefel. Dylent sicrhau eu bod yn adeiladu ar wybodaeth a sgiliau presennol rheolwyr gofal mewn gwasanaethau oedolion er mwyn sicrhau, lle ceir achosion awdurdodedig o golli rhyddid, bod adolygiadau rheoli gofal yn adlewyrchu ystyriaeth i ganlyniad ac effeithiolrwydd yr achosion hynny. Dylai'r cysylltiadau rhwng rheoli gofal a monitro contractau mewn gwasanaethau oedolion fod yn fwy cadarn. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae rhaglen hyfforddiant mewn lle gyda chyfleoedd hyfforddiant ar gael ar gyfer pob aelod o staff ac unrhyw berson perthnasol arall sydd yn gweithio yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol (2005),<br><br>Mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant wedi penodi Cydlynydd DoLS sy'n cysylltu ag yn diweddaru'r cartrefi gofal / awdurdod rheoli yng Ngwynedd mewn perthynas ag unrhyw newidiadau ac i ddarparu cefnogaeth yn ôl yr angen<br><br>Mae'r Cydlynydd DoLS wedi llunio pecyn gwybodaeth i gefnogi'r holl weithwyr sy'n ymwneud â phobl a allai gael eu hamddifadu o'u rhyddid.<br><br>Mae'r cydlynydd DOLS yn gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Rheolier mwyn sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig â'r broses yn glir o ran yr hyn sydd angen ei gwblhau a pha feini prawf sydd angen eu gwrdd. Os oes unrhyw ansicrwydd, bydd y cydlynydd yn ymweld â holl unigolion perthnasol i drafod y broses a'r meini prawf, bydd hyn yn adeiladu ar eu gwybodaeth ac yn gwella'r berthynas i gydweithio<br><br>Mae'r Adran yn mabwysiadu trefn Rheolaeth Categori fydd yn cryfhau'r cysylltiad rhwng monitro contactau a rheolaeth gofal. | **Ar waith** |
| 2 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd sicrhau eu bod yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar wybodaeth rheoli perfformiad am y Trefniadau Diogelu wrth uwch reolwyr ac aelodau etholedig. | **Cyfarwyddwr Corfforaethol** | | | Mae adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi gan dynnu at ei gilydd y prif negeseuon, bydd unrhyw bryderon a godir yn cael eu hamlygu ar y pwynt hwnnw. Mae data yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru bob mis, a gwybodaeth yn cael ei drosglwyddo i'r rheolwyr. Mae adroddiad blynyddol yn cael ei ddarparu i AGGCC ac yn cynnwys pob cyfeiriad mae'r corff goruchwylio yn ei dderbyn. | **Wedi'i gwblhau** |
| 3 | Dylai'r Cyngor archwilio i drefniadau rheoli i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau rhwng ei swyddogaethau fel corff goruchwyliol ac fel awdurdod rheoli | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae trefniadau diogelu ehangach yn cael eu rhoi mewn lle gan yr Adran Oeodlion Iechyd a Llesiant<br><br>Mae cydlynydd DoLS yn ei le sydd yn rheoli a monitro'r holl gyfeiriadau sy'n dod i mewn ac yn cysylltu gyda'r adran gyfreithiol i sicrhau nad oes unrhyw wrthdaro.<br><br>Mae camau i sicrhau nad oes gan yr Aseswyr Budd Gorau unrhyw gysylltiadau gyda'r defnyddiwr gwasanaethsy'n caelei asesu. | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Bydd unrhyw bryderon yn cael eu hamlygu i'r Cydlynydd a bydd aseswyr arall yn cwblhau yr asesiad boed yn aseswr annibynnol.<br><br>Mae'r Cydlynydd yn ymwybodol mewn rhai achosion bydd sefydliad yn gorff goruchwylio yn ogystal ag awdurdod rheoli. Bydd yn sicrhau yr aseswyr yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth asesiad aseswyr. Rhaid i bob aseswr wneud ei benderfyniad, a sicrhau bod lefel briodol o wrthrychedd yn cael ei rhoi yn y broses asesu. Rydym yn dilyn y Cod Ymarfer<br><br>Rydym fel Corff Goruchwylio yn ceisio osgoi penodi aseswyr mewn unrhyw achos posib lle bydd ddiddordeb sy'n gwrthdaro neu sefyllfaoedd a allai godi amheuaeth ynglŷn â gwrthrychiad yr asesiad. Mae'r cydlynydd yn ymwybodol o'r hyn a ystyrir yn achos o ddiddordeb a phob asesydd budd gorau yn ymwybodol bod angen iddynt hysbysu'r Corff Goruchwylio os ydynt yn adnabod y person sy'n cael ei asesu neu ei deulu | |
| 4 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau ddatblygu mecanweithiau sicrhau ansawdd mwy cadarn, fel bod yr holl geisiadau, asesiadau ac awdurdodiadau'n cydymffurfio â deddfwriaeth, canllawiau a chyfraith achosion. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae'r adran wedi rhoi trefniadau diogelu ehangach mewn lle<br><br>Bydd cyfarfodydd misol yn cael eu cynnal gyda'r holl Aseswyr Budd Gorau i ddarparu fforwm iddynt i rannu eu gwybodaeth ac adeiladu ar sgiliau.<br><br>Mae'r asesiadau ac awdurdodiadau yn cael eu gwirio yn drylwyr. Mae'r asesiadau yn cael eu gwirio ar dair lefel:<br><br>1) Gan yr Asesydd Budd Gorau<br>2) Cydlynydd<br>3) Corff Goruchwylio.<br><br>Mae newidiadau cenedlaethol yn y trefniadau DoLS yn cryfhau trefniadau ag yn lleihau'r risg o unrhyw fethiannau.<br><br>Bydd y cydlynydd yn mynychu grwpiau penodol i drafod deddfwriaeth a pholisi ar draws Cymru er mwyn diweddaru ynglyn a unrhyw ddeddfwriaeth neu ddatblygiadau newydd. | **Wedi'i gwblhau** |
| 5 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau adolygu eu gallu o ran Aseswyr Budd Pennaf a meddygon Adran 12 i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni gofynion y ddeddfwriaeth a dyfarniad y Goruchaf Lys. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae trefn wedi ei sefydlu ac mae Recriwtio a Hyfforddiant Aseswyr Budd Gorau yn dasg barhaol ac rydym yn anelu i gymhwyso mwy o staff ar gyfer gwella ac adeiladu ar y gwasanaethau, gwybodaeth a sgiliau sydd eisoes yn bodoli o fewn ein hardal. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau adolygu'r modd y maent yn cynnwys personau perthnasol, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Dylent geisio adborth ar eglurder ac effeithiolrwydd gwybodaeth sydd ar gael. Dylent gynnwys manylion o ran sut i gyfleu canmoliaeth, pryderon a chwynion. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae'r person perthnasol yn ffactor bwysig yn y broses asesu hon ac yn darparu gwybodaeth allweddol. Y brif flaenoriaeth gan unrhyw Asesydd Budd Gorau yw casglu gwybodaeth a cheisio canfod eu dymuniadau a'u barn | **Wedi'i gwblhau** |
| 7 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ystyried ble y gallai cydweithio agosach ddwyn manteision ychwanegol a gwella canlyniadau i bersonau perthnasol a.u teuluoedd. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Cynhelir cyfarfod Rhanbarthol bob 3 mis gyda chynrychiolaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac eiriolaeth i drafod deddfwriaeth, a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wella'r gwasanaeth ar gyfer y person. | **Wedi'i gwblhau** |
| 8 | Dylai'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ill dau sicrhau bod hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol a.r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid i reolwyr a staff ym mhob lleoliad gofal cymdeithasol a gofal iechyd perthnasol yn cael ei wneud yn orfodol ac yn cael ei ddarparu.n rheolaidd. Dylent archwilio effeithiolrwydd pob hyfforddiant o.r fath. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | | | Mae rhaglen hyfforddiant mewn lle o dan drefniadau arferol yr Adran. | **Wedi'i gwblhau** |

# ATODIAD 1

## 6. Mai 2014 – Craffu Da? Cwestiwn Da

Nid ydi'r adroddiad hwn yn cynnwys Argymhellion a oedd wedi eu cyfeirio at Lywodraeth Cymru gan hynny, mae'r cyfeirnodau ar gyfer yr argymhellion hynny wedi eu gadael allan.

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses craffu | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r rhaglen waith craffu eleni yn cynnwys mwy o eitemau polisi sydd yn derbyn ystyriaeth ymlaen llaw. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth nad yw hyn yn mynd yn ddigon pell. Bydd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn trafod cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhelliad yn y flwyddyn newydd. *Linc electronig* | Mae Adolygiad 360 gradd y Cyngor a gwaith diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod angen gwneud rhywbeth am y gagendor sydd wedi bod rhwng craffu a'r Weithrediaeth.<br>Mae Is-grwp sydd yn arwain ar ymateb i adroddiad SAC eisoes wedi cymeradwyo rhai camau i fynd i'r afael â hynny o ran edrych ar y model craffu ac adnabod eitemau blaen-graffu penodol | **Ar waith** |
| 2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Yn y cyfamser, mae cwrs hyfforddi wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r Gymdeithas Llywodraeth Leol a'i beilota ar gyfer aelodau craffu. Mae'r cwrs peilot wedi ei gynnal a bydd cwrs pellach ym mis Chwefror. *Linc electronig* | Mae sesiynau hyfforddi wedi eu datblygu a'u rhedeg ar y cyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru gyda 21 o aelodau yn mynychu dros 2 sesiwn.<br>Bwriedir ail-redeg sesiwn o'r fath yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chynnal sesiynau 1:1 gydag unrhyw aelodau craffu newydd | **Ar waith** |
| 3 | Datblygu prosesau blaen raglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>Darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau<br>Canolbwyntio mwy ar ganlyniadau<br>sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a chysoni rhaglenni craffu a threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r broses ar gyfer llunio'r rhaglen waith yn gadarn ond mae angen sicrhau mwy o gysondeb o ran ei weithredu. Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig* | Eleni, wrth lunio blaen-raglen y pwyllgorau craffu am y flwyddyn, rhoddwyd sylw penodol i gyfran o eitemau blaen-graffu gwahanol.<br>Maent wedi eu nodi fel eitemau blaen-graffu a byddwn yn adrodd arnynt felly ac yn medru dilyn trywydd a mesur dylanwad y blaen-graffu wrth i benderfyniadau gweithredol ddigwydd | **Ar waith** |
| 4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig* | Mae'r drefn yn ei le i ganiatáu i'r Pwyllgor Archwiio gyfeirio materion i bwyllgorau craffu ond nid wy wedi ei weithredu eto.<br>Fel mae'n digwydd mae amryw o faterion adroddiadau | **Ar waith** |

# ATODIAD 1

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol | | | archwilwyr allanol wedi cael eu hadnabos ar gyfer blaen-raglen 2016/17 | |
| 6 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*.<br>Yn y cyfamser, rydym wedi cychwyn trefn o gyflwyno prif argymhellion pwyllgorau craffu i'r Cabinet. | Mae'r pwyslais gan Craffu eleni ar geisio bod yn llawer mwy miniog a phendant o ran argymhellion craffu er mwyn medru tracio dylanwad y craffu hynny ar weithredu.<br>Bydd hynny o fudd wrth ysgrifennu'r adroddiad ar graffu 2016/17 a bydd modd gwerthuso effaith y craffu yn gyffredinol yr adeg hynny. Ni chanfuwyd unrhyw fethodoleg i wneud hynny eto | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |
| 7 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae'r Cyngor yn bwriadu edrych ar arfer da a dysgu o gynghorau eraill. Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*. | Mae gwaith yr Is-Grwp Trefniadau Craffu wedi cynnal gwerthusiad o'r trefniadau ar hyn o bryd ac wedi dod i gasgliad y meysydd penodol sydd angen eu gwella, sef:-<br>• Cryfhau'r cysylltiad â deialog rhwng Craffu a'r Cabinet gan wneud mwy o waith datblygu polisi ar y cyd (y Craffwyr â'r Cabinet)<br>• Bod angen eglurder ar pam bod angen craffu ac adnoddau a sgiliau addas<br>• Ffiniau aelodaeth Pwyllgorau rhy sanctaidd a'r pwysau gwaith yn anghyson<br>• Arafwch y broses ac amlder cyfarfodydd<br><br>Mae Cynllun Gweithredu i ymateb i hynny ar waith | **Ar waith** |
| 8 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Y Cynllun Gwaith a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn y flwyddyn newydd. | Mae'r Cynllun Gweithredu a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar waith ac yn cael ei ddatblygu ymhellach gan yr Is-grwp Trefniadau Craffu | **Ar waith** |
| 9 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu a'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu a'r | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Bydd cynllun gwaith yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio i'w drafod yn y flwyddyn newydd. Gellir ffeindio rhagor o wybodaeth yn *Linc electronig*. | Mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi pwyso a mesur trefniadau ymgysylltu'r Cyngor yn ystod 2015/16.<br>Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo Egwyddorion Cyfranogaeth Cymru a bydd yr egwyddorion hynny yn cael eu dilyn mewn gwaith pellach y mae'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol am ei gyflawni yn 2016/17 am y defnydd o iaith symla dealladwy (sydd yn rhan o'r egwyddorion) | **Ar waith** |

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | cyhoedd a rhanddeiliaid. | | | | |

## 7. Gorffennaf 2014: Pobl Ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant – Darganfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Mapio ac adolygu, gyda phartneriaid, y gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r Fframwaith. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | Yn ystod 2016 bydd gwaith pellach yn cael ei wneud parthed dadansoddi gwariant ac adnoddau lleola r gyfer y grŵp pobl ifanc sydd ddim mewn addysg/hyfforddiant/gwaith. Bydd cost y mapio diweddar yn cael ei gwblhau erbyn Mawrth 2106. Bydd gan y Panel gweithredol Pobl Ifanc rôl allweddol i chwarae yn y broses hon gydag argymhellion yn cael eu rhannu gyda'r Grŵp Rheoli Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF). | Mae gwaith mapio gwasanaethau cefnogi a darpariaeth ar gyfer y grŵp NEET (Not in Education, Employment or Training) 16-24 oed wedi ei gwblhau yn Awst 2014 ac wedi ei ddiweddaru yn Nhachwedd 2015. Mae'n cynnwys gwybodaeth am wasanaethau prif lif a phrosiectau ESF (European Social Fund) / grantiau tymor byr. Mae oddeutu 40+ o ddarparwyr lleol sydd yn gweithio gyda'r grŵp NEET 16-24 oed gyda rhai darparwyr yn targedu grwpiau penodol o bobl ifanc megis pobl ifanc ôl ofal / iechyd meddwl ayb.<br>Mae digwyddiad rhannu gwybodaeth am gefnogaeth/darpariaeth ar gyfer y grwp 16-24 wedi ei drefnu mis Mehefin ac bydd darparwyr lleol yn mynychu. Mae'r digwyddiad yn targedu asiantaethau sydd ddim yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd yng Ngwynedd er mwyn mynd i'r afael a bylchau lleol.<br>Mae gwaith mapio wedi ei gwblhau parthed datblygu y cynllun ESF rhanbarthol AD TRACyng nghyd destun y grwp targed NEET. Mae 400 o unigolion 16-24 di waith wedi ei adnabod fel grwp targed ar gyfer y prosiect– gyda amcan gost o 60 miliwn i'r sector gyhoeddus yng Ngwynedd pe bai y grwp hwn yn parhau yn ddiwaith tymor hir . | | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Egluro eu dull strategol | Uwch | Rydym yn y broses o sefydlu | Systemau Tracio 16-18 oed: Mae canllawiau | Mae nifer sydd yn Haen | |

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | o leihau'r gyfran o bobl 19-24 oed sydd yn NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl 16-18 oed. | Reolwr Dysgu a Chymunedol | gweithdrefnau ar gyfer gwella'r broses o drosglwyddo pobl ifanc sydd ddim mewn addysg/hyfforddiant/gwaith o wasanaethau cyn 18 i wasanaethau oedolion/Canolfan Byd Gwaith. Bydd system yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r panel gweithredol Pobl Ifanc gyda ffurflen gyfeirio cyfnod " transition" gyda'r Canolfan Byd Gwaith. Rydym hefyd yn y broses o addasu'r WASPI (Wales Accord on the Sharing of Personal Information) ar gyfer y Canolfan Byd Gwaith a rhannu data. Rydym yn derbyn data NOMIS (National Office Labour Market Stratistics) misol, ond yn ddiweddar wedi cael data niferoedd ESA (Employment Support Allowance) ar gyfer y grŵp 18-24 oed ynghyd a'r ardaloedd. Bydd y cynllun AD TRAC 16-24 yn rhoi cynlluniau ar waith i leihau nifer sydd yn NEET yn yr oedran 18-24 oed ac yn targedu'r grŵp sydd wedi cofrestru am JSA o fewn y 6 mis cyntaf a thargedu ardaloedd lle mae nifer sydd yn hawlio ESA uchel e.e. Ardal Bermo yn Ne Feirionnydd. | tracio & cadw mewn cyswllt mewn lle o fewn yr awdurdod ar gyfer y grŵp 16-18 oed. Mae data 5 Haen Gyrfa Cymru yn cael eu rhannu yn fisol gyda'r Rheolydd Ymgysylltu ac mae adnoddau staffio parthed y gwaith cadw mewn cyswllt mewn lle. ( Gweithwyr Ieuenctid). Mae panel gweithredol Pobl Ifanc 16-24 oed wedi ei sefydlu o fewn yr awdurdod lle mae cynrychiolaeth o asiantaethau perthnasol. Mae cytundeb rhannu gwybodaeth WASPI mewn lle ac wedi ei arwyddo parthed rhannu data. Mae'r panel yn gyfrifol am adnabod y gweithiwr allweddol a hefyd trafod /adnabod y ddarpariaeth gywir. Mae clybiau gwaith gan y Gwasanaeth Ieuenctid/Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith wedi ei sefydlu ar gyfer y grŵp 16-24 oed gyda chyfeiriadau gan y ganolfan byd gwaith. | 1 ac yn anhysbys yng Ngwynedd wedi lleihau dros gyfnod o 6 mis. | **Wedi'i gwblhau** |
| 3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc a rhwystrau sylweddol neu fwy nag un rhwystr o ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rheini sydd fwy tebygol o ail-ymgysylltu heb gefnogaeth ychwanegol sylweddol. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | System cyfeiriadau canolog drwy'r Rheolydd Ymgysylltu a'r Panel Gweithredol Pobl Ifanc 16-24 oed. | Mae dadansoddiad a throsolwg o anghenion grwpiau bregus o bobl ifanc y Sir wedi ei gwblhau yn ystod mis Awst 2015. Mae'r data wedi ei gyflwyno i'r Grŵp Rheoli YEPF ar gyfer blaenoriaethu adnoddau parthed y fframwaith ymgysylltu. Mae'r data wedi ei ddefnyddio ar gyfer llunio cynllun ESF AD-TRAC 16-24 oed. Mae data manwl wedi ei gasglu am bobl ifanc sydd mewn gofal ac ôl ofal, rhieni ifanc, pobl ifanc sydd ag anghenion ac anawsterau dysgu, iechyd meddwl ac emosiynol gofalwyr ifanc ayb. | Data cyfredol am grwpiau bregus yng Ngwynedd a thystiolaeth bod gweithiwr allweddol wedi ei adnabod drwy'r panel pobl ifanc 16+.<br><br>Prosiectau megis PACE/Rhieni Ifanc yn cychwyn gwneud gwahaniaeth parthed cefnogi y grwpiau bregus. | **Wedi'i gwblhau** |
| 4 | Datblygu eu hamcanion | Uwch | Systemau 19-24 oed mewn lle. | Mae cynllun gweithredu YEPF mewn lle ers | | |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | a thargedau er mwyn lleihau'r nifer o bobl ifanc NEET fel y gallant gael eu dal i gyfrif a bod eu gwaith wedi'i alinio a thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. | Reolwr Dysgu a Chymunedol | Cynlluniau a phrosiectau newydd megis AD-TRAC, gwella systemau tracio a mesur effaith a chynnydd o fewn yr awdurdod. | Mawrth 2014 gyda thargedau clir parthed y 6 maes allweddol. Mae'r cynllun yn cael ei gwblhau gan y Rheolydd Ymgysylltu a'i fonitro gan y Grŵp Rheoli YEPF ac yn rhan o gynllun strategol y cyngor o dan y maes "Ymyrraeth Gynnar". Mae copi manwl o'r cynllun gweithredol/strategol ar gael o fewn yr awdurdod sydd yn adnabod blaenoriaethau a chynnydd. Mae'r awdurdod wedi defnyddio grant y fframwaith ymgysylltu ar gyfer cael secondiad o Gyrfa Cymru i arwain y gwaith ers Ebrill 2014. Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd yn ystod y 18 mis diwethaf parthed datblygu systemau adnabod cynnar cyn 16 oed, cynllunio system tracio a chadw mewn cyswllt 16-18 oed, cytundeb rhannu gwybodaeth WASPI cyn ac ôl 16 mewn lle ac wedi ei gymeradwyo, mapio'r elfen cefnogaeth a darpariaeth, sefydlu clybiau gwaith. Mae cynnydd sylweddol wedi digwydd yn ystod y 6 mis diwethaf parthed datblygu systemau adnabod cynnar cyn ôl 16, cynllunio system tracio a chadw mewn cyswllt 16-18 oed, cytundeb rhannu gwybodaeth WASPI cyn ac ôl 16 mewn lle ac wedi ei gymeradwyo, mapio'r elfen cefnogaeth a darpariaeth, sefydlu clybiau gwaith. Mae cynnydd gwaith yn cael ei fonitro o fewn y cynllun strategol Ymyrraeth Cynnar hefyd. | | **Wedi'i gwblhau** |
| 5 | Sicrhau fod aelodau etholedig yn deall yn llawn bod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydlynu gwasanaethau ieuenctid ar gyfer pobl 16 i 24 oed. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | | Mae Aelod Cabinet Arweiniol ar gyfer y maes Plant a Phobl Ifanc a disgyn y maes Pobl Ifanc nad ydynt mewn ACNH (Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) o dan gyfrifoldeb yr aelod honno. Mae'r aelod yn derbyn diweddariad ar y Fframwaith o dan drefniadau llywodraethu Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu yn rhan o'r Rhaglen Ataliol sy'n adrodd i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc, y caiff ei gadeirio gan yr aelod arweiniol ac sy'n tynnu ynghyd aelodau etholedig eraill a phenaethiaid o adrannau amrywiol. Yn | | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | rhan o drefniadau craffu'r Cyngor bydd yr Aelod Cabinet yn adrodd ar gynnydd prosiectau'r Cynllun Strategol i'r Cabinet a chaiff unrhyw brosiect ei alw i'r pwyllgor craffu yn ôl yr angen. | | |
| 6 | Gwella'r broses o werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal sydd wedi'i bwriadu i leihau'r gyfran o bobl ifanc sydd yn NEET. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | Fel rhan o'r Fframwaith Ymgysylltu a'r cynllun gweithredu mae angen mynd ati i ddatblygu system gwerthuso ar gyfer mesur effeithiolrwydd y 6 maes - parthed y system adnabod gynnar a'i effaith, rôl ac effaith y gweithwyr allweddol, system tracio a chadw mewn cyswllt, effaith y ddarpariaeth leol.<br>Rydym wedi bod yn cydweithio ar lefel rhanbarthol gyda'r system adnabod gynnar ac mae opsiynau pellach parthed cydweithio i gael systemau mesur effaith amrywiol. | Mae cynllun ar waith i fod yn monitro effaith y system adnabod cynnar cyn 16 oed ar draws y rhanbarth. Mae'r Rheolydd ymgysylltu yn cael cyfarfodydd cyson gyda Rheolydd TRAC rhan mesur effaith y grwp sydd wedi cael eu hadnabod.<br>Mae gwaith mapio gwasanaethau a chefnogaeth i bobl ifanc 16-24 oed wedi ei gwblhau yn ddiweddar ac mae'r data wedi bod yn ddull effeithiol o fonitro pa wahaniaeth mae rhai gwasanaethau yn cael ei gael ar ymgysylltiad pobl ifanc. | | **Ar waith** |

## ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

**ATODIAD 1**

### 8. Blwyddyn 2013-2014: Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Cyhoeddwyd 31 Hydref 2014.

Cylchredwyd yr adroddiad i swyddogion perthnasol a'r aelodau perthnasol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 11 Rhagfyr 2014 gan Marc Roberts a Vicky Poole, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru gyda chynllun gweithredu'r Cyngor. Yn ogystal cyflwynwyd adroddiad Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r Cabinet ar 19 Chwefror 2015 ble y cytunwyd i roi sêl bendith i'r rhaglen waith sy'n ymateb i argymhellion a meysydd gwella yr Arolygaeth.

| Cyf | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd diweddaraf | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Llunio Gwasanaethau** | | | | | | | |
| 1 | **Cynllunio strategol gyda BIPBC yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).** | Mae'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn rhan o BIPBC ac nid yw'n monitro'r gwasanaeth therapiwtig ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n cael eu lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod, oni bai eu bod wedi gwneud cyfraniad ariannol tuag at y lleoliad. | • Cyfarfod wedi ei gynnal cychwyn Haf 2014 rhwng y Cyngor ag Uwch Reolwyr BIPBC i drafod y maes yma.<br>• Trafodaethau pellach i'w cynnal. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyfarfod wedi ei gynnal cychwyn Haf 2014 rhwng y Cyngor ag Uwch Reolwyr BIPBC i drafod y maes yma.<br>2. Cyfarfodydd lefel Uchel i barhau.<br>3. Is gyfarfodydd hefyd wedi eu cynnal yn sgil y cyfarfod yn Haf 2014. | Is -gyfarfodydd bellach wedi eu cynnal yn sgil y cyfarfod yn Haf 2014 sydd yn cymryd lle yn chwarterol. Hyn yn gam cadarnhaol er sicrhau gwella'r berthynas strategol i'r dyfodol. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | **Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal er mwyn disgrifio tueddiadau ac anghenion y boblogaeth.** | Nid yw systemau'r cyngor yn cipio proffil o boblogaeth y plant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd, a'u hanghenion a aseswyd. Mae'r wybodaeth hon yn hanfodol os yw'r awdurdod yn mynd i werthuso effeithiolrwydd ei strategaethau lleoli a pharhad, a rhagweld yr angen am adnoddau yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth a gyflwynir i baneli amrywiol gyfrannu at broffil manwl o'r angen a welir. | • Yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi sefydlu paneli cynllunio gofal parhaol, panel adnoddau i edrych ar geisiadau o'r newydd a Phanel Comisiynu lleolidau statudol.<br>• Bydd angen crynhoi'r wybodaeth a ddaw am anghenion gofal o'r strwythurau hyn i fwydo i strategaethau gofal y gwasanaeth. | Yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd drwy'r:<br>1. Paneli Cynllunio Gofal Parhaol<br>2. Panel Adnoddau<br>3. Panel Comisiynu Lleoliadau Statudol<br>4. Panel Rheoli Lleoliadau<br><br>Os bo angen uchafu i'r Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc | 1. Paneli wedi eu sefydlu ac yn cael eu cynnal.<br>2. Panel Rheoli Lleoliadau wedi ei sefydlu yn ychwanegol ac hynny yn sgil canfyddiadau yr arolwg End to End Plant. Hwn yn cadw'r ffocws ar leoliadau newydd, sicrhau fod plant yn cyrraedd adref yn amserol. | Bydd yr Adran yn gallu pigo ac adnabod tueddiadau yn deillio o'r paneli yma ond rhaid cydnabod mai proses dros amser fydd hyn. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiweddaraf | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cael gafael ar gymorth** | | | | | | | |
| **3** | **Amseroldeb gwaith asesu cychwynnol yn y gwasanaethau plant.** | Mae angen gwella canran yr asesiadau cychwynnol sy'n cael eu cwblhau cyn pen saith diwrnod; yn 2013- 14, llwyddodd y cyngor i gwblhau 67% o asesiadau cychwynnol cyn pen saith diwrnod gwaith, o'i gymharu gyda chanran gyfartalog o 72% yng Nghymru. | • Un swydd gweithiwr cymdeithasol wedi ei ychwanegu at sefydliad y Tîm Derbyn cyfeiriadau.<br>• Trefniant mewn lle i uwch weithiwr fod yn cymeradwyo'r asesiadau er mwyn gwella'r perfformiad 7 diwrnod.<br>• Gwaith gwella'r trefniadau, megis adroddiadau rheolaidd yn cael ei gynhyrchu i atgoffa rheolwr o achosion sydd angen eu cau. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc | Nid yw hwn yn berthnasol mwyach gan fod y dangosydd yma wedi diflannu gyda'r Ddeddf Gwas Cym a Llesiant. Erbyn hyn mae un asesiad cyfansawdd yn cael ei gwblhau sydd yn cyfatebu gydag anghenion ac mae cyfanswm o 42 niwrnod i gwblhau asesiad a chreu cynllun gofal a chymorth, ond yr ydym yn lleol yn anelu i osod targed i gwblhau asesiadau syml mewn 10 diwrnod gwaith. | Bydd y Gwasanaeth yn monitro'r drefn newydd | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |
| **4** | **Gwelliant parhaus er mwyn gostwng nifer y plant sy'n cael eu hailgyfeirio.** | Gwelwyd gostyngiad yng nghanran y plant sy'n cael eu hailgyfeirio o 39% yn 2011-12 i 26.6% yn 2013-14; fodd bynnag, mae'r ganran hon yn parhau i fod yn uwch na'r ganran gyfartalog yng Nghymru ac mae'n faes y mae angen gwneud gwelliant parhaus ynddo. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd yn monitro hwn yn agos er mwyn sicrhau a chynnal y gwelliant parhaus.<br>• Systemau'r Adran Adran Plant a Theuluoedd bellach yn gwahaniaethu rhwng cyfeiriadau a hysbysiadau, lle nad oedd hyn yn wir yn y gorffennol, sydd wedi arwain at welliant. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd 2015/16 (SCC/010) yn 24.8% sydd yn welliant pellach ar gyrhaeddiad ddiwedd 2014/15 o 25.7%.<br>2. Cyfeiriad y mesur felly yn symud i'r cyfeiriad cywir | Ymdrechion yn parhau a trefniadau dal yn cael eu gweithredu i sicrhau cynnal gwelliant. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• **Heb gychwyn**<br>• **Wrthi'n cael ei gynllunio**<br>• **Ar waith**<br>• **Wedi'i gwblhau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5** | **Ymwybyddiaeth a defnydd o wasanaethau eiriolaeth.** | Adroddodd arolygiad LAC bod pobl ifanc yn dweud eu bod yn cael eu hannog i fynychu eu hadolygiadau a bod eiriolaeth ar gael. Canfu'r arolygiad bod ansawdd y cynlluniau gofal yn amrywio, a bod angen diweddaru hyn yn ystod gwaith asesu dilynol.<br><br>Nid oedd rhai o'r bobl ifanc a welwyd yn ymwybodol o'r gwasanaeth eiriolaeth ac mae'r niferoedd sy'n manteisio ar y gwasanaeth eiriolaeth yn isel, a nodwyd bod y dull gweithredu wedi'i seilio ar faterion a diffyg eiriolwyr sy'n siarad Cymraeg yn rhwystrau. | • Creu consortia rhanbarthol (Gogledd Cymru) er mwyn sicrhau cytundeb darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol o Ebrill 2015 ymlaen.<br>• Proses tendro am wasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol.<br>• Penodi darparwr gwasanaeth Adfocatiaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.<br>• Darpariaeth gwasanaeth Adfocatiaeth Rhanbarthol yn weithredol.<br>• Adolygiad o'r camau hyrwyddo ymwybyddiaeth a chynnydd mewn defnydd. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol<br>- Consortia adfocatiaeth rhanbarthol Gogledd Cymru | 1. Consortia rhanbarthol wedi ei sefydlu.<br>2. Proses tendro wedi mynd rhagddo ac penderfyniad o ran darparwr buddugol wedi ei gwblhau cyn ddiwedd Ionawr 2015.<br>3. Canlyniad y gwaith yma yw fod darparwr eiriolaeth wedi derbyn cytundeb i ddarparu ar draws y chwe Sir yn y Gogledd yn weithredol o Ebrill 1af, 2015. | Yn sgîl y gwaith yma rydym yn cyfrannu tuag at adolygiad o wasanethau eiriolaeth cenedlaethol gyda'r bwriad o sefydlu gwasanaeth cenedlaethol yn y dyfodol agos. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Wedi'i gwblhau** |
| | **Gwasanaethau a ddarparwyd** | | | | | | | |
| **6** | **Cysondeb wrth ymateb i gwynion** | Mae'r cyngor wedi gwneud gwelliannau i'w broses gwyno a'r trosolwg corfforaethol o gwynion. Mae dysgu gan gwynion a'u defnyddio er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn "Ffordd Gwynedd" a materion strategol, ac mae'r cyfarwyddwr corfforaethol bellach yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon.<br><br>Ceir enghreifftiau o gwynion a oedd yn cynnwys y sawl a oedd yn cwyno yn nodi gwelliannau a datrysiadau, ond mae angen gwella cysondeb a'r broses o reoli cwynion ymhellach.<br><br>Mae'r cyngor yn bwriadu gwella'r | • Datblygu / adolygu Strategaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer y gwasanaethau fydd yn cynnwys sylw i'r prosesau cwynion a sylwadau.<br>• Staff yr Uned Gofal Cwsmer i fynychu hyfforddiant arbenigiol cwynion a diogelu data er mwyn datblygu sgiliau'r staff a gwybodaeth yr uned.<br>• Gweithredu yn unol â threfn a rheolaethau cwynion gofal cymdeithasol Llywiodraeth Cymru 2013 (statudol ar y 1af o Fehefin 2014) yn sgil canllaw newydd - Gwneud Pethau'n Iawn.<br>• Yn sgil y drefn a rheolaethau cenedlaethol newydd, diwygio canllawiau a pholisi cwynion yr Adran. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Adroddiad Cynnydd Blynyddol i AGGCC | 1. Rydym wedi lansio polisi lleol newydd, cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth i staff a rheolwyr a lansio taflen wybodaeth newydd i ddefnyddwyr.<br>2. Mae prosiect hefyd ar y gweill i gyd-weithio gyda pherson ifanc i ddatblygu taflen benodol i blant a phobl ifanc ar y drefn gwynion.<br>3. Mae staff yr uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth wedi mynychu hyfforddiant arbenigol cwynion er mwyn datblygu sgiliau'r staff a gwybodaeth yr | Mae dysgu o gwynion a defnyddio'r wybodaeth er mwyn gwella gwasanaethau yn thema bwysig o fewn meddylfryd Gwynedd o sicrhau bod y dinesydd yn ganolog i bob dim yr ydym yn ei wneud. Mae'r Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystyried yr holl ymchwiliadau a gynhelir gan yr Ombwdsmon ac yn ymateb i | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Wedi'i gwblhau** |

**ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17**

# ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwasanaeth, gan ymateb i ganllawiau newydd Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli cwynion. | • Cyhoeddi taflenni gwybodaeth yn sgil y diwygiadau i ganllawiau a pholisi.<br>• Cylch hyfforddiant yn cael ei cynnig i'r staff ar draws y Gwasanaethau Cymdeithasol. | | uned.<br>5. Mae hyfforddiant ar gyfer Rheolwyr Gwasanaethau wedi ei drefnu<br>6. Mae modiwl e-ddysgu ar y drefn gwynion hefyd yn cael ei ddatblygu ar gyfer staff rheng flaen.<br>7.Mae adroddiad chwarterol cwynion yn cael ei greu gan yr Uned sydd yn amlygu unrhyw ystadegau, perfformiad ymateb, materion sydd wedi deillio a gwersi. Mae hefyd adroddiad blynyddol cwynion yn adrodd ar faterion dros y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu rhannu gyda Thimau Rheoli a Rheolwyr er mwyn tynnu eu sylw at unrhyw faterion a gwersi a gwella gwasanaethau o ganlyniad. | gwynion Cam 2. | | |
| **7** | **Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Llety)** | Canfu arolygiad AGGCC o wasanaethau maethu bod gan blant a phobl ifanc leoliadau diogel lle y bodlonir eu hanghenion. Mae gan blant lais a chyfleoedd i ddweud eu dweud, ac mae modd iddynt gael dylanwad ar y ffordd y darparir y gwasanaeth. Canfu arolygiad AGGCC o Ddrws y | • Gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol.<br>• Cynyddu'r amrediad lleoliadau sydd ar gael er mwyn bodloni plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sydd gydg anghenion cymhleth. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Ymdrechion yn parhau.<br>2. Gwynedd yn rhan o beilot i'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod" ynghyd a Chynghorau Merthyr a Rhondda Cynon Taf. Mae'r cynllun "Pan Fydda i'n Barod" yn hybu'r | Y defnydd o asiantaethau maethu yn llai na blynyddoedd blaenorol o ran lleoliadau newydd. Y gwaith yn her barhaus yn enwedig lleoliadau i blant yn eu | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tud. 36 | | Nant, sef y cartref plant a gomisiynir gan y cyngor, ymdeimlad cryf iawn o ofal sy'n canolbwyntio ar y person, lle y nododd pobl ifanc bod pobl yn gwrando arnynt a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.<br><br>Fodd bynnag, bu'r arolygiad o blant sy'n derbyn gofal yn ystyried pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, a chanfu nad yw amrediad y lleoliadau sydd argael yn ddigonol er mwyn bodloni anghenion cymhleth rhai pobl ifanc ac nad yw gweithgarwch priodol er mwyn "cyfateb" anghenion gyda sgiliau gofalwyr maeth bob amser yn digwydd. Mae'r cyngor yn gweithio i gynyddu amrediad y gofalwyr maeth mewnol er mwyn bodloni'r angen hwn. | | | egwyddor nad yw'r gwaith o fagu plentyn yn dod i ben pan mae pobl ifanc yn troi deunaw oed. Mae'r cynllun yn rhoi'r opsiwn i bobl ifanc fedru parhau i dderbyn cymorth a chefnogaeth wrth barhau yn eu lleoliadau maethu tu hwnt i 18 oed. Yn sgil bod yn rhan o'r cynllun peilot mae'r Cyngor wedi:<br>• Cyflwyno'r cynllun i weithwyr y Tîm Ôl 16 er mwyn iddynt fedru trafod opsiynau gyda phobl ifanc a'u gofalwyr.<br>• Darparu gwybodaeth cynnydd a data'n fisol i'r grŵp monitro, gan gynnwys rhoi adborth ar wersi a ddysgwyd er mwyn mireinio'r canllawiau a roddir gan y Llywodraeth pan ddaw'r cynllun yn statudol.<br>• Datblygu polisi drafft a chanllawiau ymarfer ar gyfer y cynllun trwy'r grŵp monitro.<br>• Cynnal grŵp ffocws lleol gyda gofalwyr maeth a phobl ifanc er mwyn ceisio'u barn ar y cynllun. Hwyluswydd y cyfarfodydd hyn gan | harddegau ac y nifer rhwng 0 a 2oed.<br>Adroddiad wedi bod o flaen Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Mehefin 2014 ar "Pan Fyddai'n Barod" | | |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Gweithredu Dros Blant.<br>• Dadansoddi effaith cost o gyflwyno'r cynllun o dan arweiniad Cyngor Rhondda Cynon Taf.<br>• Datblygu fframwaith mesur deilliannau (drafft) ar gyfer pobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun. | | | |
| **8**<br>Tud. 37 | **Cyfleoedd i fanteisio ar ofal iechyd a llety ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. (Iechyd)** | Nododd yr arolygiad cenedlaethol o LAC yr angen i ddatblygu'r cyfleoedd i blant sy'n derbyn gofal i fanteisio ar wasanaethau iechyd sylfaenol a llety camu ymlaen. Fel rhan o'i gyfrifoldebau rhianta corfforaethol, dylai'r cyngor sicrhau bod modd i'r plant y mae'n gofalu amdanynt ddefnyddio gofal iechyd sylfaenol.<br><br>Gwelwyd y perfformiad ar gyfer cofrestru gyda Meddyg Teulu cyn pen 10 diwrnod yn gostwng o 92.5% yn 2012-13 i 78.4% yn 2013-14. Er bod canran yr asesiadau iechyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal wedi gwella 15% i 46%, mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'r sefyllfa'n agos.<br>• Parhau i gynnal y drafodaeth gyda BIPBC i sicrhau adolygu trefniadau gweithredu asesiadau iechyd yn amserol.<br>• Y maes yma yn cael ei adrodd arno yn rheolaidd i'r Panel Rhiantu Corfforaethol. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os bo angen uchafu adrodd i'r:<br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc<br>- Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyrhaeddiad ddiwedd 2015/16 (SCC/039) yn 60.2% sydd yn welliant ar gyrhaeddiad ddiwedd 2014/15 o 50.6%.<br>2. Uchelgais 2015/16 ar gyfer SCC/039 yw 60% felly wedi cyrraedd y targed.<br><br>Mae'r cyrhaeddiad yn 10% yn well na'r flwyddyn flaenorol sy'n galonogol, ond mae'n parhau i fod lawer yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru, sef 81%. | Mae hyn yn peri pryder i'r Cyngor ac mae'n faes sydd yn cael sylw gan y Panel Rhiantu Corfforaethol sydd yn parhau i geisio cynnal y drafodaeth gyda BIPBC i well gwelliant yn y sefyllfa. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |
| | **Yr effaith ar fywydau pobl** | | | | | | | |
| **9** | **Gwerthuso effaith y strwythurau diogelu corfforaethol** | Yn ystod 2013-14, sefydlodd cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn Fwrdd Diogelu Oedolion ar y cyd. Mae'r bwrdd wedi datblygu rhaglen waith er mwyn | • Polisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cymeradwyo gan y Panel Strategol Diogelu.<br>• Trefn adrodd mesur effaith | Panel Strategol Diogelu<br><br>Cabinet<br><br>Tîm Rheoli Corfforaeth-ol | 1. Trefniadau yn parhau yn gorfforaethol. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn cyfarfod yn | Y 3 adroddiad sail trafodaeth Cabinet Rhagfyr 2014 oedd:<br>i. "Adroddiad ar | Cyfarwyddwr Corfforaethol | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | cynyddu'r ddealltwriaeth o ddiogelu ac er mwyn datblygu dull gweithredu ataliol tuag at ddiogelu oedolion. | yn ei le ac yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu, y Cabinet a'r Tîm Rheoli.<br>• Awdit blynyddol yn cael ei gynnal sy'n mesur ansawdd y polisïau a'r gweithdrefnau diogelu ac ymwybyddiaeth staff o sut i weithredu ar adeg o bryder.<br>• Sicrhau awdit annibynnol o ansawdd a gweithrediad y polisi a'r gweithdrefnau drwy samplo gweithdrefnau a lefel ymwybyddiaeth staff o fewn y Cyngor.<br>• Gweithredu ar argymhellion yr awdit. | | rheolaidd bob 6 i 8 wythnos a'r Panel Gweithredol yn cyfarfod bob mis.<br>2. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau 3 archwiliad i faterion Diogelu yng Ngwynedd i Gabinet 16 Rhagfyr 2014. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar argymhellion corfforaethol a wnaethpwyd gan y cyrff archwilio.<br>3. Cymeradwywyd yr argymhellion a'r bwriadau gan y Cabinet . Cytunodd y Panel i gyfannu'r argymhellion yma i Raglen Waith ar gyfer 2015-2016.<br>4. Cyhoeddwyd yr awdit a gomisiynwyd gan y Panel Strategol " Awdit - Diogelu Plant ac Oedolion ( Cyngor Gwynedd ) gan arbenigwr allanol. Mae'n adroddiad cadarnhaol sy'n cynnwys cyfres o argymhellion. Trafodwyd y rhain yn y Panel Strategol a phenderfynwyd eu cyfannu i Raglen Waith 2015-2016. | ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc." Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru ym Mawrth 2013<br>ii. "Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg ." AGGCC yn Awst 2014<br>iii."Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol ." Swyddfa Archwilio Cymru yn Hydref 2014. | | |
| **10** | **Amseroldeb cynhadledd-au** | Mae'r cyngor wedi gostwng nifer y plant y mae'n gofalu amdanynt | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i barhau i fonitro'n agos. | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac os | 1. Gwaith monitro ac derbyn rhesymau | Mae'r Adran yn cadw llygad agos | Pennaeth Adran Plant | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi: <br>• Heb gychwyn <br>• Wrthi'n cael ei gynllunio <br>• Ar waith <br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tud. 39 | **amddiffyn plant.** | o 203 yn 2012-13 i 185 yn 2013-14. Mae wedi sicrhau gwelliant sylweddol yn ei berfformiad o ran amseroldeb adolygu cynlluniau gofal plant sy'n derbyn gofal, gyda 94.3% yn cael eu cynnal o fewn amserlenni statudol bellach, o'i gymharu gyda 75.4% yn 2012-13. Fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn is na'r ganran gyfartalog yng Nghymru (95.9%). | • Yr Adran Plant a Theuluoedd i dderbyn rhesymau gan y Cydlynudd Amddiffyn Plant Adolygu Annibynnol ar gyfer pob cynhadledd sy'n hwyr a gweithredu fel bo'n briodol. | bo angen uchafu adrodd i'r: <br>- Panel Cyflawni Plant a Phobl Ifanc <br>- Grwp Gweithredol Diogelu Plant Gwynedd ac Ynys Mon | am gynhadleddau hwyr yn parhau. <br>2. Cyrhaeddiad ddiwedd 2015/16 (SCC/014) yn 86.7% a SCC/034 yn 85.5%. | ar y rhesymau pam fod cynhadleddau yn hwyr ac yn gweld patrwm clir o fethu cael cworwm (yn unol a Chanllawiau Amddiffyn Plant Cymru gyfan) i gynnal cynhadleddau adolygol yn benodol. Mae'r cadeirydd yn gwneud penderfyniad ar sail barn broffesiynol i barhau â'r gynhadledd heb y partneriaid allweddol, neu i ohirio er mwyn sicrhau presenoldeb. Mae'r materion yn cael eu dwyn i sylw'r partneriaid statudol yn rheolaidd i geisio datrysiad. | a Chefnogi Teuluoedd | |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyflwyno Gwasanaethau Cymdeithasol** | | | | | | | |
| **11** | **Codi ymwybydd-iaeth o oblygiadau a gofynion Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) a gweithredu'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r gweithdrefnau** | Canfu arolygiad DoLS AGGCC bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu i'r aseswyr arbenigol a oedd yn cael eu cynorthwyo gan reolwyr gwybodus a phrofiadol. Nid yw hyfforddiant lleol a gweithgarwch i hyrwyddo DoLS y tu allan i'r cyngor wedi arwain at ymwybyddiaeth eang a dealltwriaeth o'r trefniadau diogelu. Mae'r angen i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant DoLS yn adlewyrchu angen mwy cyffredinol i brif-ffrydio DoLS ar draws y cyngor, gofal cymdeithasol ac iechyd. Nododd arolygwyr y dylai'r cyngor ystyried ei drefniadau rheoli er mwyn sicrhau na cheir gwrthdaro rhwng buddiannau rhwng y corff goruchwylio sy'n goruchwylio proses asesu DoLS a'r awdurdod rheoli sy'n gyfrifol am y gofal a ddarparir.<br><br>Mae cyfraith achosion diweddar wedi ehangu'r cwmpas ar gyfer gweithrediad posibl trefniadau diogelu DoLS yn sylweddol, ac mae hyn eisoes yn cael effaith amlwg ar y galw a'r angen i'r cyngor ymateb mewn ffordd briodol. Mae gan y cyngor 9 o aseswyr budd pennaf ac mae mewn sefyllfa dda i fodloni'r cynnydd o ran y galw. | • Addasu gweithrefnau Gwynedd o ran DoLS.<br>• Penodi Cydlynydd DoLS i Wynedd.<br>• Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>• Llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gyda oblygiadau DoLS.<br>• Llunio a chyflwyno bid ariannol fel am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu chyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd a'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Panel Strategol Diogelu | 1. Addasu gweithrefnau Gwynedd o ran DoLS wedi digwydd.<br>2. Cydlynydd DoLS i Wynedd wedi ei phenodi.<br>3.Bid wedi ei lunio a'i gyflwyno am adnoddau parhaol, ar gyfer ariannu swydd y Cydlynydd DoLS ac ariannu chyfreithiwr a chefnogaeth weinyddol i ymgymryd a'r gofynion DoLS, o 2015 ymlaen fel rhan o broses bidiau'r Cyngor.<br>4. Trefniadau hyfforddi staff o ran gweithdrefnau a gofynion DoLS.<br>5. Y gwaith o llunio rhaglen waith DoLS ar gyfer gwaith pellach o ran ymateb yn lleol gyda oblygiadau DoLS i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2015. | Ymddengys na fydd y bid ariannol am adnoddau corfforaethol parhaol yn llwyddiannus.<br>Angen felly adnabod yr adnoddau allan o gyllidebau'r Adran (o gofio yr agenda arbedion effeithiolrwydd ac torriadau sy'n ein wynebu).<br>Niferoedd ceisiadau DoLS wedi codi yn sylweddol rhwng 2013-14 ac 2014-15.<br><br>Ceisiadau DoLS 2013-14 : 7<br>Ceisiadau DoLS 2014 - 15 : 365<br>Ceisiadau wedi ei awdurdodi 2014-15 : 152<br>Ceisiadau wedi ei asesu ond ddim yn cwrdd a chriteria DoLS : 25<br>Cyfeiriadau ddim yn briodol : 69<br>Rhestr Aros : 119<br>Cyfanswm costau meddygol ers Ebrill 2014 £26,411.72 | Pennaeth Adran Oedolion Iechyd a Llesiant | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12 | **Sicrhau ansawdd – Adran Oedolion Iechyd a Llesiant** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br><br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | • O ran data – datblygu system newydd fydd yn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran ac a fydd yn adrodd ar ansawdd data.<br>• Defnyddio'r system newydd i adrodd yn chwarterol.<br>• Paratoi, datblygu a hyrwyddo canllawiau defnyddio'r system i weithwyr o fewn y meysydd blaenoriaeth.<br>• Llunio a chytuno strategaeth sicrhau ansawdd ar draws yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant. | Tim Rheoli Adran Oedolion Iechyd a Llesiant<br><br>Adroddiad Cynnydd Blynyddol i AGGCC | Datblygwyd system newydd erbyn Mawrth 2014 er mwyn tynnu data yn uniongyrchol o system Rheoli Cofnodi Data yr Adran gan amlygu unryw materion ansawdd data. Defnyddir o hyn allan ac er mwyn adrodd ar ddata perfformiad neu rheolaethol yn unol â'r angen.<br><br>Mae'r gwaith o greu strategaeth sicrwydd answadd yn derbyn sylw ac yn cael ei gynllunio o fewn y strwythur newydd yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. | Byddwn yn paratoi adroddiad chwarterol gan dynnu at ei gilydd y prif negeseuon o gwynion, dangosyddion perfformiad, unrhyw archwiliadau a gwybodaeth drwy'r drefn fonitro contractau.<br>Bwriad yr adroddiad bydd crynhoi'r holl wybodaeth ac yna amlygu'r prif negeseuon a risgiau. Y mae cynnal archwiliadau ansawdd ymarfer gwaith cymdeithasol bellach yn rhan o'r cynlluniau. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | **Ar waith** |
| 13 | **Sicrhau ansawdd - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | Mae gallu'r cyngor i adrodd am y perfformiad mewn ffordd fanwl wedi parhau i wella. Mae'r trefniadau rheoli risg o fewn y gwasanaeth wedi gwella wrth wneud defnydd rheolaidd o gofrestr risg, a'i diweddaru.<br><br>Nid yw'r cyngor wedi sefydlu system sicrhau ansawdd gorfforaethol. Mae'n bwriadu gwneud hynny yn 2014-15.<br>Nodwyd yr angen i wella trefniadau sicrhau ansawdd gan | • Uned Ddiogelu ag Ansawdd i'w sefydlu yn atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd<br>• Ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yng nghyfnod blwyddyn berfformiad 2015/16 | Tim Rheoli Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1. Uned Ddiogelu ag Ansawdd wedi ei sefydlu yn Ebrill 2014 sy'n atebol yn strwythurol i Bennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.<br>2. Gwaith yn mynd rhagddo o ran datblygu'r uned yma. | Yn 2015/16 bydd ymdrechion penodol ar ffurfioli'r fframwaith gwarantu ansawdd plant fel rhan o raglen waith Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| | Maes Gwella | Sylwadau a wnaed gan AGGCC yn eu hadolygiad blynyddol o Wynedd 2013-14 | Cynllun Gweithredu | Sut ydym yn monitro | Sefyllfa cynnydd ddiwedd Mai 2015 | Sylwadau wedi eu hamlygu gan y Gwasanaeth | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | AGGCC yn ystod adroddiad gwerthuso blynyddol y llynedd. Yn ogystal, mae'n faes i'w wella yn yr arolygiadau cenedlaethol a gynhaliwyd yn ddiweddar ac yn yr adroddiad arolygu mabwysiadu. Mae'r cyngor yn mynd i gyflwyno tîm sicrhau ansawdd a diogelu plant ac oedolion trawsbynciol. | | | | | | |
| **Darparu cyfeiriad** | | | | | | | | |
| **14** | **Cymorth rhiantu corfforaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan y Cyngor a phartneriaid.** | Mae'r cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol o ran ei drefniadau rhianta corfforaethol, ond mae angen datblygu'r rhain ymhellach nawr. Bydd y panel rhianta corfforaethol yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal yn ystod 2014-15 er mwyndarparu amlinelliad i'r camau gweithredu y bydd y cyngor yn eu cymryd er mwyn cynorthwyo plant mewn gofal. Bydd angen i aelodau ddarparu mwy o gymorth er mwyn sicrhau bod y nodau strategol yn cael eu perchen mewn ffordd effeithiol a'u troi yn gamau gweithredu ar draws gwasanaethau'r cyngor a chan asiantaethau partner; gan sicrhau gofal iechyd priodol, mwy o gymorth addysgol a chyflogaeth dros dro yn y cyngor ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. | • Datblygu Strategaeth.<br>• Gweithredu'r strategaeth.<br>• Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiantu Corfforaethol wedi ei gyflwyno i'r Cabinet. | Panel Rhiantu Corfforaethol | 1. Cyfarfod diwethaf o'r Panel 20 o Ebrill 2015.<br>2. Trafodwyd:<br>- drafft o'r Strategaeth<br>- Adroddiad iechyd yn ymwneud â phlant a ofelir amdanynt<br>- Gofal iechyd plant mewn gofal<br>- Adroddiad chwarterol plant mewn gofal<br>- Adroddiad cynlluniau addysg personol plant mewn gofal<br>- Y gwasanaeth maethu<br>- Cynllun dechrau i'r diwedd | Mae Tim Trothwy Gofal yn weithredol ers dechrau mis Chwefror 2015 .Nodwyd bod y canlyniadau wedi eu hamserlennu i fynd o flaen y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau cyn diwedd y flwyddyn. Adroddwyd y cynhaliwyd arolwg o'r Gwasanaeth Maethu ddiwedd Hydref – ddechrau Tachwedd 2014 gan AGGCC. Nodwyd ei fod yn arolwg cadarnhaol iawn a'i bod yn fodlon bod y gwasanaeth maethu yn hyrwyddo lles y plant oedd dan eu gofal. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

## 9. Hydref 2014 - Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru

Archwiliwyd Trefniadau Diogelu Plant Awdurdodau Lleol Cyngor Gwynedd gan Swyddfa Archwilio Cymru a chyhoeddwyd adroddiad ym mis Hydref 2014. Yn dilyn hyn cyflwynwyd y cynigion isod yn adroddiad y Cynghorydd Wyn Williams i'r Cabinet ar 16 Rhagfyr 2014. Er mwyn sicrhau fod gweithredu wedi digwydd o ran y cynigion, cyflwynwyd yr adroddiad dan sylw, ynghyd a'r adroddiad cenedlaethol, i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29 Medi 2015). Cytunwyd yn y cyfarfod i'r Grŵp Gweithredol ystyried yr argymhellion cenedlaethol a'r cynigion lleol gan adrodd ar unrhyw fylchau sydd yn parhau ac angen sylw pellach. Bydd y Grŵp Gweithredol yn adrodd yn ôl i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus ar y 02 Rhagfyr 2015.

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Adolygu'r gofynion o dan Ddeddf Plant 2004 ar gyfer Swyddog Amddiffyn Plant Dynodedig Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus - 02.12.15. | 02.12.15 | Aneglurder wedi codi o ran yr argymhelliad, a'r Adran wedi cysylltu gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn trafod yn union beth sydd o dan sylw. Yn disgwyl ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru. | **Ar waith** |
| **2** | Gwella'r craffu ar elfennau allweddol trefniadau diogelu'r Cyngor, drwy, er enghraifft, adrodd yn rheolaidd am berfformiad ynglŷn â recriwtio diogel; presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu a'i effaith; a chanlyniad y rhaglen archwilio ysgolion flynyddol. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br>5. Dylid pwysleisio bod bodolaeth y Panel Strategol Diogelu yn dystiolaeth yn ei hun o graffu'r maes diogelu - dyma ydi un o'r rhesymau i'r Panel fodoli sef i fonitro a chraffu'r maes.<br>Cafodd yr eitem ei adnabod yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ystod y flwyddyn. | 02.12.15 | Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd pan y canolbwyntiwyd ar waith y Panel Strategol Diogelu.<br><br>Penderfynodd y pwyllgor geisio gwybodaeth bellach ar gyfer eu Cyfarfod Paratoi nesaf ar y ffigyrau ar y nifer o achosidon chwythu'r chwibana hefyd goblygiadau yn deillio o adroddiad AGGCC ar gartref preswyl preifat Plas y Bryn, Bontnewydd | **Ar waith** |
| **3** | Darparu hyfforddiant i'r staff i gyd ar Bolisi Chwythu Chwiban y Cyngor. | Rheolwr Dysgu a Datblygu | 1. Cyflwynwyd y cynnig i'r Cabinet – 16.12.14<br>2. Trafodwyd yr adroddiad gyda'r swyddogion perthnasol i geisio adnabod gweithrediadau posib.<br>3. Cyflwynwyd y cynnig i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus (29.09.15) er mwyn gweld os oes angen gweithredu pellach i'r hyn oedd eisoes wedi ei | 02.12.15 | O ran "Chwythu'r Chwiban" yng nghyd-destun Diogelu, mae cyfarwyddiadau ar sut i adrodd pryderon o fewn y polisi a modiwlau Diogelu.<br>Hefyd:<br>○ cyfeirir ato yn y gweithdai i reolwyr<br>○ mae cardiau gyda rhifau cyswllt wedi eu | **Wedi'i gwblhau** |

| Cyf | Cynigion pellach ar gyfer gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Erbyn Pryd | Y drefn monitro a'r cynnydd wnaed hyd yn hyn | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | weithredu.<br>4. Disgwylir sylwadau o ran unrhyw flychau sy'n parhau neu elfennau sydd angen sylw pellach yng Nghyfarfod nesaf y Panel Strategol Diogelu Planc ac Oedolion Bregus - 02.12.15.<br><br>Oherwydd y nifer o unigolion sydd angen derbyn sesiynau sylfaenol codi ymwybyddiaeth yn y maes Diogelu , bydd y sesiynau'n cael eu cynnal drwy e-ddysgu dan ofal y tîm Dysgu a Datblygu.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae Cyfres o weithdai Codi Ymwybyddiaeth i Reolwyr ac Aelodau Etholedig wedi eu cynnal, gyda sesiynau pellach yn cael eu trefnu ar gyfer y dyfodol. | | cylchredeg i staff<br><br>Gan fod hyn ychydig yn wahanol i'r drefn "Chwythu'r Chwiban" cyffredinol, ni ragwelir cynnal sesiynau ychwanegol i'r modiwlau e-ddysgu. | |



## 10. Hydref 2014: Cyflawni a llai – yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd ) | Mae'n gynyddol anodd sicrhau fod y gwasanaeth iechyd amgylchedd yn cyrraedd y safon uwch presennol o ran darparu gwasanaethau iechyd Amgylchedd. Gyda mwy o doriadau yn cael eu hystyried bydd yn effeithio ar wasanaethau statudol rheng flaen - fe fydd yn anodd hyd yn oed cyrraedd y safonau arfer gorau sylfaenol o 2016 ymlaen. Fe fydd y safonau diwygiedig yn adlewyrchu'r cyd-destun ariannol, ac fe fydd hyn yn creu gwell dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o ran pa lefelau gwasanaeth fydd yn bosib. Rydym yn | Mae Safonau Arfer Gorau Cenedlaethol newydd ar fin cael eu cyhoeddi.<br><br>Fe fydd y gwasanaeth yn ymdrechu i gyrraedd y safonau a chyfarch dyletswyddau statudol a rhoi threfniadau yn eu lle ar gyfer hyn (Sefyllfa'r gwasanaeth Iechyd amgylchedd yn un heriol o ran cyrraedd safonau sylfaenol oherwydd torri dwy swydd rheng flaen o'r strwythur) | Effeithlonrwydd, cysondeb, a rheoli disgwyliadau yn ogystal â gallu canolbwyntio ar gyfarch dyletswyddau statudol. | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion | | anelu at gyrraedd y safonau arfer da sylfaenol, lle mae cyllidebau yn gwneud hynny yn bosib. | | | |
| 2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni | Mae gwaith pellach mewn ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ac adolygiad 360 gradd fewnol ar y gweill. Bydd hwnnw yn edrych ar ddatblygu sgiliau craffu aelodau. | Mae sesiynau hyfforddi penodol wedi eu llunio ar gyfer aelodau craffu a bydd ffocws mwy clir eleni yn y gwaith craffu ar yr hyn y mae Craffu yn ceisio gwella.<br><br>Ar ben hynny, bwriedir cynnal un neu ddau o ymarferion eleni i geisi adnabod ffyrdd gwell o fod yn trafod perfformiad | Gwell craffu ar ganlyniadau. | **Ar waith** |
| 3 | Ymgysylltu'n well a thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori a thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion, a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau new newid safonau gwasanaeth. | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Fe fydd y Cabinet yn defnyddio canlyniadau'r holiaduron a'r broses ymgynghori i'w cynorthwyo i wneud penderfyniad ar ba wasanaethau fydd yn cael eu torri. Mae pryder gwirioneddol nad oes gan wasanaethau iechyd yr Amgylchedd broffil ddigon uchel a dyweder, gwaith gwasanaethau cymdeithasol ymysg y cyhoedd, ac mae ymdrechion wedi bod i geisio sicrhau fod y cyhoedd ac aelodau etholedig yn deall beth yw'r risgiau o dorri'r gwasanaethau hyn | Dinasyddion ac aelodau wedi derbyn gwybodaeth fel rhan o'r broses Her Gwynedd. Adolygiad Unedau'r Gwasanaeth wedi cychwyn sydd yn cynnwys canfod barn trigolion ar y Gwasanaeth. Bydd yr Adolygiad yn un fydd yn cymryd amser i'w weithredu ar draws y Gwasanaeth.<br><br>Adolygiad o strwythur y Gwasanaeth yn cael ei gynnal er mwyn ymateb i effaith ymarferol o golli dwy swydd rheng flaen fel rhan o'r toriadau .<br><br>Adolygiad o ffioedd ar gyfer 2016/17 nawr yn weithredol ac yn edrych ar gyfleoedd eraill i godi ffioedd am wasanaeth megis cynnig cyngor. | Y cyhoedd yn ymwybodol o'r oblygiadau ynghlwm a'r toriad swyddi. | **Ar waith** |
| 4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Mae holl ffioedd perthnasol sydd ynghlwm a'r gwasanaethau a gynigir yn cael eu hadolygu fel bod y gwasanaethau yn symud tuag at adennill costau. Mae opsiynau posib o | Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi eu hadolygu dros y 3 blynedd diwethaf er mwyn adnabod beth sydd yn statudol ac yn anstatudol. Rydym hefyd wedi adnabod y dyletswyddau statudol rheini lle mae hyblygrwydd yn y ffordd yr | Gwell effeithlonrwydd . Targedu adnoddau yn fwy effeithiol. Effaith yn y dyfodol yn anodd ei ragweld eto hyd nes y | **Ar waith** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain.<br>• Pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>• cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>• gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>• cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar | | integreiddio neu gydweithio yn agosach gyda gwasanaethau eraill yn y Cyngor wedi eu hystyried er mwyn darganfod os yw yn bosib cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau ymhellach. Mae lleihad wedi bod yn y gweithgareddau hynny nad ydynt yn statudol eisoes. Mae polisïau perthnasol yn cael eu hadolygu fel bod yr hyn a ddisgwylir fel gwasanaeth yn eglur i'r cyhoedd. Rydym yn symud tuag at ddarparu mwy o wybodaeth ar lein gan gynyddu'r hyn sy'n bosib drwy hunan wasanaeth. | ydym yn gallu eu cyflawni , er mwyn defnydd mwy effeithiol o gyllidebau , a thargedu adnoddau at y gwasanaethau rheini na ellir eu cyflawni mewn ffordd wahanol. Mae'r cyngor yn ymwybodol iawn o beth yw ei flaenoriaethau creiddiol; ac mae ymdrech yn cael ei wneud o dan amgylchiadau sy'n gynyddol anodd i ddiogelu cyllidebau'r gwasanaethau rheini sydd yn greiddiol i sicrhau iechyd y cyhoedd, fel diogelwch bwyd , iechyd a diogelwch busnesau a rheoli llygredd. Mae enghreifftiau o weithio ar y cyd ar brosiectau penodol gyda Chynghorau eraill er mwyn sicrhau defnydd mwy effeithiol o adnoddau. | bydd penderfyniad terfynol wedi ei wneud ynglŷn â pha doriadau pellach fydd i wasanaethau rheng flaen greiddiol fel diogelwch bwyd a rheoli llygredd. | |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>• defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>• lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | | | | | |
| 5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail benderfyniadau ar wasanaethau iechyd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr | Rheolwr Gwarchod Y Cyhoedd (Amgylchedd) | Mae mesurau perfformiad lleol yn cael eu hadolygu er mwyn bod yn sicr o'n gallu i fesur galw am ein gwasanaethau yn effeithiol a bod y cyhoedd yn derbyn gwasanaeth safonol ac amserol. Fe fydd y mesuryddion yn gallu cael eu defnyddio i gynllunio os fydd angen adolygu sut mae adnoddau'r unedau gwasanaeth yn cael eu rhannu. | Mae gwaith wedi ei wneud fel rhan dechreuol o adolygiad Unedau'r gwasanaeth i adnabod pwrpas y Gwasanaeth gyda mesuryddion perfformiad wedi eu datblygu sydd yn benodol berthnasol i'r pwrpas.<br><br>Mae trefniadau mesur ac asesu perfformiad wedi ei ddatblygu i wneud y dinesydd yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei gyflawni. Rydym yn herio'r data llawer mwy er mwyn ceisio deall ac i gyflwyno newidiadau lle bo angen.<br><br>Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn gweithredu ar raglen hyfforddiant i wella'r defnydd a'r dealltwriaeth o'r system swyddfa gefn sydd gennym. Hefyd, mae rhaglen yn cael ei rhoi yn ei lle ar gyfer cyflwyno gwelliannau a cheisio blaenoriaethu'r gwelliannau hynny. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn cadw golwg ar system swyddfa gefn Tascomi – sydd yn cael ei chyflwyno mewn awdurodau eraill i ystyried os oes cyfleoedd.<br><br>Bydd edrych ar y cyfleoedd pellach i weithio'n symud a chynyddu'r gweithio'n ddigidol / electroneg yn ffurfio rhan o'r Adolygiad Gwasanaeth | | **Ar waith** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | amgylchedd yn y dyfodol. | | | | | |

## 11. Ionawr 2015 - Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | | Mae Grŵp Tasg Diwygio Lles amlasiantaethol; ynghyd a Bwrdd Diwygio Lles mewnol ar gyfer penaethiaid ac aelodau ar gyfer cynllunio rhaglenni gwaith a chyd-ymyrraethau diwygio lles wedi eu sefydlu. Oherwydd yr oedi a'r llithro yn amserlen cyflwyno'r Credyd Cynhwysol yn y sir mae'r ffocws yn y Bwrdd a'r Grŵp Tasg wedi bob ar faterion trechu tlodi ac amddifadedd yn fwy cyffredinol a bod ymateb i'r Diwygiad Lles yn rhan o agenda ehangach.<br><br>Yn ogystal mae cynllun o fewn y Cynllun Strategol, T7 Cydymdrechu yn erbyn tlodi. Pwrpas y prosiect yw mabwysiadu a gweithredu strategaeth i Drechu Tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid.<br><br>Mae Grwp Gwynedd Digidol a Grwp Cynhwysiad Ariannol Gwynedd yn cyfarfod yn rheolaidd ar gyfer tynnu ynghyd asiantaethau sy'n weithredol yn y meysydd cynhwysiad hyn ar gyfer darparu hyfforddiant rheng flaen ar y cyd; cynnal cyfeirlyfr gwybodaeth o wasanaethau cefnogi a chynghori ayyb. | | **Wedi'i gwblhau** |
| **2** | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am | Uwch Reolwr Dysgu a | Ar fabwysiadau Strategaeth Trechu Tlodi ac adolygu Cynllun Strategol y Cyngor byddwn yn datblygu | Mae'r Cyngor wedi penodi aelod etholedig a chyfarwyddwr corfforaethol arweiniol gyda'r cyfrifoldeb am y maes trechu tlodi (sy'n cynnwys | | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. | Chymunedol | mesuryddion ar gyfer y maes trechu tlodi. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith WRAT a gomisiynwyd yn ystod 2014-15 gyda Capita ar gyfer adnabod anheddau a effeithir gan ddiwygio lles er mwyn mesur os yw'r ymyraethau sydd wedi eu cynllunio fel rhan o'r Cynllun Cydymdrechu yn erbyn Tlodi yn cyrraedd yr anheddau cywir. Bydd y system ddata hon hefyd yn cefnogi asiantaethau allanol i dargedu'r aneddau a effeithir fwyaf gan ddiwygio lles wrth i ni ddatblygu systemau rhannu gwybodaeth. | diwygio lles). Mae'r Aelod Etholedig a'r Cyfarwyddwr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar waith diwygio lles a threchu tlodi yn chwarterol drwy'r Panel Amddifadedd. | | |
| **3** | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | Ar fabwysiadu Strategaeth Trechu Tlodi ac adolygu Cynllun Strategol y Cyngor byddwn yn datblygu mesuryddion ar gyfer y maes trechu tlodi. | Mae arweinyddion prosiect yn adrodd cynnydd prosiectau i'r Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr yn rheolaidd ar waith diwygio lles a threchu tlodi yn chwarterol drwy'r Panel Economi, Tlodi, Amddifadedd a Thai. | | **Wedi'i gwblhau** |
| **4** | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull | Uwch Reolwr Dysgu a Chymunedol | | Mae'r Cyngor wedi adnabod Prosiect Cydymdrechu yn erbyn Tlodi fel prosiect blaenoriaeth yn y Cynllun Strategol ar gyfer y cyfnod 2015-17. Mae cynllun gwaith y prosiect | | **Wedi'i gwblhau** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. | | | hwn a drefnir yn ol meysydd sef Strategol a Llywodraethu; Cynhwysiad Economiadd; Cynhwysiad Digidol a Cynhywisad Ariannol yn nodi yr hyn y bydd y Cyngor ac eraill yn ei wneud i ymateb i ddiywgio lles a tlodi. Mae grwp gweithredol mewn lle i bob ffrwd a hwythua yn adordd drwy'r rheolwr prosiect i'r Panel Amddifadedd. | | |
| **5** | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. | Rheolwr Tai Strategol | • Gwybodaeth gan yr Uned Ymchwil yn cael ei ddefnyddio er mwyn targedu cymorth yn effeithiol<br>• Bydd y Cymdeithasau Tai yn parhau i hyrwyddo'r llinell gymorth gan gynnig cefnogaeth 1i1 i denantiaid sydd eu hangen<br>• Bydd unedau llai ( 1 a 2 lofft ) sydd wedi eu hariannu drwy Grant Tai Cymdeithasol Unedau Llai yn cael eu cwblhau mis Ionawr ymlaen. Mae'r rhain yn gynllun penodol o gyflenwad o dai newydd ar gyfer rhai sydd wedi eu heffeithio gan ddiwygio lles. Mae polisi gosod wedi ei gymeradwyo gan y Gymdeithas Tai er mwyn sicrhau bod rhai sydd yn cael eu heffeithio gan ddiwygio lles yn cael eu cynorthwyo / cynnig eiddo addas | • Uned Ymchwil wedi defnyddio data i adnabod ardaloedd penodol fyddai yn cael eu heffeithio gan newidiadau Diwygio Lles gan helpu targedu y cymorth cywir i'r bobl sydd angen y cymorth fwyaf<br>• Cymdeithasau Tai gyda swyddogion i'w cynghori ar opsiynau posib yn sgil newidiadau i golli cymhorthdal ystafell sbâr- hyn yn bosib drwy gysylltu drwy'r wefan, lythyr, ymweliad neu alwad ffôn<br>• Pob Cymdeithas Tai wedi hyrwyddo llinell Gymorth ' mae eich budd-daliadau yn newid' yn gyson drwy eu cylchlythyrau a safle we<br>• Tîm Opsiynau Tai sydd yn gweinyddu'r Gofrestr Tai Cyffredin yn rhoi cyngor ar y math o eiddo sydd mwyaf addas i ymgeiswyr fel nad ydynt yn cael cynnig cartref fydd yn golygu eu bod yn talu yn ychwanegol<br>• Defnydd o safleoedd fel Homewapper wedi cael ei hyrwyddo fel bod tenantiaid yn gallu cyfnewid eu tai | | **Wedi'i gwblhau** |
| **6** | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer | Uwch Reolwr – Refeniw a Risg / Rheolwr Budd-daliadau | Byddwn yn parhau i adolygu'r Polisi yn flynyddol, gan ystyried yr arian fydd ar gael ar gyfer y cynllun. Byddwn hefyd yn ystyried oblygiadau unrhyw achosion llys, megis Hardy v Sandwell Borough Council (2015). | Yn dilyn gwaith trwy'r WLGA a fu Gwynedd yn rhan ohono cynhyrchwyd Fframwaith Polisi y gallai pob Cyngor ei ddefnyddio fel sail i bolisïau cyson ar draws Cymru. Cyflwynwyd y Fframwaith i aelodau'r Grŵp Prosiect Amddifadedd yn Rhagfyr 2014, ac mewn ymarferiad ymgynghori rhannwyd y Polisi drafft i randdeiliaid megis Cymdeithasau Tai, y Bwrdd Iechyd a chynrychiolwyr o'r Drydydd Sector. Mabwysiadwyd Polisi Taliadau Tai Dewisol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2015/16 yn | | **Wedi ei gwblhau** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u | | | ffurfiol trwy Daflen Penderfyniad yr Aelod Cabinet perthnasol, dyddiedig 17 Mawrth 2015. | | |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | hanghenion o ran tai. | | | | | |

## 12. Chwefror 2015 - Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Dylai cyrff cyhoeddus ddefnyddio achosion busnes wrth ymdrin â phob ymadawiad cynnar unigol. Dylai'r achosion busnes ganfod beth yw cost ymadawiad yr unigolyn a beth yw'r goblygiadau o ran darparu gwasanaethau, gan ystyried hefyd sut y bwriedir cynllunio'r gweithlu yn fwy cyffredinol. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Mae'r ymarfer o ddefnyddio achosion busnes cyn dod i benderfyniad ar achosion unigol o ymadael yn gynnar wedi ei sefydlu o fewn y Cyngor. Mae'r ystyriaethau yn cynnwys y gost sydd ynghlwm ag unrhyw ymadawiad cynnar ochr yn ochr â'r effaith bosib ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnal. Fel enghraifft, mae polisi ymddeol yn gynnar y Cyngor yn cyfeirio at yr arfer gorau o seilio penderfyniadau o'r fath ar arferion gorau. | | **Wedi ei gwblhau** |
| 2 | Rydym yn argymell y dylai corff cyhoeddus:<br>• Sicrhau bod cynghorwyr neu aelodau bwrdd yn cael cyfle i ystyried a yw cynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn rhoi gwerth am arian, trwy gyfrwng eu trefniadau craffu/llywodraethu presennol.<br>• Sicrhau bod cynghorwyr a/neu aelodau bwrdd yn cymeradwyo pecynnau mwy costus, fel y rhai ar | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Mae'r agwedd hwn o'r ymateb wrthi'n cael ei ddatblygu. Er enghraifft, cyflwynwyd adroddiad yn ddiweddar i bwyllgor craffu corfforaethol y Cyngor oedd yn cyfeirio at rai elfennau yn ymwneud ag ymddeoliadau cynnar. Nid oes gennym enghreifftiau diweddar lle bo angen derbyn cymeradwyaeth cynghorwyr ar gyfer pecynnau mwy costus. Fodd bynnag mae uned archwilio mewnol y Cyngor wedi rhaglennu ymchwiliad ar gyfer cyfnod 2016/17 a fydd yn ystyried rheolaeth o'r maes ymadael yn gynnar. | | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer uwch reolwyr.<br>• Ystyried defnyddio archwilwyr mewnol i roi sicrwydd bod yr holl gynlluniau ar gyfer ymadael yn gynnar yn cael eu rheoli'n ddigonol. | | | | | |
| **3** | Dylai cyrff cyhoeddus sicrhau, pan ddefnyddir cytundebau setlo, fod eu cofnodion yn dangos yn glir a yw'r pecyn yn cynnwys taliad ychwanegol ai peidio ac os felly faint yw ei werth a pham y cafodd ei roi. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Mae gan y Cyngor drefniadau yn eu lle ers tro sydd yn sicrhau fod yna gofnod o fanylion unrhyw gytundeb setlo. | | **Wedi ei gwblhau** |
| **4** | Dylai cyrff cyhoeddus ystyried yn briodol beth yw effaith pob trefniant ar gyfer ymadael yn gynnar o safbwynt cydraddoldeb, yn enwedig os yw corff cyhoeddus yn gweithredu cynllun penodol lle gallai llawer o bobl ymadael. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | | Er bod trefniadau asesu effaith wedi eu datblygu ers rhai blynyddoedd bellach, mae lle i gredu fod y gwaith yn anghyson. Rydym wedi adnabod asesu effaith cydraddoldeb yn gyffredinol fel blaenoriaeth o fewn ein Cynllun Cydraddoldeb nesaf. | | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |
| **5** | Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol. | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | Bydd ystyriaeth o'r elfen hon yn ymchwiliad yr uned archwilio mewnol y cyfeirir ato yn A3 uchod. | Bydd ystyriaeth o'r elfen hon yn ymchwiliad yr uned archwilio mewnol y cyfeirir ato yn A3 uchod. | | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |
| **6** | Dylai cyrff cyhoeddus adolygu eu trefniadau ar gyfer cadw cofnodion pan wneir trefniadau i staff ymadael yn gynnar, fel y | Pennaeth Gefnogaeth Gorfforaethol / Rheolwr Gwasanaeth | Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Rhagwelir y bydd yr archwiliad y cyfeirir ato yn A3 uchod | Mae'r Cyngor yn cadw cofnodion manwl ynghylch penderfyniadau yn ymwneud ag ymadael yn gynnar, gan gynnwys y costau sydd ynghlwm. Rhagwelir y bydd yr archwiliad y cyfeirir ato yn A3 uchod yn rhoi peth ystyriaeth i'r elfen hon. | | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

**ATODIAD 1**

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | bydd gwybodaeth hollbwysig wrth law ganddynt gan gynnwys nifer yr ymadawiadau cynnar mewn cyfnod penodol a chostau'r rhain, ynghyd â gwybodaeth am y cyfnod ad-dalu yn seiliedig ar gyflogau a chostau Yswiriant Gwladol a phensiwn y cyflogwyr a gwybodaeth am gytundebau setlo. | au Ymgynghorol Adnoddau Dynol | yn rhoi peth ystyriaeth i'r elfen hon. | | | |



## 13. Blwyddyn 2014-15 - Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd 7 Gorffennaf 2015.

Bu cyflwyniad i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, Aelodau Cabinet, Penaethiaid, Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Archwilio ar **30 Gorffennaf 2015**.

| Cyf. | Gweithred | Arweinydd | Cynllun Gweithredu | Sylwadau / Cynnydd | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi un o'r canlynol: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Cymryd rhan lawnach yng Nghynllun Gwastraff ac Adnoddau Llywodraeth Cymru er mwyn dilysu a/neu wella cynlluniau ailgylchu gwastraff a lleihau costau. | Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Cais wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru i gael gwneud ymarferiad 'Toolkit Waste & Resources Action Programme'(WRAP) dan y 'Collaborative Change Programme' (CCP). Dim cyllideb ar gael dan Raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud hyn eleni,ond yn fodlon ystyried hyn ar gyfer 2016/17. | WRAP, gyda chynhorthwy'r Adran yn gwneud yr adolygiad Kerbside Analysis Tool (KAT) ar hyn o bryd. Disgwyl adroddiad drafft ar yr adolgiad yn mis Medi. | **Ar waith** |
| **2** | Sicrhau – ar y cyd â'r partneriaid – fod gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd ddigon o adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol, gan gynnwys diweddaru'r Cynllun Integredig Sengl. | Uwch Reolwr Gwasanaeth Cyflawni a Chefnogi Newid | | Cytundeb mewn lle ar gyfer 2016/17. Trefniadau newydd ar gyfer 2017/18 yn sgil sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol/ | Wedi'i gwblhau |

# ATODIAD 1

## 14. Gorffennaf 2015 – Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghymru

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod: | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | • Uwch Swyddog Arweiniol wedi ei benodi<br>• Aelod arweiniol dros ddiogelu wedi ei phenodi<br>• Gwybodaeth am y penodiadau yn cael eu rhannu gyda staff | | **Wedi'i gwblhau** |
| 2 | Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y cyngor. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | | Polisi Corfforaethol mewn lle yn ogystal â pholisïau adrannol unigol. | | **Wedi'i gwblhau** |
| 3 | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy: | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu ac Atal (GDA) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau GDA; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Mae polisïau a chanllawiau cadarn mewn lle ynglyn a gwiriadau GDA, ac mae lefelau yn cael eu monitro'n rheolaidd. Cymalau o fewn contractau yn bodoli yn mynnu arferion recriwtio diogel. | | **Wedi'i gwblhau** |
| 4 | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y cyngor, a'i fod yn cael ei gynnwys fel | Modiwl e-ddysgu diogelu plant ac oedolion bregus wedi ei ddatblygu . Yn ogystal mae polisi'r Cyngor ar gael yn y Canolfan Bolisi ar fewnrwyd | | **Ar waith** |

## ATODIAD 1

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd: • Heb gychwyn • Wrthi'n cael ei gynllunio • Ar waith • Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | trwy: | | elfen safonol ar raglenni cynefino; • creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a • mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | y Cyngor. | | |
| **5** | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y cyngor ynglŷn â'r canlynol: | Cyfarwyddwr Corfforaethol | • meincnodi a chymharu ag eraill; • casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol; • data perfformiad seiliedig ar wasanaethau; • data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio GDA; a • pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r cyngor | Adroddiad yn cael ei gyflwyno gan y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion bob 6 mis i'r Cabinet, yn ogystal mae adroddiadau prosiectau'r maes yn cael eu adrodd o fewn trefniadau rheoli perfformiad arferol y Cyngor. | | **Ar waith** |
| **6** | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r cyngor. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | | Trefn ar gyfer adolygiadau archwilio mewnol ar arferion diogelu'r cyngor mewn lle. Archwiliadau ar drefniadau diogelu a telerau contractau wedi eu cynnal gan yr Uned Archwilio Mewnol. Rhaglen waith wedi ei lunio ar gyfer 2016/17 sy'n cynnwys holiadur ar gyfer gweithwyr maes ac archwiliad diogelu ysgolion. | | **Wedi'i gwblhau** |
| **7** | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar | Cyfarwyddwr Corfforaethol | | Mae risgiau sy'n gysylltiedig a diogelu yn cael eu hadnabod ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth, ac yn cael eu nodi mewn cofrestr risg. | | **Wedi'i gwblhau** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Mesurydd Effaith | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gynlluniau rheoli risg ar draws y cyngor. | | | | | |

## 15. Blwyddyn 2014-15 – Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) – Cyhoeddwyd 30 Hydref 2015

Cyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 26 Tachwedd 2015.
Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cabinet ar 15 Rhagfyr 2015.
Cyflwynwyd cynllun gweithredu drafft cyntaf i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 28 Ionawr 2016 a chynllun gweithredu llawn i gyfarfod paratoi'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ar 23 Chwefror 2016.

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1.1** | Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.<br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | *Camau Gweithredu yn unol â maes gwella 2.1.*<br><br>Yn ogystal mae'n fwriad adolygu trefniadau gweithredol Diogelu yn sgil y newidiadau i'r strwythur staffio a'r dyletswyddau statudol newydd daw i rym yn Ebrill 2016. Bydd y gwaith yma yn cael ei arwain gan Dîm Rheoli Oedolion, Iechyd a Llesiant. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar waith |
| **1.2** | Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu | 6.10 - .... Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i | Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad mae'r Arolygaeth yn mynd i gymryd camau dilynol yn ystod eleni. Un o'r prif gamau dan sylw yw'r archwiliad a gynhaliwyd yn Ionawr 2016. Mae'r archwiliad hwn yn rhan o raglen waith cenedlaethol ehangach ar draws Cymru. Rhagwelir felly y bydd argymhellion clir a | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Wrthi'n cael ei gynllunio |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi: <br>• Heb gychwyn <br>• Wrthi'n cael ei gynllunio <br>• Ar waith <br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2014-15, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. | chadarn yn cael eu cyflwyno ar gyfer y maes hwn, ac y byddem yn ymwybodol ohonynt yn Chwefror / Mawrth 2016. Bydd y Gwasanaeth yn manteisio'n llawn o fod yn cael barn yr arolygwyr ac yn sicrhau ein bod, os oes angen, yn gweithredu newidiadau mor fuan â phosib | | |
| **1.3** | Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd meddwl | 6.10 - Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016..... | Mae Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu i gyfarch materion gweithredol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau o safon sydd yn cwrdd ag anghenion unigolion tra bod yn fforddiadwy ac yn cwrdd â chyfrifoldebau statudol. <br><br>Mae gwaith wedi cychwyn o adolygu'r holl brosesau comisiynu gwasanaethau yn y maes er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian ac yn gost effeithiol wrth gwrdd â safonau disgwyliedig <br><br>Mae prosesau caffael cadarn wedi eu cytuno ac yn cael eu dilyn wrth gomisiynu'r holl wasanaethau iechyd meddwl er mwyn sicrhau gwerth am arian. <br><br>Dros y 12 mis sydd i ddos fydd y prosiect hefyd yn blaenoriaethu adolygiadau yn edrych yn benodol ar: <br><br>• Gweithwyr Cefnogol <br>• Gofal Preswyl a Nyrsio <br>• Llety Cefnogol <br><br>Er mwyn sicrhau fod trefniadau newydd mewn lle sy'n cwrdd ar ofynion statudol. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar waith |
| **2.1** | Diogelu oedolion | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.... <br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau | Fel sydd wedi cael ei nodi yn yr adroddiad mae Diogelu'n flaenoriaeth i'r Cyngor. Trwy adolygu'r Cynllun Strategol ym mis Gorffennaf eleni comisiynwyd tri phrosiect trawsffurfiol yn y maes. Mae'r prosiectau hyn wedi eu comisiynu mewn ymateb i rai o'r heriau flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol o ran y maes Oedolion mae'r prosiect isod wedi ei gomisiynu. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Ar waith |

## ATODIAD 1

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | **D3 - Diogelu oedolion bregus**<br>Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion.<br><br>Bydd cynnydd y prosiect hwn yn cael ei adrodd arno trwy drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor.<br><br>Ymhellach i'r comisiwn gwreiddiol yn y Cynllun Strategol, mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi gofyn i Arweinydd Prosiect D3 sicrhau ei fod yn cynnwys unrhyw argymhellion o Adolygiadau Arfer Gwasanaethau (APR - *Adult Practice Review*). | | |
| **2.2** | Cymorth i ofalwyr | 6.14 - Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132. | Bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau cefnogi gofalwyr di dal yng Ngwynedd. Mae pwysau cynyddol yn debygol o fod ar ein gofalwyr di dal yma yng Ngwynedd i'r dyfodol ac yn benodol o fewn y maes gofal oedolion.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2017 byddwn felly wedi adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr di dal ac, os oes angen, wedi penderfynu ar yr ymyraethau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal gofalwyr i'r dyfodol.<br><br>Bwriedir canolbwyntio ar y maes Oedolion, ond dylid sicrhau nad ydym anghofio am y gofalwyr ifanc rheini. Byddwn yn ystyried y briff yn fanylach yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn penderfynu beth yn union ddylid ei gynnwys o ran yr Adolygiad. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant | Wrthi'n cael ei gynllunio |
| **3.1** | Amseroldeb asesiadau cychwynnol | 6.21 - Mae perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (70% o'i gymharu â 76%), ac mae'n dal yn faes y mae angen i'r cyngor ei wella. | Nid yw hwn yn berthnasol mwyach gan fod y dangosydd yma wedi diflannu gyda'r Ddeddf Gwas Cym a Llesiant. Erbyn hyn mae un asesiad cyfansawdd yn cael ei gwblhau sydd yn | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi | **Wedi'i gwblhau** |

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cyfatebu gydag anghenion ac mae cyfanswm o 42 niwrnod i gwblhau asesiad a chreu cynllun gofal a chymorth, ond yr ydym yn lleol yn anelu i osod targed i gwblhau asesiadau syml mewn 10 diwrnod gwaith. | Teuluoedd | |
| **3.2** | Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Mae cynnydd yn y niferoedd o blant sydd wedi eu cynnwys ar Gofrestr Amddiffyn Plant ac mae hyn yn dilyn patrwm cenedlaethol ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynyddu pwysau ar y gwasanaeth o ran capasiti i gadeirio a chynnal cynadleddau o fewn yr amserlenni a nodir yn y canllawiau cenedlaethol.<br><br>Mae'r gwasanaeth yn cadw llygad barcud ar berfformiad yn y maes yma ac yn cadw gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam nad ydi rhai cynadleddau yn digwydd o fewn amserlen. Nid oes unrhyw reswm penodol, nodweddiadol yn arddangos ei hun ond mae'n gyfuniad o resymau e.e. teulu ddim ar gael i fynychu, dim cworwm proffesiynol (gofyn statudol ar gyfer proses benderfynu).<br><br>Mae'r materion o ran diffyg cworwm wedi ei godi gydag asiantaethau penodol ac yn y Grŵp gweithredol diogelu ar draws Gwynedd a Môn, ac mae yn derbyn sylw gan yr heddlu yn benodol i geisio gwella'r sefyllfa.<br><br>Mae perfformiad adolygiadau statudol plant mewn gofal wedi gwella yn sylweddol dros gyfnod o flynyddoedd. Mae niferoedd plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi cynyddu yn ystod 15/16 - o 186 ar ddiwedd chwarter 1 i 202 ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac mae yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion adolygu annibynnol sydd yn cadeirio holl adolygiadau plant mewn gofal. O ystyried mai'r argymhelliad ymarfer da cenedlaethol ar gyfer swyddogion adolygu annibynnol yw eu bod yn dal oddeutu 50 achos yr un ar gyfer adolygu, mae'r swyddogion sydd gennym mewn lle (2.6FTE) yn gweithio yn llawer | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |

## ATODIAD 1

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | uwch na'u capasiti. Er hynny mae perfformiad chwarter 1 a 2 eleni yn galonogol gan fod perfformiad o ran amseroldeb yn 89.4% ar ddiwedd chwarter 1 a 91.3% ar ddiwedd chwarter 2. | | |
| **3.3** | Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Fel y nodir uchod yn 3.2 mae cynnal cynadleddau adolygol amddiffyn plant o fewn amserlen yn her yn bresennol am y rhesymau a nodir uchod. Mae perfformiad chwarter 1 a 2 wedi bod yn heriol – 71% ar ddiwedd chwarter 1 a 77% ar ddiwedd chwarter 2. Mae dangosyddion mesur presenoldeb cynadleddau achos amddiffyn plant yn dangos fod gweithwyr cymdeithasol yn bresennol yn 100% ohonynt, ond fod her i sicrhau fod cworwm o asiantaethau partneriaid ymhob cynhadledd adolygol. Pan nad oes cworwm mae'r cadeirydd yn gorfod gwneud penderfyniad i unai barhau a'r gynhadledd neu i ohirio hyd nes bydd cynrychiolaeth gofynnol yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniad. Mae'r materion yma yn derbyn sylw penodol gyda'r asiantaethau hynny ar lefel weithredol a strategol. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |
| **3.4** | Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal | 6.31 - Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%). | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers nifer o flynyddoedd i geisio datrys y problemau o ran cynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn amserol. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn dal y Bwrdd iechyd i gyfrif er mwyn herio ymarfer a sicrhau fod gwelliannau yn y drefn yn digwydd. Er hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn hynod o siomedig, ond yn ystod y flwyddyn hon rydym yn gweld gwelliant yn y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn gan fod canlyniadau chwarter 1 yn dangos fod 60.7% wedi eu cynnal o fewn amser a 63.4% ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn galonogol ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd yn lleol (60%). Mae yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, ond rydym o'r farn ein bod wedi datrys y problemau mwyaf o ran trefniadau a phrosesau er mwyn gweld cynnydd parhaus. | Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | Ar waith |
| **4.1** | Gweithredu rhaglenni | 7.8 - Mae sylw corfforaethol wedi ei roi i gefnogi moderneiddio | Mae'r prosiectau trawsffurfiol sydd wedi eu | | Wedi'i gwblhau |

**ATODIAD 1**

| Cyf | Meysydd i'w gwella | Sylwadau perthnasol AGGCC | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb | Ystyriwch y cynnydd drwy nodi: <br>• Heb gychwyn <br>• Wrthi'n cael ei gynllunio <br>• Ar waith <br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | moderneiddio | gwasanaethau cymdeithasol ac ymateb i'r Ddeddf. Mae'r ddau adolygiad sylweddol o drefniadau gweithredol mewn gwasanaethau plant ac oedolion wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth corfforaethol. Mae'r strwythur adrannol newid wedi caniatáu aliniad agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ataliol. | comisiynu trwy'r Cynllun Strategol yn derbyn cefnogaeth a chraffu trwy drefniadau Paneli Cyflawni'r Cyngor, ble mae arweinydd y prosiect yn adrodd ar gynnydd y prosiectau yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi eu cytuno. Yn dilyn hyn mae'r Aelod Cabinet perthnasol yn adrodd ar berfformiad y prosiectau trawsffurfiol i'r Cabinet mewn cylch 12 wythnos. Mae'r prosiectau trawsffurfiol sydd wedi eu comisiynu yn rhoi sylw i newidiadau mewn ymarfer a chyfrifoldebau - a hynny o fewn disgwyliadau'r ddeddf.<br><br>Yn ogystal â hyn mae trefniadau rheolaeth rhaglen mewn lle yn y maes Oedolion er mwyn sicrhau fod trefniant ac atebolrwydd clir mewn lle i fod yn arwain newid sylweddol yn y maes.<br><br>Bydd y gefnogaeth gorfforaethol yn parhau er mwyn gweithredu rhaglenni moderneiddio yn y maes gofal. | Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant / Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd | |
| **4.2** | Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith | 1.5 - Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o graffu a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd. | Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, bydd cefnogaeth dau Aelod Cabinet yn y maes hwn yn allweddol i sicrhau llwyddiant y rhaglenni moderneiddio. Mae'r ddau aelod wrth gwrs yn atebol am y newid sydd yn digwydd o fewn eu meysydd ond hefyd, fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, yn craffu'n barhaus gan gynnig cefnogaeth lle bo angen. Mae hyn yn cael ei wneud yn ffurfiol trwy'r Paneli Cyflawni a'r Panel Strategol Diogelu. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn craffu'r prif raglenni trawsffurfio'r maes - megis<br>**G2 - Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion.**<br><br>Fel rhan o'r newid diwylliant sydd ar waith yn y Cyngor, o fod yn sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth wnawn, rydym yn anelu at gael sefydliad sydd yn craffu'n barhaus ein penderfyniadau. | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Ar waith |

**ATODIAD 1**

## 16. Hydref 2015 - Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon?

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn | Uwch Reolwr Tai | • Penodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• Ail-alinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• Penodi eiriolwr o blith yr aelodau ar gyfer gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• Diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a'r rhanddeiliaid. | Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn gyfrifol am arwain gwaith y cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn.<br>Rheolwr Llesiant wedi ei benodi ac yn gyfrifol am sicrhau fod cynllun gweithredu heneiddio'n dda Cyngor Gwynedd yn cael ei weithredu. Rhaglen waith benodol i'w osod o fewn y misoedd nesaf.<br>Pencampwr Pobl Hŷn wedi ei adnabod, ac yn cynrychioli buddion pobl hŷn Gwynedd. | **Ar waith** |
| **2** | Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethau i bobl hŷn yn well | Uwch Reolwr Tai | • Sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol;<br>• Ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau. | Drafft Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda wedi ei ddatblygu, ond heb ei gymeradwyo. Trafodaethau i'w cynnal gyda'r Tîm Rheoli Corffoaethol ar beth i'w flaenoriaethu a sut i symud ymlaen.<br>Age Cymru Gwynedd a Môn wedi ymgysylltu gyda pobl hŷn i adnabod beth yw eu blaenoriaethau. | **Ar waith** |
| **3** | Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy | Uwch Reolwr Tai | Sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn. | Rhaglen waith i'w ddatblygu o dan Her Gofal i godi ymwybyddiaeth cymunedau o beth yw gofynion y Ddeddf newydd a sut gallant chwarae rôl wrth hybu annibyniaeth pobl hŷn a chyd-gomisiynu gwasanaethau ar eu cyfer. | **Ar waith** |
| **4** | Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy: | Uwch Reolwr Tai | • Pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r cyngor;<br>• Sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac | Mesurau wedi eu hadnabod yn y Cynllun Gweithredu Heneiddio'n Dda, ond trafodaeth i'w gynnal ynglyn a'u priodoldeb a dull monitro. Y mwyafrif o'r allbynnau wedi eu selio ar fframwaith cenedlaethol ar gyfer y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol;<br><br>• Sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. | | |
| **5** | Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb | Uwch Reolwr Tai | • Nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• Mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• Nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd yn effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• Sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt hwy. | Mae'r gwaith o gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb ar doriadau arfaethedig y Cyngor trwy Her Gwynedd wedi ei gwblhau.<br><br>Mae trefniadau corfforaethol mewn lle i gefnogi cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Yn ogystal mae prosiect o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2016-20 yn benodol i wella ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb. | **Ar waith** |
| **6** | Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno | Uwch Reolwr Tai | • Pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• Cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif-ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• Gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. | Mae trefniadau rheoli prosiect cadarn wedi eu gosod yn erbyn prosiectau'r Gronfa Gofal Canolraddol. Mae templed cytunedig wedi ei lunio are gyfer adrodd ar gynnydd prosiectau sy'n nodi gwariant cynlluniedig a gwir, cerrig milltir, allbynnau a deilliannau yn erbyn prosiectau unigol wedi eu hariannu trwy'r Gronfa Gofal Canolraddol.<br>Mae hyn yn cael ei wneud gan gynnwys ystod o bartneriaid perthnasol. | **Wedi'i gwblhau** |

**ATODIAD 1**

## 17. Rhagfyr 2015 - Cyflawni a Llai - Gwasanaethau Hamdden

| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden: | Uwch Reolwr Economi a Chymuned | • pennu gweledigaeth gytunedig i gynghorau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol. | Mae'r Gwasanaeth wedi cychwyn datblygu model busnes Ffordd Gwynedd gan gytuno ar bwrpas a mesurau cyflawni. Mae'r gwaith hwnnw yn cymryd ystyriaeth o'r anghenion cenedlaethol, rhanbarthol a hefyd anghenion pobl Gwynedd.<br><br>O safbwynt Chwaraeon, mae Cyngor Gwynedd yn cymryd rôl flaenllaw mewn datblygu model amgen ar gyfer cynllunio a chomisiynu gweithgareddau yn rhanbarthol. Rhagwelir y bydd yr achos busnes mewn lle erbyn mis Medi, 2016 gyda corff newydd mewn lle erbyn mis Ebrill, 2017. | **Wrthi'n cael ei gynllunio** |
| 2 | Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden. | Uwch Reolwr Economi a Chymuned | Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith gwahanol opsiynau ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. | O safbwynt canolfannau hamdden, mae Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu, yn cael ei gadeirio gan yr Aelod Cabinet, i adolygu rol y gwasanaeth hamdden ir dyfodol. Mae rhaglen waith yn ei lle sydd yn ymateb i'r pwyntiau hyn i gyd, ond addasu'r gwasanaeth i gyflawni'r arbedion ydi'r nod, gan gymryd ystyriaeth or cyfeiriad cenedlaethol, gan gynnwys yr adroddiad yma.<br><br>Yn sgil y rhaglen arbedion effeithlonrwydd, mae'r Gwasanaeth wedi llwyddo i adnabod £700k o arbedion yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn ogystal, mae egwyddorion masnachol yn cael eu datblygu gyda'r nod o leihau'r sybsidi ymhellach dros gyfnod o amser. Mae hyn yn arwain y Gwasnaeth i dargedu darpar ddefnyddwyr ac i fuddsoddi yn y llefydd cywir er mwyn cael yr effaith gorau.<br><br>Mae datblygu model busnes Ffordd Gwynedd yn sicrhau bod gwell ymgysylltiad gyda defnyddwyr a bod effaith y gwhanol ymyraethau yn cael eu mesur yn gywir.<br><br>O safbwynt cyfraniad at iechyd y cyhoedd, mae'r Gwasnaeth yn cymryd rôl blaenllaw mewn darparu gwasnaethau ataliol. Enghraifft diweddar o hyn ydi llwyddiant y cynllun 'DementiaGo' sy'n cynnig gwasanaeth i ddefnyddwyr sy'n dioddef o Dementia. | **Ar waith** |

# ADRODDIADAU ARCHWILIO ALLANOL 2012/13 – 2016/17

## ATODIAD 1



| Cyfeirnod | Argymhellion Gwella | Cyfrifoldeb | Cynllun Gweithredu | Cynnydd | Ystyriwch eich cynnydd:<br>• Heb gychwyn<br>• Wrthi'n cael ei gynllunio<br>• Ar waith<br>• Wedi'i gwblhau |
|---|---|---|---|---|---|
| **3** | Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. | Uwch Reolwr Economi a Chymuned | Dylai hyn drafod perfformiad yr holl gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol, a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• 'cymhorthdal' y cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a'r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau 'masnachol newydd';<br>• data defnydd - y nifer sy'n defnyddio'r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd. | Mae'r Gwasnaeth eisoes wedi datblygu fframwaith mesur perfformiad cadarn ar gyfer pump pwrpas penodol a mae hwnnw ar waith. O safbwynt cyfleusterau hamdden, mae'r fframwaith yn mesur:<br>• Gwariant refeniw.<br>• Incwm.<br>• Bodlonrwydd cwsmer.<br>• Llwyddiant ymyraethau marchnata a buddsoddiadau cyfalaf.<br>• Gwybodaeth defnydd lawr i god post defnyddwyr unigol er mwyn gweld 'trend'.<br>• Gwybodaeth meincnodi er mwyn mesur cyraheddiad canolfannau hamdden yn erbyn ei gilydd a hefyd yn erbyn canolfannau all-sirol.<br>• Cyfradd dargadwad (retention) defnyddwyr er mwyn dysgu beth allem ei wneud yn wahanol neu well.<br><br>Hyd at ddiwedd 2016/2017, mae'r Gwasanaeth yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru yn y meysydd gordewdra ac atal ysmygu o fewn ur Uned Byw'n Iach. Bydd hynny yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn fel canlyniad i benderfyniadau Her Gwynedd. | **Wedi'w gwblhau** |
| **4** | Gwella'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden | Pennaeth Adran Economi a Chymuned | • adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. | Mae'r Gwasanaeth yn adrodd ar berfformiad a chyrhaeddiad yn rheolaidd i'r Aelod Cabinet a thrwy hynny i'r Cabinet. Yn ogystal, ceir trefniadau llywodraethu cadarn o fewn yr Adran a'r Tim Rheoli sy'n sicrhau bod atebolrwydd gorfforaethol ac arweinyddiaeth mewn lle.<br><br>Bydd unrhyw adroddiadau sy'n ymwneud a datblygu modelau amgen yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Craffu priodol.<br><br>O safbwynt adroddiadau archwilio/adolygiad mewnol, mae agweddau o'r Gwasanaeth yn cael ei adolygu'n gyson a bydd unrhyw argymhellion yn cael eu gweithredu arnynt. Cyfeirir hefyd unrhyw adroddiadau priodol i'r Is Grwp Gwella o'r Pwyllgior Archwilio ar gyfer trafodaeth pellach pe bae angen. | **Wedi'i gwblhau** |

Eitem 8

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **23 MEHEFIN 2016** |
| TEITL: | **CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 – ALLDRO REFENIW** |
| PWRPAS: | **EGLURO A CHRAFFU'R SEFYLLFA ARIANNOL TERFYNOL AM 2015/16** |
| GWEITHREDIAD: | **Derbyn yr wybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2015/16, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cygor a'i Adrannau.** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd adroddiad adolygiad cyllideb y trydydd chwarter i'r Pwyllgor Archwilio ar 11 Chwefror 2016, a bu ystyriaeth briodol i sawl mater yno.

**2.** Mae'r adroddiad gerbron heddiw, sef yr adolygiad cyllideb "alldro", yn egluro sefyllfa terfynol 2015/16 ac yn dangos y darlun fesul adran. Y ffigyrau yma fydd yn sail i'r datganiadau statudol cyflwynir i gyfarfod 14 Gorffennaf o'r Pwyllgor Archwilio.

**3.** Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad Cabinet atodol i'r Pwyllgor Archwilio, i'w graffu ynghyd â phenderfyniadau perthnasol cyfarfod 7 Mehefin o'r Cabinet sydd ar y tudalennau dilynol.

**4.** Nodaf fod rhan 5 ac Atodiad 3 i'r adroddiad yma'n delio hefyd gyda'r adolygiad o gronfeydd a darpariaethau'r Cyngor (roedd yn eitem ar wahân ar gau cyfrifon 2014/15).

**5.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau drafft y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**
**CABINET DECISION NOTICE**

Dyddiad/Date: 07/06/2016

**PWNC / *SUBJECT***

Eitem : Cyfrifon Terfynol 2015/16 – Alldro Refeniw

*Item : Final Accounts 2015/16 – Revenue Outturn*

**PENDERFYNIAD / *DECISION***

1. Derbyn a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16, a chymeradwyo'r sefyllfa er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol erbyn 30 Mehefin ac i'w cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf.

2. Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn Atodiad 1), sef –

| **ADRAN** | **£'000** |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (6) |
| Plant a Theuluoedd | (8) |
| Addysg | (48) |
| Economi a Chymuned | 5 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | (6) |
| Rheoleiddio | (90) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 34 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol & Chyfreithiol | (20) |
| Cyllid | (70) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | (95) |
| Cyllidebau Corfforaethol | 0 |

3. Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (amlinellwyd yn Atodiad 2 i'r adroddiad) –

• Yn unol â chais y Pennaeth Adran Oedolion, trosglwyddo cyllidebau o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant fel y rhestrir yn Atodiad 2, tudalen 18 (effaith net o "£0").

• Neilltuo £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 mewn cronfa ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferi a rhai waliau cynnal.

• Trosglwyddo £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w

adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.

• Trosglwyddo £769k o danwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa tuag at ariannu strategaeth ariannol 2016/17.

• Defnyddio £292k o danwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 tuag at ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

4. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 (ynghyd â'r darpariaethau a ryddhawyd yn dilyn adolygiad).

5. Nodi fod hyn am wneud defnydd o (£833k) o falansau'r Cyngor, yn hytrach na'r (£2.019m) gwreiddiol er mwyn cwblhau'r pecyn i ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

*1. To accept and note the Council departments' final financial situation for 2015/16 and approve the position in order to enable the Finance Department to move forward and produce, endorse and publish the statutory financial statements by 30 June and to be submitted to be scrutinised by the Audit Committee on 14 July.*

*2. To approve the amounts to be carried forward (the "Revised Over/ (Under) Spend" column of the summary in Appendix 1), namely -*

| ***DEPARTMENT*** | ***£'000*** |
|---|---|
| *Adults, Health and Well-being* | *(6)* |
| *Children and Families* | *(8)* |
| *Education* | *(48)* |
| *Economy and Community* | *5* |
| *Highways and Municipal* | *(6)* |
| *Regulatory* | *(90)* |
| *Gwynedd Consultancy* | *34* |
| *Corporate Management Team & Legal* | *(20)* |
| *Finance* | *(70)* |
| *Corporate Support* | *(95)* |
| *Corporate Budgets* | *0* |

*3. To approve the following recommendations and financial transfers (as outlined in Appendix 2 of the report) -*

*• In accordance with the request of the Head of Adults Department, transfer budgets within the Adults, Health and Well-being Department as listed in Appendix 2, page 18 (net effect of "£0").*

*• Allocate £150k of the gross underspend position of the Regulatory Department for 2015/16 to a fund to develop an arrangement for the inspection and assessment of the condition of bridges, culverts and some retaining walls.*

*• Transfer £150k of the Corporate Budgets underspend for 2015/16 to the North Wales Residual Waste Partnership reserve fund for the 2016/17 requirements, with the remainder required in 2017/18 being recognised whilst considering the financial*

*strategy for that year.*

*• Transfer £769k of the Corporate Budgets underspend for 2015/16 towards financing the 2016/17 financial strategy.*

*• Use £292k of the Corporate Budgets underspend for 2015/16 towards the 2015/16 financial strategy.*

*4. To approve the virements from the specific reserves as outlined in Appendix 3 (together with provisions released following the review).*

*5. To note that this will make use of (£833k) of the Council's balances, rather than the original (£2.019m) in order to complete the package to finance the 2015/16 financial strategy.*

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD / *REASON FOR THE DECISION***

Adroddodd yr Aelod Cabinet Adnoddau fod sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau, er gwaethaf y gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol. Erbyn yr adroddiad hwn, mae ein sefyllfa'n well na'r rhagolygon a gyflwynwyd yn yr ail a trydydd chwarter o 2015/16.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet Adnoddau y bu cyllidebau'r rhan fwyaf o adrannau o dan reolaeth gadarn eto eleni. Yn Atodiad 1 o'r adroddiad i'r cyfarfod, cafwyd talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau gyda'r symiau i'w cario ymlaen yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2 yr adroddiad o'r cyfarfod, nodwyd manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol.

Nodwyd fod sefyllfa ariannol y mwyafrif o'r adrannau yn lled niwtral, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2015/16. Ond, dylid cymeradwyo'r gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr Adran Oedolion yn ystod ail hanner y flwyddyn, wrth iddynt arddangos rheolaeth gadarn dros eu cyllidebau. Bu lleihad yn incwm masnachol Ymgynghoriaeth Gwynedd ac mae'r Adran Rheoleiddio yn cyfrannu cyfran sylweddol o'u tanwariant gros i ariannu blaenoriaeth gorfforaethol. Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2015/16 yn unig.

Cadarnhawyd fod yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb). Croesawir y lleihad yng nghyfanswm sirol o falansau'r ysgolion o £3.5m i £3.3m yn 2015/16, ond nodwyd pryder bod cynifer o ysgolion yn parhau i'w chael yn anodd gweithio o fewn eu cyllideb.

Bu tanwariant un-tro sylweddol ar nifer o benawdau cyllideb gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2 yr adroddiad i'r cyfarfod. Mae'r tanwariant net £292k yma, ynghyd â £894k neilltuwyd yn yr adolygiadau ail a trydydd chwarter, ar gael i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau corfforaethol un-tro.

Wrth ddefnyddio'r tanwariant fel argymhellir yn rhan 3 o'r penderfyniad uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i leihau'r defnydd arfaethedig o'i falansau, a bydd balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng dim ond £833k o £6.4m i £5.6m ar 31/03/2016.

*The Cabinet Member for Resources reported that the final financial position of the Council departments for 2015/16 confirmed that there was effective financial management by the relevant Cabinet Members, department heads and budget managers, despite the continued requirements to deliver challenging savings. By this report, our position is better than the projections submitted in the second and third quarters of 2015/16.*

*The Cabinet Member for Resources confirmed that the budgets of most of the departments have been under firm control this year again. In Appendix 1 of the report to the meeting, a summary was given of the final position of all departments with the amounts to be carried forward in the "Revised Over/ (Under) Spend" column. In Appendix 2 of the report to the meeting, further details were provided relating to the main issues and the fields where there were significant variances to what was reported previously, along with several specific recommendations.*

*It was noted that the financial position of the majority of these departments was more or less neutral, and had been projected correctly during 2015/16. However, the significant improvement in the financial position of the Adults Department during the second half of the year should be applauded, as they showed firm control over their budgets. There has been a reduction in the commercial income of Gwynedd Consultancy and the Regulatory Department is contributing a substantial proportion of their gross underspend to fund a corporate priority. Generally, where departments have underspent, that position would be for one time in 2015/16 only.*

*It was confirmed that the Education Department has arrangements to challenge individual schools to justify the need for their balances, and they are asking school heads and the relevant schools' governing bodies to explain their intention to use their balances (particularly those with balances exceeding 5% of their budget). The reduction in the county total of school balances from £3.5m to £3.3m in 2015/16 was welcomed, but concern was noted that so many schools continued to have difficulty working within their budgets.*

*There have been significant one-off underspend on several corporate budgets headings this year, as outlined in the last part of Appendix 2 of the report to the meeting. This £292k net underspend, together with £894k allocated in the second and third quarter reviews, are available to contribute towards financing one-off corporate priorities.*

*If the underspend is applied as recommended in paragraph 3 of the decision above, through effective control of its budgets, the Council will have managed to reduce the proposed use of its balances, and the Council's general balances will have reduced by only £833k from £6.4m to £5.6m on 31/03/2016.*

**SYLWADAU NEU BWYNTIAU CROES / *OBSERVATIONS OR OPPOSING VIEWS***

Derbyniwyd yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod Cabinet Adnoddau.

*The report submitted by the Cabinet Member for Resources was accepted.*

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL / *THE VIEWS OF THE STATUTORY OFFICERS***

1. Y Prif Weithredwr / *Chief Executive*:-
Mae'r adroddiad yn cynnig darlun cyffredinol o reolaeth ariannol gadarn ar adeg pan mae adnoddau wedi crebachu ac yn parhau i wneud hefyd, mae'n werth nodi, bod adrannau wedi bod yn gorfod paratoi ar gyfer arbedion a thoriadau i ddod.

Ar yr un pryd, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal ei berfformiad yn arbennig o dda dros yr un cyfnod ac mae hyn yn bwynt sydd werth ei nodi er mwyn talu teyrnged i'r staff a rheolwyr sydd wedi llwyddo i wneud hyn a rheoli gwariant yn effeithiol mewn cyd-destun ariannol heriol iawn.

*The report provides an overview of sound financial management at a time when resources have shrunk and will continue to do so, it is worth noting, that departments have been required to prepare for savings and cuts to come.*

*At the same time, the Council has been maintaining its performance over the same period, and this is a point worth noting in order to pay tribute to the staff and managers who have managed to do this and manage expenditure effectively in a very challenging financial context.*

2. Swyddog Monitro */ Monitoring Officer*:-
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

*Nothing to add from a propriety perspective.*

3. Prif Swyddog Cyllid / *Chief Finance Officer*:-
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

*I have collaborated with the Cabinet Member in the preparation of this report and I confirm the accuracy of the content.*

**BARN YR AELOD LLEOL / *VIEWS OF THE LOCAL MEMBER***

Nid yw'n fater lleol.

*Not a local matter.*

**ADRODDIAD I'R CABINET**
7 MEHEFIN 2016

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS, AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** CYFRIFON TERFYNOL 2015/16 – ALLDRO REFENIW

**Swyddog cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID

---

## 1. Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Ystyried a nodi sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16.

1.2 **Cymeradwyo'r symiau i'w cario 'mlaen** (y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig" o'r talfyriad yn **Atodiad 1**), sef -

| ADRAN | £'000 |
|---|---|
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | (6) |
| Plant a Theuluoedd | (8) |
| Addysg | (48) |
| Economi a Chymuned | 5 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | (6) |
| Rheoleiddio | (90) |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | 34 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol & Chyfreithiol | (20) |
| Cyllid | (70) |
| Cefnogaeth Corfforaethol | (95) |
| Cyllidebau Corfforaethol | 0 |

1.3 Cymeradwyo'r argymhellion a'r trosglwyddiadau ariannol canlynol (amlinellwyd yn **Atodiad 2)** –

- Yn unol â chais y Pennaeth Adran Oedolion argymhellir cymeradwyo trosglwyddiadau cyllidebau o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant fel a restrir yn Atodiad 2 (effaith net o "£0").

- Argymhellir defnyddio £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferi a rhai waliau cynnal.

- Argymhellir fod £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.

- Argymhellir trosglwyddo £769k o danwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2016/17.

- Argymhellir defnyddio £292k o danwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

1.4 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau ariannol o gronfeydd penodol fel a amlinellir yn Atodiad 3 (ynghyd â'r darpariaethau a ryddhawyd yn dilyn adolygiad).

1.5 Golygai hyn gwneud defnydd o (£833k) o falansau'r Cyngor, yn hytrach na'r (£2.019m) gwreiddiol er mwyn cwblhau'r pecyn i ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

## 2. Cyflwyniad / Cefndir

2.1 Er gwaethaf gofynion parhaus i gyflawni arbedion heriol, **mae sefyllfa ariannol derfynol adrannau'r Cyngor am 2015/16 yn cadarnhau y bu rheolaeth ariannol effeithiol gan yr Aelodau Cabinet perthnasol, penaethiaid adrannau a rheolwyr cyllidebau.** Wrth gwrs, mae hynny wedi'i gefnogi gan waith monitro proffesiynol ein cyfrifwyr, ynghyd â gwaith herio adeiladol fel bo angen gan y Cabinet, y Pwyllgor Archwilio, a'r Tîm Rheoli Corfforaethol.

2.2 Felly, **gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2015/16 er mwyn galluogi'r Adran Cyllid i symud ymlaen i gynhyrchu, ardystio a chyhoeddi'r datganiadau ariannol statudol erbyn 30 Mehefin**, ac wedyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio graffu ar 14 Gorffennaf 2016.

## 3. Adrannau'r Cyngor

3.1 **Yn gyffredinol, gallaf gadarnhau bu cyllidebau rhan fwya'r adrannau dan reolaeth gadarn eto eleni.** Mae talfyriad o sefyllfa derfynol yr holl adrannau wedi'i amlinellu yn Atodiad 1, gyda'r symiau i'w cario 'mlaen (yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet) yn y golofn "Gor/(Tan) Wariant Addasedig". Yn Atodiad 2, mae manylion pellach ynglŷn â'r prif faterion a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol i'r hyn a adroddwyd yn flaenorol, ynghyd â sawl argymhelliad penodol. Mae'r argymhellion rheiny wedi'u hamlygu er ystyriaeth uchod yn 1.3.

3.2 Roedd sefyllfa ariannol y mwyafrif o'r adrannau yn lled niwtral, ac wedi'i ragamcanu'n gywir yn ystod 2015/16, ond nodaf y bu gwelliant sylweddol yn sefyllfa ariannol yr **Adran Oedolion** yn ystod ail hanner y flwyddyn, tra bu lleihad yn incwm masnachol **Ymgynghoriaeth Gwynedd**. Hefyd, mae'r **Adran Rheoleiddio** yn cyfrannu cyfran sylweddol o'u tanwariant gros i ariannu blaenoriaeth gorfforaethol.

3.3 **Yn Atodiad 1, adroddir ar sefyllfa tanwariant / gorwariant pob adran i'r Cabinet, fydd yn cymeradwyo'r symiau sydd i'w cario 'mlaen.** Mae Rheoliad Gweithdrefn Ariannol 16.3.1 yn manylu ar y trefniadau ar gyfer symiau i'w "cario 'mlaen" ar ddiwedd y flwyddyn. Eleni, nid oes unrhyw gais i'r Cabinet ddileu diffyg adrannol, ac ar ôl trosglwyddiadau i gronfeydd, nid oes sefyllfa tanwariant adrannol sy'n uwch na'r trothwy £100,000 ar gau cyfrifon 2015/16.

3.4 Yn gyffredinol, lle mae'r adrannau wedi tanwario, mae'r sefyllfa hwnnw am un tro yn 2015/16 yn unig.

3.5 Yn y mwyafrif o'r cyllidebau lle bu gôr/tanwariant yn 2015/16, rhoddwyd ystyriaeth briodol i'r anghenion a chyfleon perthnasol yng nghylch cyllidebu 2016/17, ac mae'r mwyafrif o'r materion rheiny eisoes wedi'u cyfarch yn y strategaeth ariannol ar gyfer 2016/17 (drwy weithrediad rheolaethol i atal tueddiad a/neu drwy addasu'r gyllideb).

## 4. Ysgolion

4.1 Mae rhan o Atodiad 2 yn manylu ar sefyllfa cyllidebau'r ysgolion, lle mae statud wedi cyflwyno grym dirprwyedig i gyrff llywodraethu gario balansau ymlaen ar ddiwedd blwyddyn ariannol. Mae'r cyfanswm sirol o falansau'r ysgolion wedi lleihau o £3.5m i £3.3m yn 2015/16. Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth fanwl am falansau ysgolion unigol cyn hir mewn 'Datganiad Adran 52'.

4.2 Mae gan yr Adran Addysg drefniadau ar gyfer herio'r ysgolion unigol i gyfiawnhau'r angen am eu balansau, ac maent yn gofyn i'r penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol i egluro'u bwriad i ddefnyddio eu balansau (yn arbennig rheiny sydd gyda balansau dros 5% o'i gyllideb).

4.3 Mae cyfanswm yr ysgolion gyda diffygion ariannol wedi cynyddu o £327,873 (9 Cynradd, 5 Uwchradd, 1 Arbennig) ar 31 Mawrth 2015 i £447,692 (11 Cynradd, 4 Uwchradd, 1Arbennig) ar 31 Mawrth 2016. Cadarnhaf bydd yr Uned Gyllid perthnasol hefyd yn sicrhau bydd penaethiaid a chyrff llywodraethol yr ysgolion sydd â diffygion ariannol yn delio gyda hynny.

## 5. Cyllidebau a Chronfeydd Corfforaethol

5.1 Bu tanwariant un-tro sylweddol ar nifer o benawdau cyllideb gorfforaethol eleni, fel amlinellir yn rhan olaf Atodiad 2. Mae'r tanwariant net £292k yma, ynghyd â £894k neilltuwyd yn yr adolygiadau ail a trydydd chwarter, ar gael i gyfrannu tuag at ariannu blaenoriaethau corfforaethol un-tro.

5.2 Bydd aelodau yn cofio, ar gyfer Strategaeth Ariannol 2015/16 roedd £2.019m o'r balansau wedi'u hymrwymo. Hefyd, ar gyfer 2016/17 fod £2.164m wedi cynllunio i'w adnabod o adolygu reserfau ac yn y blaen, ac mae angen £616k pellach ar gyfer ariannu 'bidiau' un-tro yn 2016/17 (sef cyfanswm o bron i £4.8m).

5.3 Adolygwyd digonolrwydd holl gronfeydd penodol a darpariaethau'r Cyngor yn drylwyr unwaith eto gan y Pennaeth Cyllid wrth gau'r cyfrifon eleni, yn unol â'r polisi cymeradwywyd yr adeg yma llynedd. Llwyddodd yr adolygiad yma i gynhaeafu £2.011m o adnoddau (£871k o gronfeydd penodol a £1,140k o ddarpariaethau), fel amlinellir yn Atodiad 3.

5.4 Gyda chefnogaeth y Cabinet, os defnyddir y tanwariant fel argymhellir ym mharagraff 1.3 uchod, trwy reolaeth effeithiol o'i gyllidebau, bydd y Cyngor wedi llwyddo i leihau'r defnydd arfaethedig o'i falansau, a bydd balansau cyffredinol y Cyngor wedi gostwng dim ond £833k o £6.4m i £5.6m ar 31/03/2016.

**6. Camau nesaf ac amserlen**

6.1 Yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, a Côd Ymarfer Cyfrifo CIPFA, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid ardystio datganiadau ariannol statudol 2015/16 y Cyngor erbyn 30 Mehefin. Wrth werthfawrogi fod hyn yn amserlen heriol, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu yn y broses.

6.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw manylu ar y sefyllfa alldro o ran tanwariant neu orwariant Adrannau unigol a gwariant y Cyngor yn ei gyfanrwydd yn 2015/16, ac ystyried yr wybodaeth yn sgil hynny er mwyn medru adlewyrchu'r sefyllfa yn y cyfrifon terfynol.

6.3 Fe adlewyrchir yma'r sefyllfa a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac wrth ddod â'r broses i derfyn, gallasai fod rhywfaint o newidiadau pellach. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd newid sylweddol yn y sefyllfa gyffredinol.

6.4 Bydd yr Adran Cyllid yn cynhyrchu datganiadau ariannol statudol 2015/16 i'w ardystio gan y Pennaeth Cyllid erbyn 30 Mehefin a'u cyflwyno i'w craffu gan y Pwyllgor Archwilio ar 14 Gorffennaf.

**Barn yr aelod lleol**
Dim yn berthnasol

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'r adroddiad yn cynnig darlun cyffredinol o reolaeth ariannol gadarn ar adeg pan y mae adnoddau wedi crebachu ac yn parhau i wneud hefyd, mae werth nodi, bod adrannau wedi bod yn gorfod paratoi ar gyfer arbedion a thoriadau i ddod.

Ar yr un pryd, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal ei berfformiad yn arbennig o dda dros yr un cyfnod ac mae hyn yn bwynt sydd werth eu nodi er mwyn talu teyrnged i'r staff a rheolwyr sydd wedi llwyddo i wneud hyn a rheoli gwariant yn effeithiol mewn cyd-destyn ariannol heriol iawn.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau cywirdeb y cynnwys.

**Atodiadau**
Atodiad 1 - sefyllfa tanwariant / gorwariant terfynol pob adran
Atodiad 2 - prif faterion cyllidebol a meysydd ble fu gwahaniaethau sylweddol
Atodiad 3 - adnoddau wedi'u cynhaeafu o adolygu cronfeydd a darpariaethau

## Cyllideb Refeniw 2015/16 - Crynhoad o'r amcan sefyllfa fesul Adran

| | Adolygiad Terfynol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 £'000 | Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16 £ '000 | Symud i/o Gronfeydd £ '000 | Gor/ (Tan) Wariant Addasedig £ '000 | *Adolygiad Trydydd Chwarter £ '000* |
| **Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,413** | **(6)** | | **(6)** | *338* |
| **Plant a Theuluoedd** | **13,171** | **(8)** | | **(8)** | *151* |
| **Addysg** | **81,864** | **(48)** | | **(48)** | *(4)* |
| **Economi a Chymuned** | **7,559** | **5** | | **5** | *25* |
| **Priffyrdd a Bwrdeistrefol** | **21,558** | **(6)** | | **(6)** | *1* |
| **Rheoleiddio** (Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwarchod y Cyhoedd) | **6,754** | **(240)** | **150** | **(90)** | *(122)* |
| **Ymgynghoriaeth Gwynedd** | **(39)** | **34** | | **34** | *(137)* |
| **Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol** | **2,025** | **(20)** | | **(20)** | *(30)* |
| **Cyllid** | **5,604** | **(70)** | | **(70)** | *(69)* |
| **Cefnogaeth Gorfforaethol** | **7,286** | **(95)** | | **(95)** | *(96)* |
| **Cyllidebau Corfforaethol** *(Gwahaniaethau yn Unig)* | | **(1,211)** | **1,211** | **0** | *(3)* |
| **Cyfansymiau (net)** | **190,195** | **(1,665)** | **1,361** | **(304)** | *54* |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio - Cartrefi | 10,199 | 9,622 | (577) | 0 | (577) | (365) |
| Gofal Cartref | 6,006 | 6,068 | 62 | 0 | 62 | 79 |
| Eraill | 2,017 | 1,869 | (148) | 0 | (148) | (160) |
| | 18,222 | 17,559 | (663) | 0 | (663) | (446) |
| Gwasanaethau Anabledd Corff | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 462 | 480 | 18 | 0 | 18 | 21 |
| Gofal Cartref | 985 | 990 | 5 | 0 | 5 | 19 |
| Eraill | 651 | 655 | 4 | 0 | 4 | 17 |
| | 2,098 | 2,125 | 27 | 0 | 27 | 57 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | 13,430 | 13,403 | (27) | 0 | (27) | (104) |
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl | | | | | | |
| Preswyl a Nyrsio | 1,292 | 1,444 | 152 | 0 | 152 | 148 |
| Eraill | 1,991 | 1,872 | (119) | 0 | (119) | (53) |
| | 3,283 | 3,316 | 33 | 0 | 33 | 95 |
| Gwasanaethau Eraill (Oedolion) | | | | | | |
| Rheolwyr | 240 | 209 | (31) | 0 | (31) | (21) |
| Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff | 2,469 | 2,368 | (101) | 0 | (101) | (67) |
| | 2,709 | 2,577 | (132) | 0 | (132) | (88) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Oedolion** | **39,742** | **38,980** | **(762)** | **0** | **(762)** | **(486)** |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwasanaethau Darparu (dangos cyllideb net)** | | | | | | |
| Gofal Preswyl | (729) | (536) | 193 | 0 | 193 | 118 |
| Gofal Dydd | (205) | (263) | (58) | 0 | (58) | (68) |
| Gofal Cymunedol | (49) | 143 | 192 | 0 | 192 | 177 |
| Eraill | (249) | (303) | (54) | 0 | (54) | (42) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Darparu** | **(1,232)** | **(959)** | **273** | **0** | **273** | **185** |
| **Gwasanaethau Eraill** | | | | | | |
| Gwasanaethau Tai | 1,650 | 1,623 | (27) | 0 | (27) | (5) |
| Gwasanaethau Gofal Cwsmer | 1,185 | 1,089 | (96) | 0 | (96) | (81) |
| Gwasanaethau Canolog Adrannol | 3,068 | 3,674 | 606 | 0 | 606 | 725 |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Eraill** | **5,903** | **6,386** | **483** | **0** | **483** | **639** |
| **Cyfanswm Oedolion, Iechyd a Llesiant** | **44,413** | **44,407** | **(6)** | **0** | **(6)** | **338** |

**Crynodeb Oedolion, Iechyd a Llesiant**

**Prif Faterion :-**

**Gwasanaethau Pobl Hŷn:**

- Preswyl a Nyrsio - Cartrefi - cynnydd o (£212k) yn y lefel tanwariant i fyny i (£577k) ac yn cynnwys cyfuniad o wahaniaethau, sef tanwariant o (£248k) ar Gartrefi Annibynnol, oherwydd gostyngiad yn y nifer o leoliadau, ynghyd â chyfraniadau incwm ychwanegol o (£328k) sy'n gynnydd o (£223k) ers y trydydd chwarter.

**Gwasanaethau Anabledd Dysgu** - gostyngiad o £77k yn y tanwariant ers y trydydd chwarter, ac yn cynnwys nifer o wahaniaethau sylweddol, ac yn arbennig cynnydd mewn gwariant o £155k ar Lety Cefnogol, cynnydd o (£47k) yn y tanwariant ar Preswyl a Nyrsio - Cartrefi Annibynnol a cynnydd o (£26k) mewn tanwariant ar Cynlluniau Cefnogol oherwydd yn bennaf lleihad yn y lefel pecynnau cefnogaeth a ddarparir.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl** - gostyngiad o (£62k) yn y gorwariant blaenorol, i lawr i £33k, ac yn cynnwys incwm ychwanegol ac arbedion staffio un tro (£37k) ar Cynlluniau Cefnogol, ac incwm ychwanegol a lleihad mewn gwariant o (£27k) ar Cefnogaeth a Chynlluniau Eraill.

**Gwasanaethau Eraill (Oedolion)** - cynnydd o (£44k) yn y lefel tanwariant yn y chwarter olaf, ac yn cynnwys yn bennaf derbyniad incwm grant ychwanegol o (£35k) mewn perthynas a Tim Pobl Hyn ac Anabledd Corff.

**Gwasanaethau Darparu** - cynnydd o £88k yn y sefyllfa gorwariant terfynol i fyny i £273k, oherwydd yn bennaf, costau gweithredol uwch o £65k ar Cartrefi Pobl Hyn, a chostau staffio uwch o £9k ar Gartrefi Anabledd Dysgu.

**Gwasanaethau Canolog Adrannol** - fe gynhwysir o dan y penawd yma sefyllfa'r "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu", sef methiant cyflawni o £747k (ac fe adroddir ymhellach ar hyn isod), ond hefyd fe welwyd derbyniad incwm ychwanegol o (£91k) mewn perthynas a'r Gronfa Byw'n Annibynol.

**Crynhoad:**
Fe welir uchod fod nifer o wahaniaethau wedi ychwanegu i roddi tanwariant adrannol net o (£6k) erbyn diwedd y flwyddyn, sydd yn welliant sylweddol iawn o'r darlun a ragwelwyd yn gynharach yn y flwyddyn ac yn adlewyrchu llwyddiant yr Adran hefo nifer o fesurau a gymerwyd i reoli cyllidebau.

Mewn perthynas a sefyllfa "Cynlluniau Arbedion i'w Gwireddu" fel a gyfeirir uchod, mae'r Pennaeth Adran yn bwriadu cynnig rhai cynlluniau arbedion diwygiedig yn lle'r rhai a gynhwysir o fewn y rhaglen gyfredol. I'r perwyl yma, mae hefyd yn awyddus i wneud rhai trosglwyddiadau cyllidol rhwng gwahanol benawdau i adlewyrchu'n well y gofynion gwasanaeth diweddaraf, a thrwy hynny, galluogi cynnig meysydd arbedion effeithlonrwydd arfaethedig, a bydd y Pennaeth Oedolion yn adrodd ymhellach ar hyn.

Gan fod gwerth rhai o'r trosglwyddiadau yma dros y trothwy £200k, gofynnir i'r Cabinet gymeradwyo'r pecyn cyfan.

Yn unol a chais y Pennaeth Adran Oedolion argymhellir cymeradwyo trosglwyddiadau y cyllidebau canlynol o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant :-

**Pennawd Cyllidol / Maes**

| | Lleihau'r Cyllideb | Cyllideb Ychwanegol | Net |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Pobl Hŷn | | | |
| Preswyl a Nyrsio | (202) | | |
| Gwariant - Cartefi Annibynnol | (330) | | |
| Cyfraniadau Preswylwyr | (31) | | |
| Llety Cefnogol | | | |
| Gofal Cartref | | 60 | |
| | (563) | 60 | (503) |
| Addasu Cyllidebau y Cynlluniau Arbedion Gwreiddiol | | | |
| Ail-ddylunio gwasanaethau | | 235 | |
| Teleofal | | 237 | |
| Tai Gwarchod | | 31 | |
| | 0 | 503 | 503 |
| Gwasanaethau Anabledd Dysgu | | | |
| Cartrefi Presywl a Nyrsio Annibynnol | (220) | | |
| Gwasanaethau Cefnogol | (150) | | |
| Llety Cefnogol | | 150 | |
| Gwasanaethau Dydd | | 150 | |
| Taliadau Uniongyrchol | | 70 | |
| | (370) | 370 | 0 |
| **CYFANSYMIAU** | (933) | 933 | 0 |

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Plant a Theuluoedd** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth Gwasanaeth | 442 | 409 | (33) | 0 | (33) | (28) |
| Gwasanaethau Gweithredol | 1,858 | 2,035 | 177 | 0 | 177 | 187 |
| Gwasanaethau Lleoliadau | | | | | | |
| Uned Breswyl | 270 | 576 | 306 | 0 | 306 | 456 |
| Lleoliadau All-Sirol | 2,233 | 2,213 | (20) | 0 | (20) | (18) |
| Maethu Drwy Asiant | 1,020 | 1,118 | 98 | 0 | 98 | 78 |
| Maethu Mewnol | 1,805 | 1,595 | (210) | 0 | (210) | (204) |
| Eraill | 1,517 | 1,511 | (6) | 0 | (6) | (10) |
| | 6,845 | 7,013 | 168 | 0 | 168 | 302 |
| Gwasanaethau Ôl-16 | 998 | 861 | (137) | 0 | (137) | (147) |
| Gwasanaethau Arbenigol/Derwen | 1,533 | 1,424 | (109) | 0 | (109) | (71) |
| Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid | 264 | 246 | (18) | 0 | (18) | (19) |
| Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar | 122 | 88 | (34) | 0 | (34) | (34) |
| Gwasanaethau Eraill | 1,109 | 1,087 | (22) | 0 | (22) | (39) |
| **Cyfanswm Plant a Theuluoedd** | **13,171** | **13,163** | **(8)** | **0** | **(8)** | **151** |

**Crynodeb Plant a Theuluoedd**

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Gweithredol:**
Mân ostyngiad o (£10k) yn y lefel gorwariant, i lawr i £177k ac yn bennaf oherwydd gorwariant ar staffio. Mae'r Adran yn rhoddi ystyriaeth pellach i'r lefel gorwariant staffio, ac sydd yn batrwm weddol rheolaidd ar y pennawd yma.

**Gwasanaethau Lleoliadau:**
Gostyngiad o (£134k) yn y gorwariant terfynol, i lawr o £302k i £168k, yn bennaf yn dilyn defnydd o (£150k) o adnoddau penodol wrth gefn i liniaru ar sefyllfa yr Uned Breswyl, ble gwelwyd llithriad yn y cynllun arbedion perthnasol i gartref preswyl plant, gyda'r oediad wedi cyfrannu'n sylweddol at y gorwariant terfynol net o £306k.

**Gwasanaethau Arbenigol / Derwen:**
Cynnyddd o (£38k) yn y tanwariant terfynol o (£109k) oherwydd lleihad mewn costau gweithwyr cefnogol a chyflawni cynlluniau arbedion ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Addysg** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Ysgolion Datganoledig | 70,278 | 70,278 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 4,152 | 4,222 | 70 | 0 | 70 | 58 |
| Diswyddo ac Ymddeol Cynnar | 1,431 | 1,431 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Integreiddio | 189 | 223 | 34 | 0 | 34 | 0 |
| All Sirol | 969 | 901 | (68) | 0 | (68) | (107) |
| Arlwyaeth a Glanhau | 263 | 289 | 26 | 0 | 26 | 49 |
| Addysg Meithrin | 599 | 573 | (26) | 0 | (26) | 0 |
| Grant Gwella Addysg | 579 | 581 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| Rheolaeth | 1,351 | 1,308 | (43) | 0 | (43) | (20) |
| Unedau Anghenion Dysgu Ychwanegol | 1,940 | 1,921 | (19) | 0 | (19) | (10) |
| Strategaeth Cynhwysiad | 348 | 316 | (32) | 0 | (32) | (32) |
| Addysg Bellach | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arian wrth Gefn Ysgolion | (40) | 0 | 40 | 0 | 40 | 0 |
| Cyfraniad Addysg i Cyd-Bwyllgorau | 1,576 | 1,571 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Cyd-Bwyllgor ADY | (8) | (8) | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | (1,763) | (1,790) | (27) | 0 | (27) | 58 |
| **Cyfanswm Addysg** | **81,864** | **81,816** | **(48)** | **0** | **(48)** | **(4)** |

**Crynodeb Addysg**

**Prif Faterion:-**

**Integreiddio:**
Rhagwelwyd sefyllfa niwtral yn y trydydd chwarter ond erbyn diwedd y flwyddyn gwelwyd gorwariant o £34k, oherwydd y cefnogaeth ychwanegol a ddarparwyd i ddisgyblion hefo anghenion dysgu ychwanegol (heb ddatganiad) oddi fewn yr ysgolion cynradd.

**All-Sirol:**
Lleihad o £39k yn y tanwariant a ragwelwyd, i lawr i (£68k) erbyn diwedd y flwyddyn oherwydd effaith derbyn un achos ychwanegol.

**Darpariaeth Wrth Gefn (Gofynion Arbennig Ysgolion):**
Gwelwyd gwariant ychwanegol o £40k ar y pennawd yma yn y chwarter olaf oherwydd rhyddhau dyraniad ychwanegol i un ysgol o ganlyniad i gynnydd mewn nifer disgyblion.

**Eraill:**
Gwelliant o (£85k) ar y pennawd yma ers y trydydd chwarter, ac sydd yn dangos tan wariant terfynol o (£27k). Yn cynnwys nifer o wahaniaethau, ac yn arbennig tanwariant o (£24k) ar gwasanaethau a chyflenwadau allanol, tanwariant o (£21k) ar Ddarpariaeth Dosbarthiadau Mawr, a tanwariant o (£9k) ar Grantiau Dewisiol.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Economi a Chymuned** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth | 383 | 378 | (5) | 0 | (5) | 2 |
| Cefnogaeth Busnes | 7 | 16 | 9 | 0 | 9 | 10 |
| Marchnata a Gofal Cwsmer | 575 | 571 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Adfywio Cymunedol | 808 | 790 | (18) | 0 | (18) | (12) |
| Sgiliau a Maentgarwch | 55 | 63 | 8 | 0 | 8 | 0 |
| Tîm Prosiectau Strategol | 287 | 305 | 18 | 0 | 18 | 0 |
| Strategaeth a Datblygu | 273 | 268 | (5) | 0 | (5) | 0 |
| Archifiau | 312 | 305 | (7) | 0 | (7) | (7) |
| Amgueddfeydd | 97 | 96 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Orielau | 50 | 51 | 1 | 0 | 1 | 0 |
| Neuaddau | 156 | 189 | 33 | 0 | 33 | 21 |
| Celfyddydau | 260 | 256 | (4) | 0 | (4) | 0 |
| Parciau Gwledig | 39 | 28 | (11) | 0 | (11) | (4) |
| Morwrol | (169) | (151) | 18 | 0 | 18 | 17 |
| Gwasanaeth Ieuenctid | 943 | 865 | (78) | 0 | (78) | (78) |
| Gwasanaeth Cymunedau'n Iach (Cyfleusterau Hamdden) | 1,744 | 1,778 | 34 | 0 | 34 | 56 |
| Datblygu Chwaraeon | 197 | 196 | (1) | 0 | (1) | 0 |
| Llyfrgelloedd | 1,542 | 1,560 | 18 | 0 | 18 | 20 |
| **Cyfanswm Economi a Chymuned** | **7,559** | **7,564** | **5** | **0** | **5** | **25** |

## Crynodeb Economi a Chymuned

**Crynhoad:-**

Y sefyllfa adrannol yn dangos gorwariant o £5k erbyn diwedd y flwyddyn sydd yn welliant o (£20k) ers y trydydd chwarter, ac er yn cynnwys nifer o fân wahaniaethau, fe welir fod y gorwariant ar Neuaddauu wedi codi o £21k i £33k oherwydd yn bennaf gostyngiad incwm, ond fod y gorwariant ar Gwasanaethau Cymunedau'n Iach (Cyfleusterau Hamdden) wedi lleihau o £56k yn y trydydd chwarter i £34k erbyn diwedd y flwyddyn.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol (yn cynnwys Cefnffyrdd)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Priffyrdd (cynnwys Cefnffyrdd) | 8,460 | 8,239 | (221) | 0 | (221) | (56) |
| Gwasanaethau Peirianneg | 529 | 541 | 12 | 0 | 12 | 16 |
| Gwasanaethau Bwrdeistrefol | | | | | | |
| Gwastraff | | | | | | |
| Gwaredu Gwastraff | 2,530 | 2,440 | (90) | 0 | (90) | (112) |
| Safleoedd Trin a Throsglwyddo | 1,047 | 1,253 | 206 | 0 | 206 | 224 |
| Canolfannau Ailgylchu | 1,128 | 1,114 | (14) | 0 | (14) | (51) |
| Casglu Gwastraff ac Ailgylchu | 2,965 | 3,139 | 174 | 0 | 174 | 73 |
| Eraill Gwastraff | 338 | 408 | 70 | 0 | 70 | 111 |
| Is-Gyfanswm Gwastraff | 8,008 | 8,354 | 346 | 0 | 346 | 245 |
| Eraill Bwrdeistrefol | 3,732 | 3,453 | (279) | 0 | (279) | (204) |
| | 11,740 | 11,807 | 67 | 0 | 67 | 41 |
| Uned Darparu Bwrdeistrefol | 836 | 918 | 82 | 0 | 82 | |
| Uned Darparu Gwastraff | (155) | (124) | 31 | | 31 | |
| Uned Fflyd | 148 | 171 | 23 | 0 | 23 | |
| **Cyfanswm Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)** | **21,558** | **21,552** | **(6)** | **0** | **(6)** | **1** |

## Crynodeb Priffyrdd a Bwrdeistrefol (gan gynnwys Cefnffyrdd)

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaethau Priffyrdd (Cynnwys Cefnffyrdd):**

Cynnydd o (£165k) yn y tanwariant terfynol ers y trydydd chwarter, ac yn cynnwys sawl elfen, yn arbennig effaith gaeaf mwyn ar gostau cynnal gaeaf, arbedion staffio a chostau teithio unwaith ac am byth o (£93k) a thanwariant o (£48k) ar gostau ynni goleuo strydoedd.

**Maes Gwastraff:**

Gwaredu Gwastraff - gwelwyd tanwariant terfynol o (£90k) ar y penawd yma, yn bennaf oherwydd arbedion mewn costau treth tir lenwi.

Safleoedd Trin a Throsglwyddo - gorwariant terfynol o £206k ac yn cynnwys diffyg incwm o £298k o werthiant deunyddiau ailgylchu oherwydd sefyllfa cyfredol y farchnad berthnasol, ond hefyd tanwariant o (£98k) mewn costau gweithredol.

Casglu Gwastraff ac Ailgylchu - cynnydd o £101k yn y sefyllfa gorwariant terfynol o £174k ar Casglu Gwastraff ac Ailgylchu ers y trydydd chwarter ac yn cynnwys, yn bennaf, diffyg incwm o £32k, costau uwch o £23k i ymdrin â deunyddiau ailgylchu a gorwariant o £119k ar gostau gweithredol, yn bennaf, costau trafnidiaeth uwch.

**Eraill Bwrdeistrefol:**

Tanwariant terfynol o (£279k), ac yn cynnwys tanwariant o (£117k) ar Tiroedd Agored, yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol o (£97k) ac arbedion ar rhai elfennau o gostau gweithredol, tanwariant o (£99k) ar Wasanaethau Profedigaeth (yn bennaf oherwydd incwm ychwanegol) a tanwariant o (£76k) ar Glanhau Strydoedd, yn bennaf tanwariant ar gostau staffio.

**Crynhoad**

Er y gwelir sefyllfa adrannol net o fân danwariant o (£6k), o fewn hyn mae yna rhai gwahaniaethau sylweddol, yn arbennig o fewn y maes gwastraff. Bydd angen ystyrieaeth fwy tymor hir i osgoi darlun parhaol yn datblygu.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Rheoleiddio** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Rheolaeth yr Adran | 232 | 226 | (6) | 0 | (6) | (8) |
| Gwasanaethau Cynllunio | | | | | | |
| Rheolaeth Datblygu | 203 | 107 | (96) | 0 | (96) | (112) |
| Eraill | 16 | (3) | (19) | 0 | (19) | (18) |
| | 219 | 104 | (115) | 0 | (115) | (130) |
| Gwasanaethau Gofal Stryd a Thrafnidiaeth | | | | | | |
| Cynllunio Ymlaen | 44 | 36 | (8) | 0 | (8) | (6) |
| Cynnal Adeiladweithiau | 1,128 | 1,153 | 25 | 0 | 25 | 154 |
| Diogelwch y Ffyrdd | 182 | 146 | (36) | 0 | (36) | (40) |
| Traffig a Threfniadau Statudol | 258 | 246 | (12) | 0 | (12) | (11) |
| Gwasanaethau Parcio a Datblygiad Gorfodaeth Parcio | (1,475) | (1,558) | (83) | | (83) | (83) |
| Cludiant | 1,704 | 1,674 | (30) | 0 | (30) | (26) |
| Eraill | 230 | 232 | 2 | 0 | 2 | 3 |
| | 2,071 | 1,929 | (142) | 0 | (142) | (9) |
| Gwasanaethau Cefn Gwlad a Mynediad | 944 | 1,031 | 87 | 0 | 87 | 17 |
| Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | 237 | 237 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Gwarchod y Cyhoedd | 1,599 | 1,553 | (46) | 0 | (46) | 15 |
| Gwasanaethau Arlwyo, Glanhau a Gofalu | (2) | (1) | 1 | 0 | 1 | 5 |
| Gwasanaethau Eiddo | 1,454 | 1,435 | (19) | 0 | (19) | (12) |
| Argymhelliad | | | | 150 | 150 | |
| **Cyfanswm Rheoleiddio** | **6,754** | **6,514** | **(240)** | **150** | **(90)** | **(122)** |

**Crynodeb Rheoleiddio**

**Prif Faterion:-**

**Rheolaeth Datblygu:**

Tanwariant net terfynol o (£96k), ac yn cynnwys yn bennaf, derbyniad incwm ffioedd ychwanegol ynghyd â thanwariant ar rhai costau gweithredol.

**Cynnal Adeiladweithiau:**

Fe ragwelwyd gorwariant cynllunedig ar y penawd yma yn y trydydd chwarter i ymateb i'r problemau yn sgil llifogydd y gaeaf diwethaf. Fodd bynnag, erbyn diwedd y flwyddyn roedd y lefel gorwariant yn llawer îs na fwriadwyd yn wreiddiol, ac yn gadael gorwariant net o £25k.

**Gwasanaethau Parcio:**

Y darlun terfynol yn gyson a'r sefyllfa a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, sef gweddill o (£83k), ac yn bennaf o ganlyniad dderbyniad incwm ychwanegol.

**Crynhoad:**

Wrth ystyried yr Adolygiad Strategol Priffyrdd, penderfyniad y Cabinet oedd i gymeradwyo datblygu trefn archwilio ac asesu pontydd, sef i adnabod cyflwr ein asedau. Fe amcangyfrifwyd cost o £104k, ac i'w ariannu o'r gronfa buddsoddi i arbed.

Fe welir cyfle yma hefo'r Adran Rheoleiddio yn dangos sefyllfa tanwariant gros o (£240k) i hunan-ariannu'r gost o'r tanwariant adrannol, yn hytrach na defnyddio cronfeydd canolog. Mae'r Pennaeth Rheoleiddio (dros dro) hefyd yn awyddus i ymestyn y gwaith perthnasol i gynnwys asedau ychwanegol fel chwlferi a rhai waliau cynnal, ar gost o £46k ychwanegol, sy'n gwneud cyfanswm o £150k.

**Fe argymhellir** defnyddio £150k o'r sefyllfa tanwariant gros yr Adran Rheoleiddio am 2015/16 ar gyfer datblygu trefn archwilio ac asesu cyflwr pontydd, cwlferi a rhai waliau cynnal.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adran Ymgynghoriaeth** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwasanaethau Ffyrdd, Peirianneg ac Amgylchedd | (439) | (388) | 51 | 0 | 51 | (118) |
| Gwasanaethau Uned Rheoli Risg Llifogydd | 417 | 417 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Adeiladu | (17) | (34) | (17) | 0 | (17) | (19) |
| **Cyfanswm Ymgynghoriaeth** | **(39)** | **(5)** | **34** | **0** | **34** | **(137)** |

## Crynodeb Ymgynghoriaeth

**Prif Faterion:-**

**Gwasanaeth Ffyrdd, Peirianneg ac Amgylchedd:**

Fe ragwelwyd sefyllfa tanwariant o (£118k) ar y pennawd yma yn y trydydd chwarter, ond erbyn diwedd y flwyddyn ariannol fe welwyd newid o £169k i ddangos sefyllfa gorwariant o £51k. Mae nifer o resymau am y newid yma, gan gynnwys gor-ptimistaidd am y lefel gwaith yn y chwarter olaf, rhai cynlluniau a ragwelwyd wedi llithro i'r flwyddyn newydd, a sefyllfa fwy cystadleuol hefo prisiau gwaith a ddisgwylir gan gleientiaid.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 3 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Tîm Rheoli Corfforaethol a Chyfreithiol | 2,025 | 2,005 | (20) | 0 | (20) | (30) |
| Cyllid | 5,604 | 5,534 | (70) | 0 | (70) | (69) |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 7,286 | 7,191 | (95) | 0 | (95) | (96) |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **14,915** | **14,730** | **(185)** | **0** | **(185)** | **(195)** |

## Crynhoad Sefyllfa Adrannau Canolog

**Prif Faterion:-**

**Cyllid:**

Sefyllfa tanwariant o (£70k) sydd yn weddol gyson gyda'r hyn a ragwelwyd yn y trydydd chwarter, ac yn bennaf o ganlyniad i arbedion ar swyddi, sydd yn gyfuniad o arbedion a wireddwyd yn fuan ynghyd ag arbedion oherwydd trosiant staff.

**Cefnogaeth Gorfforaethol:**

Eto, y sefyllfa terfynol o danwariant o (£95k), yn weddol gyson a'r hyn a ragwelwyd yn y chwarter diwethaf, ac yn cynnwys gorwariant o £25k ar Comisiynu Corfforaethol a Chefnogi Newid, tanwariant o (£17k) ar Democratiaeth a Chefnogi Cyflawni a tanwariant o (£101k) ar Adnoddau Dynol, yn bennaf oherwydd llwyddiant i ddenu incwm allanol ychwanegol a gwireddu arbedion staffio ymlaen llaw.

**CYLLIDEB REFENIW 2015/16 - TERFYNOL**

| **Crynhoad Sefyllfa Corfforaethol (Dim ond yn adlewyrchu y gwahaniaethau)** | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes:-** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Treth y Cyngor | * | * | (427) | 0 | (427) | (32) |
| Budd-daliadau | * | * | (394) | 0 | (394) | (105) |
| Derbyniad Llog Net | * | * | 94 | 0 | 94 | 216 |
| Incwm Ychwanegol Cyffredinol | * | * | (66) | 0 | (66) | * |
| Eraill | * | * | (59) | 0 | (59) | (82) |
| Darpariaeth Penodol Chwyddiant Ynni a Thanwydd | * | * | (359) | 0 | (359) | * |
| Gofynnion Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru | * | * | 0 | 150 | 150 | * |
| Cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol 2016/17 | * | * | 0 | 769 | 769 | * |
| Cyfrannu tuag at Strategaeth Ariannol 2015/16 | * | * | 0 | 292 | 292 | * |
| **Cyfanswm Corfforaethol** | * | * | **(1,211)** | **1,211** | **0** | **(3)** |

**CYLLIDEBAU CORFFORAETHOL**

| | Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Treth y Cyngor** | | | **(427)** | | **(427)** | **(32)** |

Sefyllfa "tanwariant" terfynol sydd yn adlewyrchu cynnydd yn y cyfanswm taladwy ar yr holl gyfrifon Treth Cyngor.

**Budd-daliadau**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(394)** | | **(394)** | **(105)** |

Yn unol â'r tueddiad a ragwelwyd yn flaenorol, bu tanwariant terfynol o (£394k).

**Derbyniad Llog Net**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **94** | | **94** | **216** |

Er y gwelwyd ad-daliad pellach o (£137k) o'r buddsoddiad Heritable sy'n dod a'r cyfanswm a dalwyd yn ôl hyd yma i bron i 98.5%, gyda disgwyliad i'r cyfan gael ei dalu'n ôl maes o law, fe welwyd hefyd ostyngiad o £231k yng ngweddill o'r llog a dderbyniwyd sydd yn adlewyrchu sefyllfa'r farchnad yn gyffredinol.

**Incwm Ychwanegol Cyffredinol**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(66)** | | **(66)** | |

Adennill incwm ychwanegol o weithgareddau allanol.

**Eraill**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(59)** | | **(59)** | **(82)** |

Sefyllfa net derfynol sy'n cynnwys cyfuniad o amrywiol wahaniaethau ar nifer o benawdau.

**Darpariaeth Penodol Chwyddiant Ynni a Thanwydd**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | **(359)** | | **(359)** | |

Y sefyllfa terfynol am 2015/16 yn caniatau rhyddhau gweddill y ddarpariaeth.

**Gofynnion Partneriaerth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **150** | **150** | |

Fel y gynhwysir mewn adroddiad ar wahan i'r cyfarfod yma, fe welir fod costau ychwanegol yn codi mewn perthynas â'r rhan comisiynu o'r Bartneriaeth Gwastraff. Er bod y gofyn dros y ddwy flynedd nesaf dros £600k, rhagwelir am y tro y byddai £150k yn fwy na digon ar gyfer gofynion 2016/17.

**Fe argymhellir** fod £150k o'r sefyllfa tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 yn cael ei drosglwyddo i'r gronfa wrth gefn perthnasol i'r Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ar gyfer gofynion 2016/17, gyda'r gweddill sydd ei hangen ar gyfer 2017/18 i'w adnabod wrth ystyried y strategaeth ariannol am y flwyddyn honno.



**Cyfrannu Tuag at Strategaeth Ariannol 2016/17**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **769** | **769** | |

Roedd penderfyniad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2016/17 yn cynnwys angen i adnabod cyfanswm o £2.780m o wahanol ffynhonellau (reserfau, a.y.y.b) i gynorthwyo'r pecyn ariannu angenrheidiol am y flwyddyn.

Fe gynhwysir yn Atodiad 3, fanylion o'r gwaith cynhaeafu ac adolygu a wnaethpwyd o wahanol ffynhonellau ac fe adnabuwyd cyfanswm o £2.011m i'w rhyddhau.

Yn ychwanegol felly mae angen £769k pellach i gyrraedd y cyfanswm angenrhediol o £2.780m.

**Fe argymhellir** trosglwyddo £769k o tanwariant ar Gyllidebau Corfforaethol am 2015/16 i gronfa er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2016/17.

**Cyfrannu Tuag at Strategaeth Ariannol 2015/16 (a defnydd o falansau)**

| Cyllideb Arfaethedig 2015/16 | Sefyllfa Terfynol 2015/16 | **Gor / (Tan) Wariant Gros 2015/16** | Defnydd o Ffynonellau Eraill Neu Addasiadau Eraill a Argymhellir | **Gor / (Tan) Wariant Addasedig** | Gor/(Tan) Wariant Net Adolygiad Chwarter 4 |
|---|---|---|---|---|---|
| £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| | | | **292** | **292** | |

Roedd penderfyniad ar y Strategaeth Ariannol ar gyfer 2015/16 yn cynnwys defnyddio £2.019m o falansau'r Cyngor.

Rydym eisioes yn ystod adolygiadau chwarter 2 a chwarter 3 eleni wedi manteisio ar amgylchiadau ffafriol i drosglwyddo i gronfa benodol cyfanswm o £894k tuag at y sefyllfa ariannol y Cyngor.

Gellir rwan ychwanegu y gweddill sydd ar gael o'r tanwariant a welir ar penawdau Cyllidebau Corfforaethol uchod i'r pwrpas, sef £292k.

Mae'r defnydd o (£894k) o'r adolygiadau chwarterol blaenorol ynghyd â'r (£292k) o'r sefyllfa tanwariant Cyllidebau Corfforaethol (uchod) am 2015/16 yn rhoddi cyfanswm o (£1,186m), ac yn golygu ein bod wedi gallu lleihau y gofyn yn erbyn balansau'r Cyngor am eleni o (£2,019m) fel a benderfynwyd yn wreiddiol i lawr i (£833k).

**Fe argymhellir** defnyddio £292k o tanwariant Cyllidebau Corfforaethol am 2015/16 er mwyn ariannu strategaeth ariannol 2015/16.

Golygir hyn wneud defnydd o £833k o falansau'r Cyngor yn hytrach na'r £2.019m gwreiddiol er mwyn cwblhau pecyn ariannu ar gyfer strategaeth ariannol 2015/16.

## Cynhaeafu Cronfeydd

Atodiad 3

Yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, argymhellir rhyddhau'r symiau canlynol ar gyfer defnydd Strategaeth Ariannol 2016/17:

| **Cronfa** | **Swm i'w rhyddhau (£)** |
|---|---|
| Cronfa Stiwardiaeth Amgylcheddol | 35,672.91 |
| Partneriaeth Gwynedd a Môn - Uned Cefnogi Partneriaeth ar y Cyd | 67,190.00 |
| Ariannu swyddi rheolwyr prosiect | 50,000.00 |
| Cyfraniad tuag at ofynion trefniadau Caffael Gogledd Cymru | 16,500.00 |
| Cynllun Gweithio Unigol | 68,000.00 |
| Gofynion Democratiaeth | 35,000.00 |
| Ariannu prosiectau er mwyn creu arbedion i'r dyfodol | 17,560.00 |
| Cronfa ar gyfer cyflogi graddedigion | 4,030.00 |
| Ariannu Swyddog Cyfathrebu Mewnol dros dro | 55,400.00 |
| Gofynion Maes Diwygio Lles | 161,000.00 |
| Swydd Hyrwyddo Budd-daliadau | 24,140.00 |
| Prosiect Ymgysylltu | 20,000.00 |
| Gofynion Gwarchod y Cyhoedd | 66,450.00 |
| Gweithiau Cyffredinol Contractau | 100,000.00 |
| Reserf Tendro Contractau | 150,000.00 |
| **Cyfanswm** | **870,942.91** |

## Adolygiad o Anghenion Darpariaethau

Yn dilyn adolygiad o anghenion y darpariaethau, argymhellir rhyddhau'r canlynol ar gyfer defnydd Strategaeth Ariannol 2016/17:

| **Darpariaeth** | **Swm i'w rhyddhau (£)** |
|---|---|
| Adolygiad Tâl | 540,000.00 |
| Darpariaeth Pensiwn (Corfforaethol) | 400,000.00 |
| Darpariaeth Gofynion Trafnidiaeth | 200,000.00 |
| **Cyfanswm** | **1,140,000.00** |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM** | **2,010,942.91** |

# Eitem 9

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Archwilio |
| **DYDDIAD** | 23 Mehefin 2016 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16, a<br>• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a Chymeradwyo'r Cyfrifon |
| **AWDUR** | William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd |

**1. GOFYNION ADRODD HARBYRAU**

1.1 Yn unol â'r gofynion statudol o dan Ddeddf Harbyrau 1964 mae'n rhaid i Wynedd, fel awdurdod harbyrau, ddarparu datganiad cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau harbwr.

1.2 Ystyrir Harbyrau Gwynedd, oherwydd trosiant is na £2.5m, i fod yn gorff llywodraeth leol bach yn unol â'r diffiniad yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

1.3 Ar gyfer "corff llywodraeth leol bach", mae cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cwrdd â'r gofynion statudol. Bydd yn destun archwiliad ar wahân, ond nid oes rhaid cynhyrchu datganiadau ariannol statudol llawn (sy'n cydymffurfio gyda Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol "IFRS").

**2. CYFRIFON 2015/16**

2.1 Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2015/16 yma fel Atodiad A ar ffurf adroddiad "alldro" syml.

2.2 Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2015/16, wedi'i chwblhau a'i hardystio cyn yr archwiliad gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer yr Harbyrau.

2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau, yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i gyfarfod mis Medi o'r Pwyllgor.

2.4 Ar ôl archwiliad Deloitte ac unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio'r ffurflen cyn 30 Medi.

2.5 Mae Atodiad A yn dangos y cyfrifon refeniw yn unig tra bod y datganiadau cyfrifyddu yn Atodiad B yn cynnwys refeniw a chyfalaf. Roedd gwariant cyfalaf 2015/16 Harbyrau Gwynedd yn £75,644. Mae'r ffigwr hwn yn rhan o'r swm ar linell 6, gyda'r incwm sy'n ariannu ar linell 2.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1 **Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio dderbyn a chymeradwyo'r wybodaeth sydd yn yr atodiadau,** sef –

- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16 – Atodiad A
- Ffurflen datganiadau cyfrifon 2015/16, ar gyfer archwiliad – Atodiad B

## Pwyllgor Archwilio

## Adroddiad Harbyrau Cyngor Gwynedd

## Cyfrif Incwm a Gwariant 2015-16

| | Cyllideb Terfynol 2015-16 £ | Cyfrifon Terfynol 2015-16 £ | Gwahaniaeth Gor (Tan) wariant £ |
|---|---|---|---|
| **GWARIANT** | | | |
| Gweithwyr | | | |
| Cyflogau | 172,540 | 152,578 | -19,962 |
| Hyfforddiant | 0 | 55 | 55 |
| Yswiriant Atebolrwydd | 3,250 | 791 | -2,459 |
| Amrywiol Eraill | 1,570 | 243 | -1,327 |
| | | | |
| Adeiladau | | | |
| Cynnal a Chadw, Offer ayyb | 48,399 | 6,105 | -42,294 |
| Ynni | 6,940 | 12,182 | 5,242 |
| Trethi | 17,180 | 17,164 | -16 |
| Dwr | 2,310 | 3,753 | 1,443 |
| Lês yr Arfordir | 4,330 | 5,200 | 870 |
| Glanhau a Casglu Sbwriel | 4,000 | 4,316 | 316 |
| Yswiriant Adeiladau | 2,730 | 535 | -2,195 |
| | | | |
| Cludiant | | | |
| Costau Rhedeg Cerbydau (cynnwys cychod) | 2,020 | 814 | -1,206 |
| Costau Teithio | 510 | 319 | -191 |
| Yswiriant Cerbydau | 0 | 407 | 407 |
| | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | |
| Offer - cynnwys diogelwch | 20,480 | 25,158 | 4,678 |
| Arolygiadau Tanfor | 7,060 | 12,200 | 5,140 |
| Arwyddion | 0 | 3,406 | 3,406 |
| Cynnal Cychod | 3,000 | 3,142 | 142 |
| Ffioedd Arbenigwyr | 0 | 23,203 | 23,203 |
| Trwyddedau | 600 | 300 | -300 |
| Deunyddiau Swyddfa a Rhwydwaith | 4,630 | 4,581 | -49 |
| Ffioedd Archwilio | 0 | 650 | 650 |
| Amrywiol | 0 | 5,549 | 5,549 |
| Yswiriant Arian Parod | 2,760 | 2,470 | -290 |
| | | | |
| Cefnogaeth Canolog | | | |
| Ad-Daliadau Costau Canolog | 25,890 | 29,714 | 3,824 |
| | | | |
| **Cyfanswm Gwariant** | **330,199** | **314,835** | **-15,364** |
| | | | |
| **INCWM** | | | |
| Ffioedd | -222,700 | -191,722 | 30,978 |
| Rhenti | -6,200 | -5,250 | 950 |
| Cyfraniad o Gronfa Adrannol | 0 | -30,053 | -30,053 |
| | | | |
| **Cyfanswm Incwm** | **-228,900** | **-227,025** | **1,875** |
| | | | |
| **Gwariant Net** | **101,299** | **87,810** | **-13,489** |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru
# Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2016

Rhaid i gyrff llywodraeth leol llai o faint yng Nghymru baratoi cyfrifon blynyddol gan ddilyn arferion priodol fel y'u nodir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru/Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) **Governance and accountability for local councils in Wales – A Practitioners' Guide 2006** (y Canllaw i Ymarferwyr). Mae'r Canllaw i Ymarferwyr yn nodi y gall cyrff baratoi eu cyfrifon ar ffurf ffurflen flynyddol a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

## Y cyfrifon a'r broses archwilio

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd yr uned archwilio mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ardystio'r ffurflen (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno'r ffurflen i'r Corff.

→ Bydd y Corff yn cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol erbyn 30 Mehefin. Mae llofnod y Cadeirydd yn y blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dyst o hyn.
Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol/Clerc yn anfon copi o'r Ffurflen Flynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→ Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau'r archwiliad a:

Naill ai:
Os nad oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau, bydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

Neu:
Os oes angen gwneud diwygiadau, bydd yn rhoi gwybod i'r corff am broblemau (gan gynnwys diwygiadau). Bydd y Corff yn diwygio'r Ffurflen Flynyddol, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn ei hailardystio a bydd y Corff yn ei hailgymeradwyo cyn ei dychwelyd at yr archwilydd. Yna bydd yr archwilydd yn ardystio'r Ffurflen Flynyddol ac yn ei dychwelyd at y Corff i'w chyhoeddi erbyn 30 Medi.

**Cwblhewch bob adran mewn coch.** Mae'n bosibl y bydd ffurflenni anghyflawn neu anghywir yn galw am waith archwilio allanol ychwanegol ac yn arwain at gostau ychwanegol. Anfonwch y Ffurflen Flynyddol **wreiddiol**, ynghyd â'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, at yr archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. **Noder bod yn rhaid i bob copi a ddarperir at ddibenion yr archwiliad gael eu hardystio fel copïau cywir o'r rhai gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd**. Oni bai y gofynnir i chi wneud hynny, **peidiwch** ag anfon unrhyw gofnodion ariannol gwreiddiol na chofnodion eraill at yr archwilydd allanol.

Dylai cyrff nodi'r newidiadau i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Dylai hyn gael ei gwblhau yn llawn gan bob Corff.

Caiff ffurflenni a archwiliwyd ac a ardystiwyd eu dychwelyd at y Corff i'w cyhoeddi neu er mwyn cyhoeddi'r datganiadau cyfrifyddu, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Rhestr wirio cwblhau

| Bydd ateb 'Anghywir' yn golygu nad ydych wedi bodloni'r gofynion o bosibl | | Gweithredwyd? | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad cyntaf i'r archwilydd allanol** | | **Cywir** | **Anghywir** |
| **Cyfrifon** | A yw'r Swyddog Ariannol Cyfrifol wedi ardystio'r datganiadau cyfrifyddu ac a yw'r corff wedi cymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol (fel y dangoswyd gan y llofnodion perthnasol), erbyn 30 Mehefin 2016 fan bellaf? | (•) | ( ) |
| | A yw'r cyfrifon yn cyfrifo'n gywir ac a yw'r balans a gaiff ei barhau o'r llynedd yn cyfateb i'r balans agoriadol eleni? | (•) | ( ) |
| | A yw'r papurau i'w hanfon at yr archwilydd allanol yn cynnwys esboniad o amrywiadau sylweddol, gan gynnwys dadansoddiad wedi ei fesur o'r newidiadau rhwng y llynedd ac eleni? | (•) | ( ) |
| | A yw'r cysoniad banc ar 31 Mawrth 2016 yn gyson â llinell 9? | (•) | ( ) |
| **Pob adran** | A yw'r holl flychau coch wedi'u cwblhau ac a oes esboniadau wedi'u rhoi lle bo angen? | (•) | ( ) |
| | A yw'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr archwilydd allanol wedi'i hanfon gyda'r Ffurflen Flynyddol hon? Dylech gyfeirio at yr hysbysiad o'r archwiliad ac unrhyw amserlenni ychwanegol a ddarparwyd gan eich archwilydd allanol. | (•) | ( ) |
| **Tystiolaeth ategol** | A yw'r holl eitemau a'r tudalennau o dystiolaeth ategol a ddarparwyd i'r archwiliad wedi eu hardystio fel copi cywir o'r un gwreiddiol gan y Clerc a'r Cadeirydd? | (•) | ( ) |

# Datganiadau cyfrifyddu 2015-16 ar gyfer:

**Enw'r corff:** HARBYRAU CYNGOR GWYNEDD

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | 31 Mawrth 2015 (£) | 31 Mawrth 2016 (£) | Dylech dalgrynnu'r ffigurau i'r £ agosaf. Ni ddylech adael unrhyw flychau yn wag na chofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigur fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol. |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | **0** | **0** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 64,175 | 163,454 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 220,196 | 227,025 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod llai'r symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | -132,781 | -153,666 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig e.e. costau terfynu. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-) Cyfanswm taliadau eraill | -151,590 | -236,813 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod, a thynnu costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a barhawyd | **0** | **0** | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) - (4+5+6). |
| **Datganiad o falensau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr a balansau stoc | 18,914 | 17,322 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff a balansau stoc a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 1,792 | 534 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â chysoniad y banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | -20,706 | -17,856 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a barhawyd | **0** | **0** | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn gyson â llinell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 404,246 | 479,891 | Gwerth **gwreiddiol** cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad o drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

| | Ydy | N/Y | Dd/G | Ydy | N/Y | Dd/G | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **14.** Nodyn datgelu cronfeydd ymddiriedolaeth | ○ | ○ | ◉ | ○ | ○ | ◉ | Mae'r Corff yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ac mae'n gyfrifol am reoli (a) cronfa/cronfeydd ymddiriedolaeth/asedau (dylai darllenwyr nodi nad yw'r ffigurau uchod yn cynnwys unrhyw drafodion ymddiriedolaeth). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1)

Rydym yn cydnabod fel aelodau o'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, ein cyfrifoldeb dros sicrhau bod yna system reolaeth fewnol gadarn, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'CYWIR' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | | |
| 1. Rydym wedi cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd) ac arferion priodol. | (•) | ( ) | Paratoi ei ddatganiadau cyfrifyddu yn y ffordd a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| 2. Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | (•) | ( ) | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| 3. Rydym wedi cymryd camau rhesymol i roi sicrwydd i'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu bosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes nac ar ei sefyllfa ariannol. | (•) | ( ) | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| 4. Rydym wedi darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | (•) | ( ) | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â diddordeb archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y Corff. | 6, 23 |
| 5. Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | (•) | ( ) | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r Corff a delio â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| 6. Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | (•) | ( ) | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y Corff. | 6, 8 |
| 7. Rydym wedi ystyried pa un yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, wedi cael effaith ariannol ar y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | (•) | ( ) | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| 8. Rydym wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | (•) | ( ) | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

| | Do | Naddo | D/G | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9. Cronfeydd ymddiriedolaeth – yn rhinwedd ein swydd fel ymddiriedolwr, rydym wedi:<br>• Cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas ag atebolrwydd am y gronfa/cronfeydd gan gynnwys cyflwyno adroddiadau ariannol a, lle y bo angen, cynnal archwiliadau annibynnol. | ( ) | ( ) | (•) | Cyflawni ei gyfrifoldebau yn rhinwedd ei swydd fel unig reolwr-ymddiriedolwr ymddiriedolaeth neu ymddiriedolaethau lleol. | 3, 6 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb a nodwyd fel 'Anghywir' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 2)

| | Cytunwyd? | | Mae ateb 'Cywir' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi: | Cyf y Dangosydd Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | | |
| **1.** Gwnaethom gyfrifo a chymeradwyo gofyniad cyllidebol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac arferion priodol [ac fe wnaethom osod y praesept yn unol ag Adrannau 39 i 42 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.]* | ◉ | ○ | Cynllunio'n briodol ei weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn a phennu cyllideb yn unol â gofynion statudol. | 13 |
| **2.** Rydym wedi derbyn adroddiadau ariannol manwl yn nodi'r [incwm a'r gwariant* derbyniadau a thaliadau*] a chrynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor ar sail [misol* / chwarterol*] reolaidd drwy gydol y flwyddyn. | ◉ | ○ | Monitro ei sefyllfa ariannol, ei incwm a'i wariant yn erbyn y gyllideb honno yn effeithiol drwy gydol y flwyddyn. | 13 |
| **3.** Rydym wedi sicrhau bod archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor yn annibynnol ar ei broses gwneud penderfyniadau o ddydd i ddydd a'r broses o gynnal y cofnodion cyfrifyddu ac rydym wedi cytuno ar gylch gorchwyl priodol ar gyfer yr archwiliad mewnol. | ◉ | ○ | Sicrhau bod ei swyddogaeth archwilio mewnol yn gallu cyflawni'r gwaith heb wrthdaro buddiannau posibl a chyda digon o gyfle i ddarparu gwasanaeth digonol ac effeithiol. | 8 |

* Dileer fel y bo'n briodol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor

Y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac am baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

| Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol | Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor |
|---|---|
| Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. | Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** | **Llofnod y Cadeirydd:** |
| **Enw:** Dafydd L Edwards Swyddog Cyllid Statudol Cyngor Gwynedd | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 15/06/16 | **Dyddiad:** |

**Ailgymeradwyaeth ac ailardystiad y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (dim ond os bydd y ffurflen flynyddol wedi ei diwygio yn yr archwiliad y bydd eu hangen)**

| Ardystiad gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol | Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor |
|---|---|
| Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, pa un bynnag sy'n berthnasol, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016. | Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cael eu cymeradwyo gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
| **Llofnod y Swyddog Ariannol Cyfrifol:** | **Llofnod y Cadeirydd:** |
| **Enw:** | **Enw:** |
| **Dyddiad:** | **Dyddiad:** |

## Tystysgrif archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r archwilydd allanol yn cynnal yr archwiliad ar ran, ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Ar sail ei adolygiad o'r Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth ategol, mae'n nodi pa un a fydd unrhyw fater a ddaw i'w sylw yn peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

Ardystiwn ein bod wedi cwblhau'r archwiliad o'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ar gyfer:

| HARBYRAU CYNGOR GWYNEDD |
|---|

### Adroddiad yr archwilydd allanol

[Ac eithrio'r materion a adroddir isod]* Ar sail ein hadolygiad, yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn cydymffurfio ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw sy'n peri pryder nad yw'r ddeddfwriaeth a'r gofynion rheoleiddio perthnasol wedi'u bodloni.

[[Mae'r materion hyn, ynghyd â]* Mae materion eraill nad ydynt yn effeithio ein barn yr ydym yn tynnu sylw'r corff atynt, yn ogystal â'n hargymhellion ar gyfer gwella wedi eu cynnwys yn ein hadroddiad i'r corff, dyddiedig ______________________.]

### Materion eraill ac argymhellion

Ar sail ein hadolygiad, tynnwn sylw'r Corff at y materion a'r argymhellion canlynol nad ydynt yn effeithio ar ein barn archwilio ond y dylai'r Corff ymdrin â hwy.

(Parhewch ar daflen ar wahân os oes angen.)

| **Enw'r archwilydd allanol:** | |
|---|---|
| **Llofnod yr archwilydd allanol:**<br><br>**Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru** | **Dyddiad:** |

* Dileer fel y bo'n briodol.

## Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** **HARBYRAU CYNGOR GWYNEDD**

Mae archwiliad mewnol y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2016.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ba un a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, cefnogwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **6.** Cefnogwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn ac yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ◉ | ○ | ○ | ○ | |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u cefnogi gan lwybr archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | |
| **11.** Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr. | ○ | ○ | ● | ○ | |

| Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen: | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
| | Cywir | Anghywir* | Dd/G | Heb ei gynnwys** | |
| **12.** | ○ | ○ | ● | ○ | |
| **13.** | ○ | ○ | ● | ○ | |
| **14.** | ○ | ○ | ● | ○ | |

* Os atebwyd 'Anghywir', nodwch y goblygiadau a'r camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau ac argymhellion manwl yr wyf yn tynnu sylw'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor atynt wedi eu cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor, dyddiedig 05/05/2016. * Dilëwch os na chafodd adroddiad ei baratoi.

## Cadarnhau archwiliad mewnol

Cadarnhaf nad wyf, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â rôl rheoli na gweinyddol o fewn y corff nac fel aelod o'r corff yn ystod blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|---|
| **Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Luned Fôn Jones** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** Luned Fôn Jones |
| **Dyddiad: 24/05/2016** |

## Canllawiau ar gyfer cwblhau Ffurflen Flynyddol

1. Rhaid i chi gymhwyso arferion priodol wrth baratoi'r ffurflen flynyddol hon. Am gyfarwyddyd darllenwch y Canllaw i Ymarferwyr (**Governance and accountability for local councils: A Practitioners's Guide (Wales)**)- ar gael gan Un Llais Cymru ac SLCC. Mae'n cynnwys popeth sydd ei angen arnoch ar gyfer yr archwiliad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r archwiliad statudol.
2. Mae Cyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru (**www.archwilio.cymru/cy/arfer-da/cyllid/arian-cynghorau-cymuned**) yn darparu rhagor o wybodaeth am y broses cyfrifon ac archwilio ynghyd â chanllawiau ar faterion llywodraethu.
3. Gwnewch yn siŵr bod y Ffurflen Flynyddol wedi ei chwblhau'n llawn h.y. dim blychau coch gwag. Ceisiwch osgoi gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r ffurflen wedi'i chwblhau. Os na allwch osgoi hyn, rhowch linell drwy'r cofnodion anghywir, sicrhewch fod y diwygiadau wedi'u tynnu at sylw'r corff gyda llythrennau cyntaf eich enw wrth eu hymyl a'ch bod wedi rhoi esboniad i'r archwilydd allanol. **Peidiwch â defnyddio hylif cywiro.** Caiff ffurflenni blynyddol anghyflawn neu rai sy'n cynnwys diwygiadau heb eu cymeradwyo a/neu eu hesbonio neu gyda hylif cywiro eu dychwelyd heb eu harchwilio a gall olygu costau ychwanegol.
4. **Mae dau flwch i'r Corff eu hardystio a'u cymeradwyo yn awr. Dim ond os bydd yn rhaid diwygio'r ffurflen flynyddol o ganlyniad i'r archwiliad y bydd angen yr ail flwch. Dim ond cyn anfon y ffurflen at yr archwilydd y dylech gwblhau'r blwch uchaf.**
5. Gofynnwch i ail berson, y Cadeirydd neu aelod efallai, adolygu eich Ffurflen Flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn gyflawn cyn anfon y ffurflen wreiddiol at yr archwilydd.
6. Gwnewch yn siŵr bod eich datganiadau cyfrifyddu yn adio'n gywir, bod y balans a barhawyd o'r flwyddyn flaenorol (llinell 7 o 2015) yn cyfateb i'r balans a ddygwyd ymlaen yn y flwyddyn gyfredol (llinell 1 o 2016). Esboniwch unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau 2015 ar y ffurflen flynyddol hon a'r symiau a gofnodwyd yn ffurflen flynyddol y llynedd.
7. Rhowch esboniad llawn am unrhyw amrywiannau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Peidiwch ag anfon copi o'ch cofnodion cyfrifyddu manwl yn lle'r esboniad hwn. Mae'r archwilydd allanol am wybod eich bod chi'n deall y rhesymau dros yr holl amrywiannau. Cofiwch gynnwys dadansoddiad manwl i ategu eich esboniad a byddwch yn benodol ynghylch gwerthoedd elfennau unigol sy'n gyfrifol am yr amrywiannau.
8. Sicrhewch fod y copi o'r cysoniad banc y byddwch yn ei anfon at eich archwilydd gyda'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys eich **holl** gyfrifon banc a balansau banc. Os nad oes unrhyw eitemau cysoni, nodwch hyn a rhowch dystiolaeth o falansau'r banc. Os oes gan eich cyngor unrhyw fuddsoddiadau byrdymor, nodwch eu gwerth ar y cysoniad banc. Dylai'r archwilydd allu cytuno ar eich cysoniad banc â llinell 9 yn adran 1. Ceir rhagor o gymorth ar gysoniadau banc yn y Canllaw i Ymarferwyr*.
9. Mae'n ofynnol i **bob** corff bach bellach anfon gwybodaeth at yr archwilydd allanol, i ategu'r honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Bydd eich archwilydd yn dweud wrthych pa wybodaeth sydd angen i chi ei darparu. Sicrhewch eich bod yn darllen yr hysbysiad archwilio yn ofalus er mwyn sicrhau eich bod yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae'r archwilydd wedi gofyn amdani. Dylech anfon **copïau** o'r cofnodion gwreiddiol (a ardystiwyd gan y Clerc a'r Cadeirydd fel copïau cywir) at yr archwilydd allanol ac nid y dogfennau gwreiddiol eu hunain.
10. Peidiwch ag anfon unrhyw wybodaeth at yr archwilydd nad yw wedi gofyn yn benodol amdani. Nid yw hyn o fudd.
11. Os bydd yn rhaid i'r archwilydd adolygu gwybodaeth nas gofynnwyd amdani, gofyn eto am wybodaeth, neu os caiff gysoniad banc anghyflawn neu esboniad o amrywiannau neu os caiff ddogfennau gwreiddiol y mae'n rhaid eu dychwelyd, bydd yr archwilydd yn mynd i gostau ychwanegol y mae ganddo hawl i godi ffioedd ychwanegol amdanynt.
12. **Peidiwch â chwblhau Tystysgrif Archwilio ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.** Bydd yr archwilydd allanol yn cwblhau hyn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru pan fydd yr archwiliad wedi ei gwblhau.
13. **Dylech ateb pob gohebiaeth â'r archwilydd allanol yn brydlon.** Bydd hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau statudol a bydd yn lleihau cost yr archwiliad.
14. **Noder, os byddwch yn cwblhau'r ffurflen electronig, rhaid i chi argraffu'r ffurflen er mwyn iddi gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol a'i llofnodi gan y Cadeirydd cyn iddi gael ei hanfon at yr archwilydd.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **23 MEHEFIN 2016** |
| TEITL | **HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **ADRODD YN ÔL O'R GWEITHDY A GYNHALIWYD AR 31 MAI 2016** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **YSTYRIED Y CYNNWYS, A CYTUNO I DDERBYN DIWEDDARIAD RHEOLAIDD ER GWELLA EI EFFEITHIOLRWYDD YMHELLACH** |

---

**1. CYFLWYNIAD**

1.1 Yn ei gyfarfod diwethaf, ar 5 Mai 2016, penderfynodd y Pwyllgor Archwilio drefnu gweithdy yn ystod Mai / Mehefin 2016 er mwyn cynnal hunanasesiad o'i effeithiolrwydd.

1.2 Pwrpas y Gweithdy fyddai ystyried os yw'r Pwyllgor yn gweithredu yn y ffordd mwyaf effeithiol, a lle mae sgôp i wneud mwy.

1.3 Cynhaliwyd y Gweithdy yn Swyddfeydd y Cyngor yn Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth, ar 31 Mai. Mynychodd saith o aelodau'r Pwyllgor, gan gynnwys y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd. Roedd y Pennaeth Cyllid, yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio yn hwyluso.

**2. CYNNWYS Y DIWRNOD**

2.1 Fel cam cyntaf, rhoddwyd cyflwyniad i esblygiad y Pwyllgor ers ei sefydlu yn 1999, a rhoddwyd sylw penodol i'r gofynion statudol i gael Pwyllgor Archwilio sydd yn eu lle yng Nghymru ers 2012 oherwydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

2.2 Cyfeiriwyd yn benodol at gyhoeddiad CIPFA, *Audit Committee – Practical Guidance for Local Authorities and Police*. Yn unol â Canllawiau Statudol Mesur 2011, mae disgwyl i bwyllgorau archwilio awdurdodau lleol yng Nghymru dalu sylw i'r cyhoeddiad yma. Mae'r Canllawiau Statudol yn cyfeirio at y fersiwn o ganllawiau CIFPFA oedd ar gael ar y pryd, sef fersiwn 2005, ond mae fersiwn ddiweddarach bellach wedi ei gyhoeddi, yn 2013.

2.3 Defnyddiwyd canllawiau CIPFA er mwyn ystyried:

- Os yw'n Pwyllgor yn gwneud y pethau y dylai, yn unol â'r gofynion statudol arno ac ymarfer gorau
- Pa mor effeithiol y mae'n gwneud y pethau hyn.

**3. HUNANASESIAD O YMARFER DA**

3.1 Defnyddiwyd Atodiad D yng Nghanllawiau CIPFA, sef Hunanasesiad o Ymarfer Da, er mwyn ystyried os yw'r Pwyllgor yn cyflawni'r hyn sydd yn ddisgwyliedig ganddo o safbwynt gofynion statudol ac ymarfer gorau y cyrff proffesiynol. Roedd yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg a'r Rheolwr Archwilio eisoes wedi rhoi sylw i'r cwestiynau hyn yn y cyfnod cyn y gweithdy, a cyflwynwyd y canlyniadau i'r gweithdy am drafodaeth.

3.2 Mae canlyniadau'r Hunanasesiad o Ymarfer Da i'w cael ar y tudalennau nesaf. Ar ôl adnabod unrhyw fylchau, lluniwyd cynllun gweithredu er mwyn gwella cydymffurfiaeth.

**HUNANASESIAD O YMARFER DA**

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pwrpas a llywodraethu y Pwyllgor Archwilio** | | | | | |
| 1 | Oes gan yr awdurdod bwyllgor archwilio penodol? | ✓ | | | Mae Rhan 9.2.1 Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn datgan “*Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Archwilio i gyflawni’r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn ac yn unol ag adrannau 81-87 y Mesur.*” |
| 2 | Ydi’r Pwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i’r Cyngor llawn? | | ✓ | | Mae’r Pwyllgor Archwilio yn adrodd yn uniongyrchol i’r Cyngor Llawn ac mae’r bwyllgor llawn (h.y. nid yw’n Is-Bwyllgor).<br><br>Mae Cynllun Dirprwyo’r Cyngor (Rhan 13 o’r Cyfansoddiad) yn benodol yn dirprwyo’r ddyletswydd i gymeradwyo datganiad yr awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) i’r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Fodd bynnag, nid yw’r Pwyllgor Archwilio wedi cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn er y nodir y gofyniad yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio. |
| 3 | A yw’r cylch gorchwyl yn nodi pwrpas y pwyllgor yn glir yn unol â datganiad sefyllfa CIPFA? | ✓ | | | Paragraff 1.1 Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio |
| 4 | A yw rôl a pwrpas y Pwyllgor Archwilio wedi ei ddeall a’i dderbyn ar draws yr awdurdod? | ✓ | | | Nid oes unrhyw dystiolaeth i’r gwrthwyneb |

|  | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5 | A yw'r Pwyllgor Archwilio yn darparu cefnogaeth i'r awdurdod wrth fodloni gofynion llywodraethu da? | ✓ |  |  | Mae Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Cyflwynir y Datganiad Llywodraethu Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio er mwyn ei herio a'i gymeradwyo. |
| 6 | A yw'r trefniadau i ddal y Pwyllgor i gyfrif am ei berfformiad yn gweithredu'n foddhaol? |  |  | ✓ | Nid oes trefniadau ffurfiol o'r fath wedi cael eu rhoi yn eu lle. |
| **Swyddogaethau'r Pwyllgor** |  |  |  |  |  |
| 7 | A yw cylch gorchwyl y pwyllgor mynd i'r afael yn echblyg â'r holl feysydd craidd a nodwyd yn natganiad sefyllfa CIPFA? |  |  |  |  |
|  | llywodraethu da | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2 |
|  | fframwaith sicrwydd | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2 |
|  | archwilio mewnol | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – paragraffau 2.2.5 – 2.2.9 a Rhan 2.3 |
|  | archwilio allanol | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.3 |
|  | adrodd ariannol | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – Rhannau 2.1 a 2.4 |
|  | rheolaeth risg | ✓ |  |  | Cylch Gorchwyl – Rhan 2.2 |
|  | gwerth am arian neu gwerth gorau |  |  | ✓ |  |
|  | atal twyll a llygredigaeth. |  | ✓ |  | Cylch Gorchwyl – paragraffau 2.2.10 – 2.2.13 |
| 8 | A gynhelir gwerthusiad blynyddol i asesu p'un a yw'r Pwyllgor yn cyflawni ei gylch gorchwyl ac os rhoddwyd ystyriaeth ddigonol i'r holl feysydd craidd? |  |  | ✓ | Ni gynhelir gwerthusiad blynyddol. |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | A yw’r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried y meysydd ehangach a nodwyd yn Natganiad Sefyllfa CIPFA a p'un a fyddai'n briodol i’r Pwyllgor ymgymryd â hwy?<br>Y pedair maes yma yw:<br>• Ystyried llywodraethu, materion risg neu reolaeth ar gais swyddogion statudol neu bwyllgorau eraill.<br>• Gweithio gyda'r pwyllgorau safonau lleol i gefnogi gwerthoedd moesegol ac adolygu’r trefniadau i sicrhau y gwerthoedd hynny.<br>• Adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys n unol â Chod Ymarfer Rheoli Trysorlys CIPFA.<br>• Darparu trosolwg o adroddiadau cyhoeddus eraill, megis yr adroddiad blynyddol | ✓ | | | Mae’r Pwyllgor Archwilio yn ymgymryd â rhai o'r meysydd hyn, e.e. adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys.<br><br>Fodd bynnag, nid yw’r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yn ffurfiol a ddylai ymgymryd â’r "meysydd ehangach".<br><br>Nid yw’r Pwyllgor Archwilio yn darparu trosolwg o'r adroddiad blynyddol ar hyn o bryd. |
| | Lle canfuwyd fod y sylw a roddwyd i feysydd craidd yn gyfyngedig, oes cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn? | | ✓ | | Y meysydd craidd hynny lle mae’r sylw a roddir iddynt yn gyfyngedig yw gwerth am arian / gorau gwaith a gwaith twyll rhagweithiol.<br><br>Bydd adroddiad ar y gwaith a wnaethpwyd ar y Fenter Twyll Genedlaethol yn cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor maes o law |
| 11 | Ydi’r Pwyllgor wedi cadw at ei rôl o beidio cynghori drwy beidio ymgymryd ag unrhyw bwerau gwneud penderfyniadau nad ydynt yn unol â’i bwrpas diben craidd? | ✓ | | | |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Aelodaeth a chefnogaeth** | | | | | |
| 12 | A ddewiswyd strwythur a chyfansoddiad pwyllgor archwilio effeithiol? Dylai hyn gynnwys: | | | | |
| | • bod ar wahân o'r weithrediaeth | ✓ | | | Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd – Rhan 9.2 |
| | • cymysgedd addas o wybodaeth a sgiliau ymhlith yr aelodau | ✓ | | | |
| | • maint pwyllgor nad yw'n anhylaw | ✓ | | | Mae gan y Pwyllgor 18 aelod ac un aelod lleyg. Mae'r Gweithgor Gwella Rheolaethau wedi cael ei sefydlu er mwyn delio â'r meysydd hynny lle byddai'r Pwyllgor llawn yn anhylaw. |
| | • Lle mae aelodau annibynnol, eu bod wedi eu penodi gan ddefnyddio proses addas. | ✓ | | | Dilynwyd gweithdrefnau priodol, gan gynnwys hysbysebu yn y wasg. |
| 13 | Ydi Cadeirydd y Pwyllgor yn meddu ar yr wybodaeth a sgiliau priodol? | ✓ | | | |
| 14 | A oes trefniadau ar waith i gefnogi'r Pwyllgor gyda sesiynau briffio a hyfforddiant? | | ✓ | | Er ei fod wedi ei ymgorffori yn y cylch gorchwyl – paragraff 3.1.2 – ni ddarparwyd hyfforddiant anwytho i aelodau newydd, ond mae unrhyw feysydd newydd yn cael eu hegluro i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd. Mae hyfforddiant wedi cael ei ddarparu ar faterion Rheolaeth Trysorlys. |
| 15 | A yw aelodaeth y Pwyllgor wedi eu hasesu yn erbyn y fframwaith gwybodaeth a sgiliau craidd ac wedi'i gael yn foddhaol? | | ✓ | | Nid oes unrhyw hunan asesiad o sgiliau a gwybodaeth aelodau wedi ei gynnal. |
| 16 | Oes gan y Pwyllgor gysylltiadau gweithio da gyda phobl allweddol a sefydliadau, gan gynnwys archwilio allanol, archwilio mewnol a'r prif swyddog ariannol? | ✓ | | | Mae perthynas waith dda iawn gyda'r rhanddeiliaid allweddol hyn. |
| 17 | A ddarperir ysgrifenyddiaeth a chymorth gweinyddol digonol i'r Pwyllgor? | ✓ | | | Oes, yn unol â threfniadau'r Cyngor. |

| | Cwestiynau Ymarfer Da | Ydi | Rhannol | Na | Tystiolaeth / Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Effeithiolrwydd y Pwyllgor** | | | | | |
| 18 | Ydi’r Pwyllgor wedi cael adborth ar ei berfformiad gan y rheini sy’n rhyngweithio gyda'r Pwyllgor neu’n dibynnu ar ei waith? | | | ✓ | Byddwn yn mynd i’r afael â’r maes yma yn y Gweithdy ar 31 Mai 2016. |
| 19 | A yw’r Pwyllgor wedi gwerthuso os yw, a sut, y mae'n ychwanegu gwerth i'r sefydliad? | | | ✓ | |
| 20 | Oes gan y Pwyllgor gynllun gweithredu i wella unrhyw feysydd o wendid? | | | ✓ | |

**Materion sydd angen sylw**

3.3 Wrth ystyried canlyniadau'r Hunanasesiad o Ymarfer Da, nodwyd barn yr aelodau fod y bylchau canlynol angen sylw:

| Cwestiwn | Mater sydd angen sylw | Ffyrdd i ymateb |
|---|---|---|
| 2 | Nid yw'r Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol i'r Cyngor Llawn | **Bydd y Pwyllgor yn dilyn esiampl pwyllgorau eraill sydd eisoes yn gwneud hyn, ac yn dysgu gwersi ganddynt, er mwyn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn ar adeg priodol o'r flwyddyn.** |
| 6 | Nid yw aelodau'r pwyllgor ar hyn o bryd yn adlewyrchu ar eu perfformiad. | **Bydd aelodau'r Pwyllgor yn asesu eu perfformiad eu hunain yn unigol, a'r Pwyllgor fel corff, trwy wahanol ffyrdd, gan gynnwys gwe-ddarllediadau. Gall hyn olygu defnyddio arbenigwr allanol, os tybir hynny yn briodol ac yn ychwanegu gwerth.** |
| 7 | Dealltwriaeth y Pwyllgor o waith gwerth am arian | **Dysgu trwy weithdai, seminarau ayb am enghreifftiau o awdurdodau eraill.** |
| 7, 10 | Cryfhau yr ystyriaeth rhagweithiol a roddir i faterion atal twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo. | **Rhaglen wedi ei ddatblygu i gyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor.** |
| 9 | Nid yw'r Pwyllgor wedi ystyried yn ffurfiol os dylai ymgymryd â'r meysydd ychwanegol a amlinellir yn y Canllawiau. Yn hytrach, mae wedi gwneud hynny mewn ffordd "ad hoc". | **Cyflwyno adroddiad i un o gyfarfodydd 2016/17 er mwyn rhoi ystyriaeth benodol i hyn. Bydd hyn yn cynnwys ystyried beth mae cynghorau eraill yn eu gwneud.** |
| 14 | Angen cryfhau hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor. Nodwyd fod hyfforddiant yn fandadol ar gyfer rhai pwyllgorau yn barod (e.e. Pwyllgor Cynllunio), ac roedd aelodau yn teimlo y dylai'r un sefyllfa fodoli ar gyfer y Pwyllgor Archwilio. | **Bydd swyddogion Cyllid yn llunio rhaglen hyfforddiant arfaethedig ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio, a bydd hyn yn cynnwys trafodaethau gyda unedau perthnasol o'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol. Bydd rhaglen hyfforddiant yma yn cynnwys, fel isafswm:**<br>• **Cynnal asesiadau bwlch mewn hyfforddiant.**<br>• **Beth yw cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio, a sut mae hynny'n cymharu gyda pwyllgorau eraill.**<br>• **Sesiwn anwytho i aelodau newydd ar rolau archwilio mewnol ac archwilio allanol.** |

**4. GWERTHUSO EFFEITHIOLRWYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

4.1 Defnyddiwyd “Atodiad E” o ganllawiau CIFPA er mwyn ystyried os ydi’r Pwyllgor Archwilio yn cyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol posib. Er mwyn gwneud hynny defnyddiwyd y dull sgorio a argymhellwyd i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Mai, sef i weithio trwy’r cwestiynau yn Atodiad E a rhoi sgôr o 1 i 5 yn seiliedig ar yr isod:

## Allwedd i’r Asesiad

5 Mae tystiolaeth glir ar gael o nifer o ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol wrth gefnogi gwelliannau ar draws pob agwedd o’r maes hwn. Mae modd adnabod y gwelliannau a wnaed yn hawdd.

4 Tystiolaeth glir o rai ffynonellau fod y Pwyllgor yn weithredol ac yn effeithiol wrth gefnogi gwelliannau ar draws rhai agweddau o’r maes hwn.

3 Mae'r Pwyllgor wedi cael profiad gymysg wrth gefnogi gwelliant yn y maes hwn. Ceir peth tystiolaeth sy'n dangos eu heffaith ond mae bylchau sylweddol hefyd.

2 Ceir rhywfaint o dystiolaeth fod y Pwyllgor wedi cefnogi'r gwelliannau, ond mae effaith y cymorth hwn yn gyfyngedig.

1 Ni ellir gweld unrhyw dystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio wedi cefnogi'r gwelliannau yn y maes hwn.

4.2 Bu cyfle yn y gweithdy i’r swyddogion herio’r sgoriau arfaethedig a gynigwyd – roedd hyn yn ffordd effeithiol o ysgogi trafodaeth a sicrhau fod materion priodol wedi eu nodi.

4.3 Mae hunanasesiad yr aelodau o effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio wedi ei gynnwys ar y tudalennau nesaf.

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Hyrwyddo egwyddorion llywodraethu da a'u cymhwyso i'r drefn o wneud penderfyniadau. | Darparu adolygiad cadarn o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r sicrwydd sy'n ei ategu.<br>Gweithio gydag aelodau/llywodraethwyr allweddol i wella eu dealltwriaeth o'r DLlB a'u cyfraniad iddo.<br>Yn cefnogi adolygiadau/archwiliadau o'r trefniadau llywodraethu.<br>Cymryd rhan mewn hunanasesiadau o drefniadau llywodraethu.<br>Gweithio gyda pwyllgorau archwilio partneriaid i adolygu trefniadau llywodraethu mewn partneriaethau. | Yn gyffredinol mae hyn yn dda, ond efallai fod lle i gymryd mwy o ran yn yr hunanasesiad o drefniadau llywodraethu.<br>Nid yw'r Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth fanwl i bartneriaethau ar hyn o bryd. | **4** |
| Cyfrannu at ddatblygu amgylchedd rheolaeth effeithiol. | Monitro gweithredu argymhellion archwilwyr.<br>Annog perchnogaeth y fframwaith rheoli mewnol gan reolwyr priodol.<br>Codi pryderon sylweddol dros reolaethau gydag uwch reolwyr priodol. | Mae tystiolaeth glir ar gael fod y Pwyllgor yn cyflawni'r rôl yma | **5** |
| Cefnogi sefydlu trefniadau ar gyfer llywodraethu risg ac ar gyfer trefniadau effeithiol i reoli risgiau. | Adolygu trefniadau rheoli risg a'u heffeithiolrwydd, e.e. meincnodi rheolaeth risg.<br>Monitro gwelliannau.<br>Dal perchenogion risg i gyfrif am risgiau strategol/mawr. | Nid yw'r Pwyllgor yn derbyn y gofrestr risg gorfforaethol ar hyn o bryd. Mae lle i gryfhau trosolwg y Pwyllgor o drefniadau rheoli risg yr awdurdod. | **3** |
| Rhoi cyngor ar ddigonolrwydd y fframwaith sicrwydd ac ystyried p'un ai yw sicrwydd yn cael eu defnyddio'n effeithlon ac yn effeithiol. | Wedi pennu ei anghenion sicrwydd, gan nodi bylchau neu gorgyffwrdd mewn sicrwydd.<br>Yn ceisio symleiddio'r drefn o gasglu ac adrodd ar sicrwydd.<br>Adolygu effeithiolrwydd darparwyr sicrwydd, e.e. archwilio mewnol, rheoli risg, archwilio allanol. | Yn gyffredinol dda, ond nid yw'r Pwyllgor yn derbyn manylion llawn gan bob un o'r cydbwyllgorau ar hyn o bryd | **4** |
| Cefnogi ansawdd weithgaredd archwilio mewnol, yn arbennig wrth gefnogi ei annibyniaeth sefydliadol | Adolygu'r siarter archwilio a'r trefniadau adrodd swyddogaethol.<br>Asesu effeithiolrwydd y trefniadau archwilio mewnol a cefnogi gwelliannau | Mae hyn yn effeithiol iawn ers sawl blwyddyn, ac mae'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn gefnogol. | **5** |

| Meysydd lle y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth drwy gefnogi gwelliant | Enghreifftiau o sut y gall y Pwyllgor Archwilio ychwanegu gwerth a darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd | Hunanwerthuso, enghreifftiau, meysydd o gryfder a gwendid | Asesiad cyffredinol |
|---|---|---|---|
| Helpu i gyflawni nodau ac amcanion yr awdurdod drwy helpu i sicrhau trefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd priodol. | Adolygu prosiectau a rhaglenni mawr er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu a sicrwydd ar waith.<br>Adolygu effeithiolrwydd y trefniadau rheoli perfformiad. | Yn gyffredinol dda, ond nodwyd bwlch yn yr ystyr nad yw'r Pwyllgor yn adolygu cynlluniau prosiect a cofrestrau risg prosiectau mawr fel mater o drefn | **4** |
| Cefnogi datblygiad trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau gwerth am arian. | Gwneud yn siŵr bod sicrwydd o ran trefniadau gwerth am arian wedi eu cynnwys yn y sicrwydd a dderbynnir gan y Pwyllgor Archwilio.<br>Ystyried sut y bydd perfformiad o ran gwerth am arian yn cael ei werthuso fel rhan o'r DLlB. | Yn gyffredinol dda, ond gellir gwella ystyriaeth o werth am arian | **4** |
| Helpu'r awdurdod i weithredu gwerthoedd llywodraethu da, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â risgiau twyll a llygredd. | Adolygu'r trefniadau yn erbyn y safonau sydd wedi eu gosod allan yng nghyhoeddiad CIPFA *Managing the Risk of Fraud ("Red Book 2").*<br>Adolygu risgiau twyll ac effeithiolrwydd strategaeth y sefydliad i fynd i'r afael â'r risgiau hynny.<br>Asesu effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu moesegol ar gyfer staff a llywodraethwyr. | Nid yw'r Pwyllgor wedi adolygu'r trefniadau yn erbyn y safonau a argymhellir, ac mae lle i gryfhau yma. | **3** |
| Hyrwyddo adroddiadau cyhoeddus effeithiol i randdeiliaid yr awdurdod a'r gymuned leol a mesurau i wella tryloywder ac atebolrwydd. | Gwella sut y mae'r awdurdod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ar gyfer adrodd cyhoeddus; er enghraifft, gwell targedu ar y gynulleidfa, iaith blaen.<br>Adolygu os yw penderfyniadau a wneir drwy sefydliadau partneriaeth yn parhau i fod yn dryloyw a hygyrch i'r cyhoedd ac yn annog mwy o dryloywder. | Roedd y gweithdy yn teimlo fod y Pwyllgor yn cyflawni'r hyn y gallai yn y maes yma ac na ellid gwneud mwy | **5** |



**4.4 Mae hyn yn rhoi sgôr cyfartalog o 4.1. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn ôl i'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, er mwyn i'r Grŵp ei ystyried yng nghyd-destun y Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu'r Cyngor.**

**Materion sydd angen sylw**

4.5 Mae'r canlynol yn gamau gweithredu pellach sy'n deillio o'r Hunanasesiad o Effeithiolrwydd, a maent yn ychwanegol i'r rhai a nodir yn rhan 3.3 o'r adroddiad yma:

| **Mater sydd angen sylw** | **Ffyrdd i ymateb** |
|---|---|
| Nid yw'r Pwyllgor yn rhoi ystyriaeth fanwl i bartneriaethau ar hyn o bryd | **Cynnal gwaith ymchwil, o bosib gan Grŵp Tasg, i'r partneriaethau y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt.** |
| Manylion am y Gofrestr Risg Gorfforaethol | **Y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau rheolaidd yn manylu ar gynnwys y Gofrestr Risg Gorfforaethol.** |
| Prosiectau mawr | **Y Pwyllgor i ystyried derbyn cynlluniau prosiect a cofrestrau risg prosiectau mawr pan yn briodol. Bydd angen gwaith ymchwil bellach er mwyn sefydlu beth sydd ei angen, a pryd.** |
| Trefniadau Gwrth-dwyll | **Swyddogion Cyllid i gwblhau asesiad yn erbyn canllawiau priodol, ac adrodd arnynt i'r Pwyllgor** |

4.6 Yn ogystal â'r uchod, nodwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y Gweithdy:

- Fod cynrychiolwyr o archwilwyr ariannol newydd y Cyngor, cwmni Deloittes, wedi mynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 5 Mai, ac roedd eu hargraffiadau cyntaf yn bositif iawn.
- Mae gwaith yn parhau yn angenrheidiol i fod yn eglur am y ffin rhwng rôl y Pwyllgor Archwilio a rôl y pwyllgorau craffu.
- Mae lle i gryfhau cydweithio rhwng y pwyllgorau, e.e. wrth edrych ar brosiectau mawr, strategol megis Pont Briwet.
- Mynegwyd pryder am nifer y aelodau sy'n mynychu rhai cyfarfodydd o'r Pwyllgor ac sydd wedi mynychu'r gweithdy.
- Mae lle i'r Pwyllgor wneud mwy o safbwynt herio perfformiad yr archwilwyr allanol yn ogystal ag Archwilio Mewnol.

**5. ARGYMHELLIAD**

**5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:**

- **Dderbyn cadarnhad gan yr aelodau hynny oedd yn y Gweithdy ar 31 Mai fod yr adroddiad yma yn adlewyrchiad teg o'r drafodaeth a gafwyd yno.**
- **Dderbyn cynnwys yr adroddiad yma fel sail i gynllun gweithredu ar gyfer datblygiad pellach y Pwyllgor, ac i benderfynu i dderbyn diweddariad i bob cyfarfod ar y cynnydd yn erbyn y camau gweithredu hyn.**

| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| DYDDIAD | **23 MEHEFIN 2016** |
| TEITL | **DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD AR GYFER 2015/16** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO’R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (YN YMGORFFORI’R DATGANIAD RHEOLAETH FEWNOL STATUDOL) AR GYFER 2015/16 I’R PWYLLGOR ARCHWILIO AM GYMERADWYAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, UWCH REOLWR REFENIW A RISG** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO’R DATGANIAD AT BWRPASAU EI ARWYDDO GAN ARWEINYDD Y CYNGOR A’R PRIF WEITHREDWR** |

---

**1. CYFLWYNIAD – BETH SYDD ANGEN I’R PWYLLGOR ARCHWILIO EI WNEUD?**

1.1 Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau fel “y rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu”, mae angen i’r Pwyllgor Archwilio:

- **Ystyried y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft sy’n ymddangos yn yr atodiad.**
- **Herio’r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am sgoriau “Impact” ac “Effeithiolrwydd” sydd wedi eu nodi, a’r naratif sy’n egluro’r cyfiawnhad am y sgôr.**
- **Ystyried cynllun gweithredu’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.**
- **Cymeradwyo’r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a’r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.**

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae gofyn statudol am Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol fel canlyniad i gynnwys:

- Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n datgan:

  **Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod system gadarn o reoli mewnol sy'n hwyluso gweithrediad effeithiol swyddogaethau'r corff hwnnw ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.**

  **Rhaid i'r corff perthnasol gynnal adolygiad o leiaf unwaith mewn blwyddyn ar effeithiolrwydd ei systemau rheoli mewnol. Rhaid i ganfyddiadau'r adolygiad gael eu hystyried gan aelodau'r corff yn cyfarfod yn ei gyfanrwydd neu gan bwyllgor.**

  **Ar ôl yr adolygiad, rhaid i'r corff neu'r pwyllgor gymeradwyo datganiad ar reoli mewnol a baratowyd yn unol ag arferion priodol. Rhaid i'r corff perthnasol sicrhau bod y datganiad yn mynd gydag unrhyw ddatganiad o gyfrifon y mae'n ddyletswydd arno i'w baratoi.**

- Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (y "SORP")

- Fframwaith CIPFA / SOLACE *Delivering Good Governance in Local Government*, ac atodiadau dilynol. Cyhoeddwyd fersiwn newydd o'r fframwaith yn ystod Ebrill 2016. Yn ystod haf 2016 bydd y Cyngor yn dechrau ar y gwaith o adolygu ei drefniadau llywodraethu yng nghyd-destun y fframwaith newydd, ond mae Datganiad 2015/16 wedi ei lunio ar sail y fframwaith oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn.

## 3. HUNANASESIAD O EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LYWODRAETHU

3.1 Mae gan y Pwyllgor Archwilio swyddogaeth allweddol i herio dulliau paratoi a chynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Wrth iddynt arwyddo'r Datganiad Llywodraethu, mae'r Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor yn cadarnhau:

"Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod."

3.2 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn crynhoi canlyniad yr hunanasesiad llywodraethu, sydd wedi cael ei ddiweddaru gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystod y flwyddyn, mewn datganiad sydd yn dweud wrth Bobl Gwynedd beth yw ein fframwaith lywodraethu, a pa mor dda mae'n gweithio. Aelodau'r Grŵp yw y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, dau Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

**3.3** Mae'r diagram sy'n cynnwys y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn dilyn yr un ffurf ag yn Natganiad 2015. Wrth gymeradwyo'r datganiad hwnnw, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn mai'r diffiniad o "lywodraethu da" yw trefniadau sy'n rhoi darparu ar ran bobl Gwynedd yn y canol.

3.4 Mae angen i'r Pwyllgor Archwilio fodloni ei hun fod y naratif sy'n cyfiawnhau'r sgoriau yn adlewyrchiad teg o'r Cyngor cyn belled â'i fod yn ymwybodol o hynny, ar sail yr wybodaeth y mae wedi ei dderbyn dros y flwyddyn.

**4. Y DREFN SGORIO**

4.1 Mae'r trefniadau ar gyfer gosod sgôr Impact ac Effeithiolrwydd ar gyfer elfennau Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor wedi bod yn destun adroddiadau i ddau gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio, ar 11 Chwefror 2016 a 5 Mai 2016.

4.2 Roedd adroddiad 11 Chwefror yn cyflwyno manylion am asesiad diweddar o holl elfennau'r fframwaith llywodraethu, gan gynnwys newidiadau yn y sgoriau lle'n briodol. Mae dolen i'r adroddiad yma i'w gael isod:

**Adroddiad:**
https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3720/Hunanasesiad%20o%20Drefniadau%20Llywodraethu.pdf?LLL=1

**Atodiad:**

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s3721/Atodiad.pdf?LLL=1

4.3 Penderfynwyd yn nghyfarfod 5 Mai y byddai'r Cyngor yn defnyddio matrics 5x5 yn hytrach na 10x10 o hyn ymlaen i arddangos ei sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd. Roedd hynny ar sail argymhelliad gan y Grŵp Rheoli, ac ystyriaeth gan y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu. Roedd yr adroddiad yn gosod allan canlyniadau yr asesiad a adroddwyd arno yn Chwefror yn y matrics newydd:

**Adroddiad:**

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4442/Hunanasesiad%20o%20Drefniadau%20Llywodraethu.pdf?LLL=1

**Atodiad:**

https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s4443/Atodiad.pdf?LLL=1

**Sgoriau Impact**

4.4 Nid oes unrhyw un o'r sgoriau Impact wedi newid ers y cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio ar 5 Mai.

**Sgoriau Effeithiolrwydd**

4.5 Un sgôr Effeithiolrwydd sydd wedi newid er y cyflwyniad blaenorol i'r Pwyllgor ar 5 Mai, sef cynnydd yn y sgôr Rheoli Perfformiad o 2 i 3 allan o 5.

| | |
|---|---|
| **Rheoli Perfformiad** | **Gwella o 2 i 3** |

4.6 Mae hynny yn adlewyrchu'n cynnydd a wnaed i gyflwyno trefn rheoli perfformiad newydd ar draws y Cyngor, gydag unedau busnes ar draws yr awdurdod bellach yn ystyried os ydym yn mesur y pethau cywir.

## 5. BLAENORIAETHAU'R CYNGOR

5.1 Canlyniad y newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ers cymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2014/15 yw'r addasiadau canlynol i flaenoriaethau llywodraethu'r Cyngor:

- Gwerthoedd y Cyngor wedi ei ailenwi yn "Diwylliant y Cyngor" ac wedi symud o'r coch i'r oren
- Ymgysylltu wedi symud o'r coch i'r oren
- Rhaglen Arweinyddiaeth wedi symud o'r oren i'r melyn
- Llywodraethu Gwybodaeth wedi symud o'r coch i'r oren
- Y gyfundrefn 'Cyflawni' wedi ei ailenwi yn "Rheoli Perfformiad" ac wedi symud o'r coch i'r oren
- Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol wedi ei ailenwi yn "Ymateb i Llythyr Blynyddol yr Archwiliwr Allanol" ac wedi symud o'r oren i'r melyn
- Y Pwyllgor Safonau wedi symud o'r melyn i'r gwyrdd
- Cydberthynas Aelodau wedi symud o'r oren i'r melyn
- Côd Ymarfer Canu'r Gloch wedi symud o'r melyn i'r gwyrdd
- Defnydd o Dechnoleg yn elfen newydd sydd yn oren
- Rheolaeth Asedau yn elfen newydd sydd yn felyn
- Gwerthuso, Hyfforddi a Datblygu Staff wedi ei ailenwi'n "Cynllunio'r Gweithlu", ac yn parhau'n oren.

5.2 Felly, nid oes elfennau Blaenoriaeth Uchel Iawn (coch) erbyn hyn.

5.3 Yr elfennau Blaenoriaeth Uchel (oren) ydi:

- Diwylliant y Cyngor
- Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig
- Cynllun Strategol y Cyngor
- Ymgysylltu
- Llywodraethu Gwybodaeth
- Trefniadau Rheoli Risg
- Rheoli Perfformiad
- Y Drefn Craffu
- Cynllunio'r Gweithlu
- Defnydd o Dechnoleg

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio:

- Ystyried y Datganiad Llywodraethu Drafft sy'n ymddangos yn yr atodiad.
- Herio'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg am sgoriau "Impact" ac "Effeithiolrwydd" sydd wedi eu nodi, a'r naratif sy'n egluro'r cyfiawnhad am y sgôr.
- Ystyried cynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft.
- Cymeradwyo'r Datganiad, ac argymell fod Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr yn ei arwyddo.

**DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

**Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB**

Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Mae'n ddyletswydd o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 i Gyngor Gwynedd sefydlu trefniadau sy'n sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o agweddau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau eang yma, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn gyfrifol am roi trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cymeradwyo a mabwysiadu Côd Llywodraethu Corfforaethol, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*. Mae copi o'r côd i'w gael ar ein gwefan, neu gellir derbyn copi trwy ysgrifennu at Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Sir, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH. Mae'r datganiad yma yn esbonio sut mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r côd ac mae hefyd yn cwrdd â gofynion rheoliad 5(5) Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reoli mewnol.

**Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r awdurdod, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Cyngor i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisïau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Cyngor, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod yn ei le yng Nghyngor Gwynedd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

**Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

3.1 Mae'r **Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu** yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, dau Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

3.2 Mae'r Grŵp wedi adnabod y 33 o elfennau sy'n ffurfio fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd, a rhoddir ystyriaeth arbennig i'r effaith y disgwylir i bob un o'r rhain eu cael wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus ar gyfer pobl Gwynedd. Cyn asesu effeithiolrwydd yr elfennau hyn, nodwyd sgôr Effaith ("Impact") i bob un o'r elfennau, i adlewyrchu pa mor gymharol fawr yw effaith pob un ohonynt wrth ychwanegu gwerth cyhoeddus.

3.3 Yn ystod 2015/16, ar sail argymhelliad gan y Grŵp Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio, newidiwyd amrediad y sgoriau Impact. Mae'r sgoriau hyn bellach yn amrywio o 1 (effaith fychan) i 5 (effaith uchel iawn) yn hytrach nag o 1 i 10. Mae'r sgoriau hyn wedi eu hasesu, eu herio a'u cadarnhau gan y Pwyllgor Archwilio a Grŵp Rheoli'r Cyngor.

3.4 Mae'r Cyngor o'r farn mai'r elfennau sy'n cael yr ardrawiad fwyaf wrth ei alluogi i gyflawni yw:

**Sgôr Impact o 5 (allan o5):**

| | |
|---|---|
| **Diwylliant y Cyngor** | O gael y diwylliant yn iawn, mae modd i hynny oruchafu popeth arall sy'n effeithio ar ein gallu i gyflawni gan y bydd yr egwyddorion llywodraethu da yn rhan annatod o ymddygiad dydd i ddydd pob unigolyn o fewn y sefydliad. |

**Sgôr Impact o 4:**

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig** | Mae parodrwydd cyrff sector gyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, cynghorau unedol eraill cyfagos, yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd ac eraill i gydweithredu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar y cyd am gael effaith sylweddol, weladwy i Bobl Gwynedd. |
| **Cynllun Strategol y Cyngor** | Dyma'r datganiad lefel uchel sy'n amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor am anelu i'w gyflawni yn ystod oes y Cyngor presennol a hwn sy'n sicrhau ein bod yn glir ac yn agored am yr hyn y bwriedir ei gyflawni. |
| **Ymgysylltu** | Mae ymgysylltu'n glir gyda Pobl Gwynedd, er mwyn sefydlu cyfathrebu clir a cael wir ddealltwriaeth o'u anghenion, yn un o elfennau pwysicaf o'r trefniadau llywodraethu. |
| **Rhaglen Arweinyddiaeth** | Mae Arweinyddiaeth yn gosod y safon y mae pob aelod a gweithiwr yn y Cyngor yn ei ddilyn. Mae ei impact, felly, yn enfawr – gall Arweinyddiaeth dda oresgyn popeth arall, tra gallai Arweinyddiaeth wael ddistrywio'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni. Hwn sy'n hwyluso gwreiddio diwylliant y Cyngor. |
| **Llywodraethu Gwybodaeth** | Mae bod â'r wybodaeth gywir yn hanfodol os yw'r Cyngor am ddarparu'r gwasanaethau cywir i'r pobl gywir yn y ffordd gywir. Mae angen i'r wybodaeth sy'n cael ei gasglu a'i gadw fod yn gyfredol a pherthnasol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio â Deddf Diolgelu Data ond hefyd er mwyn sicrhau fod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu yn rhai sy'n gwneud y pethau iawn. Llywodraethu Gwybodaeth dda yw sylfaen penderfyniadau da. |

| | |
|---|---|
| **Strategaeth ariannol** | Y Strategaeth Ariannol sy'n gosod cyd-destun allweddol ar gyfer popeth y mae'r Cyngor am ei wneud.<br>Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn awgrymu y bydd rhaid darganfod arbedion sylweddol yn y blynyddoedd nesaf. Y Strategaeth Ariannol sydd yn gosod allan sut y byddwn yn gwireddu hyn, ac felly mae'n ddatganiad hollbwysig, sydd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn delio â'r sefyllfa. |
| **Cynllunio'r Gweithlu** | Er mwyn sicrhau fod y Cyngor mewn sefyllfa i ddarparu gwasanaethau sydd yn rhoi Pobl Gwynedd yn y canol bob amser, rhaid sicrhau fod gennym y staff iawn yn y lle iawn gyda'r sgiliau iawn. Golyga hynny fod angen i ni hyfforddi staff yn barhaus, gwerthuso eu perfformiad, a meithrin a datblygu ei dalent. Mae trefniadau hyfforddi staff yn ffordd bwysig o hybu a lledaenu meddylfryd Ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor, ac wrth gwrs mae'n hollbwysig fod gan y Cyngor swyddogion sydd â'r sgiliau i gyflawni eu swyddi. |

**Sgôr Impact o 3:**

| | |
|---|---|
| **Trefniadau Rheoli Risg** | Mae ein trefniadau rheoli risg yn rhan annatod o drefniadau rheoli'r Awdurdod. Mae trefniadau rheoli risg cadarn, cywir a chymesur yn cefnogi arloesi, nid ei lesteirio. |
| **Côd Llywodraethu Lleol** | Mae'r Côd Llywodraethu Lleol yn gonglfaen trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'n cwmpasu nifer fawr o'r elfennau sydd angen bod yn eu lle er mwyn i'r Cyngor allu gwireddu ar ran Pobl Gwynedd. |
| **Y Cyfansoddiad** | Fel y cyfundrefnau a rheolau ar gyfer y ffordd y mae'r Cyngor yn gweithredu, mae'n anorfod fod y Cyfansoddiad, o ddiffiniad, yn cael impact arwyddocaol ar y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. |
| **Rheoli Perfformiad** | Dyma gyfundrefn cynllunio busnes a monitro perfformiad y Cyngor. Oherwydd hyn, mae effaith y gyfundrefn ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ar ran Pobl Gwynedd yn allweddol. |
| **Y Drefn Craffu** | Y drefn craffu yw'r broses sydd yn ei le i sicrhau fod Cabinet y Cyngor yn gweithredu ei bolisïau yn unol â'u haddewidion ac er lles Pobl Gwynedd. Mae felly'n rhan bwysig iawn o'r fframwaith lywodraethu. |
| **Defnydd o Dechnoleg** | Mae defnyddio technoleg mewn ffordd effeithiol yn arf hanfodol i sicrhau fod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n cwrdd ag anghenion ein trigolion, gan wneud hynny mewn ffordd cost effeithiol. |
| **Rheolaeth Asedau** | Mae adrannau'r Cyngor yn defnyddio amrediad eang o asedau yn ogystal a'i brif ased – sef ei weithlu – ac mae'n hanfodol fod yr asedau hynny yn cwrdd â gofynion ein trigolion tra'n sicrhau nad ydym yn gwario'n ddianghenraid ar asedau lle mae'r gost o'u darparu yn uwch na'r budd sy'n dod ohonynt. |

Yn ogystal, derbyniodd yr elfennau canlynol sgôr is o ran eu heffaith ar werth cyhoeddus:

| **Elfen** | **Sgôr Impact (allan o 5)** |
|---|---|
| Perthynas Aelod/Swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau<br>Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Pwyllgor Archwilio<br>Polisi Gwrth-Dwyll a Gwrthlygredd<br>Ymateb i Adroddiad Blynyddol yr Archwiliwr Allanol<br>Archwilio Mewnol<br>Strategaeth Gaffael<br>Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd<br>Cydraddoldeb | **2** |
| Y Pwyllgor Safonau<br>Taflenni Penderfyniad<br>Protocolau Swyddogion Statudol<br>Cydberthynas Aelodau<br>Côd Ymarfer Canu'r Gloch<br>Hyfforddi a Datblygu Aelodau<br>Y Drefn Gwynion<br>Datganiad o'r cyfrifon | **1** |

3.5 Gwelwyd y datblygiadau canlynol yn ein trefniadau llywodraethu yn ystod 2015/16, ac yn y cyfnod ers 31 Mawrth 2016:

| | |
|---|---|
| Ebrill 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod i rym. |
| Gorffennaf 2015 | Y Cyngor Llawn yn mabwysiadu Cynllun Strategol 2015-17. |
| | Y Cabinet yn mabwysiadu'r Strategaeth Ffordd Gwynedd. |
| | Y Cabinet yn mabwysiadu Strategaeth Gaffael. |
| Rhagfyr 2015 | Y Cyngor Llawn, yn ddiwrthwynebiad, yn cytuno i geisio rhoi sylw i arbenigedd a phrofiad, yn hytrach na gweithredu'r rheolau o safbwynt cydbwysedd gwleidyddol ar bwyllgorau yn haearnaidd ym mhob achos. |
| Ionawr 2016 | Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Archwilio i ystyried argymhellion a chynigion gwella adroddiadau archwilwyr a rheoleiddwyr allanol. Dechrau trefn fydd yn digwydd pob 6 mis o hyn ymlaen. |
| | Sefydlu Is-Grŵp o aelodau'r Cabinet, Fforwm Craffu a'r Pwyllgor Archwilio i ystyried ein trefniadau Craffu. |
| Chwefror 2016 | Y Cyngor yn cyflwyno sylwadau ffurfiol ar y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. |
| Mawrth 2016 | Y Cyngor Llawn yn mabwysiadu Cynllun Strategol 2016-17. |
| | Y Cyngor Llawn yn mabwysiadu Strategaeth Ariannol, gan gynnwys toriadau i gyfarch y bwlch ariannol, yn dilyn yr ymarferiad ymgysylltu "Her Gwynedd". |
| | Y Cabinet yn cymeradwyo Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-20 Cyngor Gwynedd. |
| | Y Cabinet yn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau Eiddo. |
| Ebrill 2016 | Ychwanegu "Defnydd o Dechnoleg" a "Rheolaeth Asedau" i'r Fframwaith Llywodraethu. |
| | Y Cyngor yn ymateb i Ymgynghoriad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru – *Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyn y mae'n ei olygu i'ch archwiliad chi.* |
| Mai 2016 | Y Cabinet yn mabwysiadu Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (2016-2018). |

**Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU**

4.1 Mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, adroddiad blynyddol y pennaeth archwilio mewnol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

4.2 Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu wedi cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i asesu trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn barhaus, gan roi sylw i faterion sydd yn dod i'w sylw sy'n effeithio ar ei ganfyddiad o'r fframwaith lywodraethu. Wrth wneud hyn, mae wedi asesu effeithiolrwydd pob un o 33 elfen y fframwaith lywodraethu trwy gynnal asesiad systematig o bob un o'r elfennau yn eu tro, gyda cymorth templed a baratowyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn seiliedig ar Fframwaith CIPFA / Solace.

4.3 Dyma rai o'r camau allweddol a gymerwyd wrth asesu ein Trefniadau Llywodraethu yn ystod 2015/16 ac yn y cyfnod ers 31 Mawrth 2016:

| | |
|---|---|
| Hydref 2015 | Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystyried gofynion Asesiad Corfforaethol SAC, a cychwyn mapio cwestiynau SAC i fframwaith lywodraethu'r Cyngor. |
| | Ymweliadau i Gyngor Sir Ynys Môn a Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddysgu gwersi o'u hadolygiadau llywodraethu corfforaethol. |
| | Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor. |
| Tachwedd 2015 | Cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Adolygiad o Effeithiolrwydd Trefniadau Craffu* a cyhoeddi canlyniadau Arolwg 360° o farn aelodau ac uwch swyddogion y Cyngor o effeithlonrwydd y trefniadau craffu o fewn y Cyngor. |
| Rhagfyr 2015 | Y Pwyllgor Archwilio yn ystyried trefniadau Rheoli Risg y Cyngor. |
| Ionawr 2016 | Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cwblhau adolygiad hanner blwyddyn o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu. |
| | Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn adolygu effeithiolrwydd Defnydd o Dechnoleg. |
| Chwefror 2016 | Cyflwyno canlyniad yr adolygiad hanner blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio a'r Grŵp Rheoli. |
| Mawrth 2016 | Cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Asesiad o Gydnerthedd Ariannol*, sy'n cadarnhau barn yr archwilwyr fod Cyngor Gwynedd yn risg isel o safbwynt Cynllunio Ariannol, Rheoli Ariannol a Llywodraethu Ariannol. |
| Mai 2016 | Ar sail argymhelliad gan y Grŵp Rheoli, ac ar ôl ei ystyried yn y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, y Pwyllgor Archwilio yn cytuno i ddefnyddio matrics 5x5 yn hytrach na 10x10 o hyn ymlaen i asesu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu. |
| | Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystyried hunanasesiad o Rheolaeth Asedau. |
| | Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn ystyried hunanasesiad o Llywodraethu Gwybodaeth. |

4.4 Mae'r canlynol hefyd wedi cyfrannu wrth gynnal yr asesiad o effeithiolrwydd y fframwaith lywodraethu yn ystod y flwyddyn:

- Asesiadau gan aelodau a prif swyddogion wrth ddatblygu egwyddorion "Ffordd Gwynedd", sef yr un weledigaeth gyffredin a chlir i bawb yn y Cyngor ynglŷn â'r diwylliant corfforaethol sydd ei angen os am sicrhau fod pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.
- Gwaith Archwilio Mewnol, wedi ei grynhoi yn Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym Mai 2016. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y sicrwydd cyffredinol canlynol: ***"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2015/16, yn fy marn i, mae gan Cyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a cryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol."***
- Ystyriaeth o ganlyniadau gwaith archwilwyr a rheoleiddwyr allanol, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn a'r Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

4.5 Defnyddir sgôr cymharol i arddangos canlyniad yr asesiad o effeithiolrwydd elfennau'r fframwaith lywodraethu a ddisgrifir uchod. Fel y sgoriau Impact, mae amrediad y sgôr Effeithiolrwydd hefyd wedi ei cael ei newid eleni fel ei fod o 1 i 5 yn hytrach nag o 1 i 10. Mae'r sgoriau Effeithiolrwydd yn amrywio o 1 (aneffeithiol iawn) i 5 (hynod effeithiol), ac wedi eu harddangos yn y tabl sy'n dilyn.

**4.6 Canlyniad y gwaith hunanasesu a ddisgrifir uchod yw mai'r ddwy elfen sy'n cael eu hadnabod fel y rhai lleiaf effeithiol ar hyn o bryd yw Y Drefn Craffu a Cydberthynas Aelodau.**

4.7 Ni dderbyniodd unrhyw elfen Sgôr Effeithiolrwydd o 1 allan o 5. Mae'r tabl isod yn dangos yr elfennau sydd wedi derbyn sgôr o 2 neu 3 allan o 5, a'r rhesymau dros hynny.

**Sgôr Effeithiolrwydd o 2 (allan o 5):**

| **Elfen** | **Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni** |
|---|---|
| Y Drefn Craffu | Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd adroddiad Archwiliwr Allanol yn nodi yn ei farn ef fod yna broblemau sylweddol gyda'r Drefn Craffu o hyd, ac mae Adolygiad 360° mewnol y Cyngor hefyd wedi cadarnhau bod nifer o elfennau o fewn y drefn sydd angen sylw pellach er mwyn eu gwella.<br><br>Mae craffu a herio penderfyniadau a pholisïau yn dryloyw a gwrthrychol ond mae ansicrwydd ynglŷn a pha mor effeithiol y mae hynny. Mae hyn yn cael sylw yn yr Adolygiad Craffu a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Archwilio yn 2016/17 sydd yn edrych ar finiogi ymhellach ar bwrpas craffu a'r gwerth y mae'n ychwanegu a mwy o graffu cyn penderfyniad. Mae rhai o gynigion y cynllun gweithredu hynny eisoes ar waith gydag eraill yn cael sylw gyda golwg ar y drefn craffu ar ôl etholiadau Mai 2017. |
| Cydberthynas aelodau | Mae yna rywfaint o dystiolaeth o densiwn wedi bodoli yn y gorffennol rhwng aelodau wrth i'r trefniadau Cabinet newydd gael eu gweithredu o fewn y Cyngor a'r newid rolau oedd yn gysylltiedig â hynny, a nid oes tystiolaeth i awgrymu fod y tensiynau hynny wedi diflannu, gydag adroddiad diweddar yr Archiliwr Allanol ar Graffu yn atgyfnerthu'r neges honno. Serch hynny mae yna arwyddion fod y tensiynau yn dechrau lleihau.<br><br>Mae tensiynau yn anorfod pa fydd unrhyw newidiadau arwyddocaol, ac i'w disgwyl. |

**Sgôr Effeithiolrwydd o 3:**

| **Elfen** | **Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni** |
|---|---|
| Diwylliant y Cyngor | Mae Strategaeth FFordd Gwynedd bellach yn nodi mai un o brif amcanion y Cyngor yw rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud. Mewn gwirionedd mae hyn hefyd yn disgrifio gwerthoedd y Cyngor – sef unrhyw beth sy'n gydnaws â'r amcan hwnnw.<br><br>Mae gwaith Ffordd Gwynedd eisoes wedi dechrau mewn 6 lleoliad gwaith o fewn y Cyngor gyda gwaith sylweddol pellach yn mynd ymlaen i geisio treiddio newid mewn diwylliant trwy'r Cyngor drwy amlygu i reolwyr beth mae'n ei olygu iddynt hwy a'u timau.<br><br>Mae yna arwyddion parhaus bellach fod y diwylliant sydd ynghlwm â Ffordd Gwynedd yn gwreiddio yn y sgyrsiau sy'n codi o fewn y Cyngor. |
| Rheoli Perfformiad | Yn y gorffennol, roedd y Sgôr Effeithiolrwydd cymharol isel ar gyfer Rheoli Perfformiad yn adlewyrchu anghysondeb ar draws y Cyngor. Erbyn hyn, mae swyddogion ac aelodau yn cwestiynu yn barhaus os ydym yn mesur y pethau iawn.<br><br>Mae Aelodau Cabinet yn cyflwyno adroddiadau perfformiad ar eu meysydd hwy yn rheolaidd i gyfarfodydd y Cabinet. |

| Elfen | Asesiad o’i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni |
|---|---|
| Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig | Mae gwaith yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd i ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymysg y gofynion hyn mae’r angen statudol i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sy’n cynnwys awdurdodau lleol a nifer o gyrff eraill. Mae yna waith wedi digwydd i gynnal asesiad o lesiant, sydd yn rhan o waith cychwynnol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.<br>Yn ogystal â hyn, mae gwaith adolygiad system yn y maes Gofal, sy'n cynnwys cydweithio agos gyda rhanddeiliaid o gyrff allanol, yn dangos arwyddion addawol. Mae yna waith wedi digwydd i adnabod cynlluniau y dylid eu comisiynu ar gyfer y dyfodol. |
| Cynllun Strategol y Cyngor | Mae'r Cynllun Strategol yn ganllaw pwysig er mwyn cyflawni ar ran Pobl Gwynedd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adnabod gwelliannau yn y ffordd y mae'r Cyngor yn darparu ei wasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod fod natur y Cynllun presennol yn golygu nad ydi hi'n hawdd dehongli ohono beth yw gwaith craidd y Cyngor. Mae'r Cynllun ar ei ffurf bresennol yn gatalog o'r pethau sydd angen eu newid o fewn y Cyngor ac yn ardal Gwynedd, yn hytrach na chynllun busnes ar gyfer yr Awdurdod. Mae yna waith yn mynd ymlaen i weld sut y gellir newid hyn gyda golwg ar newid yn ystod 2016. |
| Ymgysylltu | Yn ystod 2015/16, dangosodd Her Gwynedd, sef cynllun i drafod y sefyllfa ariannol gyda trigolion Gwynedd, fod cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn ein trefniadau Ymgysylltu.<br>Roedd yr ymarferiad Her Gwynedd yn hynod o lwyddianus gan ddenu ymateb gan dros 2,000 o drigolion Gwynedd a alluogodd y Cyngor i wneud penderfyniadau rhesymegol o ran blaenoriaethau i'r dyfodol yng ngholeuni barn y bobl yr ydym yn eu gwasanaethu. Tra bod angen sicrhau ein bod yn treiddio'r ymarfer da yma ymysg holl adrannau'r Cyngor mae’r sgôr bellach yn adlewyrchu'r gwelliant a welwyd yn y maes yma o gofio Her Gwynedd a'r gwaith a wnaed ym maes Gwastraff yn benodol.<br>Fodd bynnag, gan fod Her Gwynedd wedi cael blaenoriaeth yn y flwyddyn ddiwethaf, mae rhai rhannau o’r Strategaeth Ymgysylltu heb symud ymlaen fel a ddisgwyliwyd. |
| Llywodraethu Gwybodaeth | Er gwaethaf ymdrechion i wella trefniadau Llywodraethu Gwybodaeth, mae’r Cyngor yn parhau i gadw llawer iawn o wybodaeth, ac mae angen parhau i weithio i sicrhau nad yw’n cynnal mwy o ddata na’r hyn sydd ei angen. Tra bod yna enghreifftiau lle mae gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau effeithiol, mae yna le i herio a yw’r ymarfer cystal ag y gallasai fod ac mor eang ar draws holl unedau gwasanaeth y Cyngor. Disgwylir y bydd y prosiect i gyflwyno system EDRMS yn cyfrannu at welliant arwyddocaol yn hyn, ac mae’r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu hefyd wedi comisiynu gwaith pellach ar y trefniadau o fewn adrannau unigol.<br>Mae gwaith ymchwil wedi dangos fod angen parhaus i godi ymwybyddiaeth am egwyddorion Diogelu Data, a gwella ymagweddiad yn y maes. Mae'r gwaith yma yn parhau fel rhan o Gynllun Strategol y Cyngor, ac yn dangos cynnydd. |

| **Elfen** | **Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni** |
|---|---|
| Trefniadau Rheoli Risg | Mae trefniadau bellach yn eu lle er mwyn i bob adran gynnal cofrestr risg adrannol, ac mae cofrestrau traws-adrannol hefyd yn eu lle, gyda protocolau i'w cefnogi. Er hyn, mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn parhau ychydig yn anghyson.<br><br>Hefyd, heblaw am risgiau Iechyd a Diogelwch, mae arbrofion systemau yn dangos nad yw'r holl weithlu yn ymwybodol o'r risgiau all lesteirio cyflawni i bobl Gwynedd ac yn eu perchnogi – mae rheoli risg yn dueddol o gael ei weld fel bod yn fater i Reolwyr.<br><br>Mae gwaith sylweddol wedi ei gyflawni ym maes Cynllunio Argyfwng a Pharhad Gwasanaeth, er mwyn paratoi'r awdurdod yn well ar gyfer digwyddiadau anrhagweladwy.<br><br>Mae trefniadau i ymdrin â risgiau o gwmpas Trefniadau Diogelu Plant ac Oedolion yn parhau i dderbyn sylw, er mwyn cynnal y cynnydd a wnaed ers 2013. Gwaith ychwanegol a bennwyd i'r Panel Diogelu yn ystod 2015/16 yw'r agenda "PREVENT", mewn perthynas â radicaleiddio. |
| Cynllunio'r Gweithlu | Mae trafferthion llenwi rhai swyddi uwch o fewn y Cyngor yn awgrymu fod angen gwella ein gallu i greu dilyniant ar gyfer uwch swyddi, o leiaf. Mae hyn wedi ei adnabod fel sail i ddatblygu talent fewnol. Ymhellach, mae trafferthion recriwtio ar gyfer rhai swyddi mewn ardaloedd daearyddol penodol o fewn Gwynedd (e.e. gweithwyr gofal ym Meirionnydd).<br><br>Mae trefn werthuso 360° i benaethiaid, uwch reolwyr a rhai rheolwyr wedi ei sefydlu, ond mae angen parhau ei ddatblygu.<br><br>Yn ychwanegol i hyn, mae Grŵp Uwch Reolwyr wedi ei sefydlu ac am barhau. |
| Pwyllgor Archwilio | Mae Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd wedi ei sefydlu ers 1999, ac mae ganddo gylch gorchwyl cytunedig.<br><br>Mae tystiolaeth fod y Pwyllgor Archwilio yn effeithiol iawn yn gwireddu rhai o'r swyddogaethau y mae wedi ei arddel ers tro, ond parhau i ddatblygu y mae ei allu i ymdrin â cyfrifoldebau newydd a ddaeth i'w ran gyda Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. |
| Ymateb i adroddiad blynyddol yr Archwiliwr Allanol | Tra bod yr adroddiad yn cynnwys beirniadaeth adeiladol, bydd y Cyngor yn ceisio gweithredu ar y materion a godir ond weithiau efallai fod yna wrthdaro rhwng ymdeimlad y Cyngor o beth ddylai gael sylw a rhai materion a godir yn y llythyr o ran yr ymdrech sydd ei angen ei roddi iddynt, a'r lefel risg y maent yn ei gynrychioli. Fodd bynnag, nid yw'r enghreifftiau yma yn niferus; nid oedd argymhellion yn yr adroddiad diweddaraf, ac mae'r negeseuon yn gyffredinol bositif. |
| Archwilio Mewnol | Mae effeithiolrwydd y gyfundrefn Archwilio Mewnol dan adolygiad parhaus, ac er fod y gwasanaeth yn cwrdd â'r safonau proffesiynol yn unol â'r disgwyl, mae angen ystyried ymhellach os yw'n adolygu'r pethau cywir, ac os yw'r gweithredu mewn dull sydd yn gydnaws â Ffordd Gwynedd. Mae capasiti'r gwasanaeth wedi lleihau'n arwyddocaol ers 1 Ebrill 2015, i lawr o 10 i 7 swyddog llawn amser. Disgwylir y bydd mabwysiadu egwyddorion Ffordd Gwynedd yn sicrhau fod effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael ei gynnal, ond efallai y bydd peth gostyngiad yn y tymor byr. |

| **Elfen** | **Asesiad o'i Effeithiolrwydd wrth ein helpu i gyflawni** |
|---|---|
| Strategaeth Gaffael | Mae Prosiect Caffael ar y cyd gyda cynghorau Dinbych a Fflint wedi arwain at Strategaeth Caffael newydd a fabwysiadwyd gan y Cabinet yng Ngorffennaf 2015.<br>Mae Rheolaeth Categori wedi cael ei gyflwyno yn ystod 2015/16. Mae wedi cael ei gyflwyno yn barod yn y maes Pobl, ond mae cynnydd pellach i'w wneud mewn meysydd eraill. |
| Hyfforddi a Datblygu Aelodau | Mae camau wedi eu gwneud yn y cyfnod ers etholiad 2012 i lunio rhaglen i hyfforddi aelodau, gyda'r Gwasanaethau Democrataidd yn arwain ar y gwaith.<br>Rhai aelodau yn unig sydd wedi manteisio ar y Cyfweliadau Datblygu Personol a gyflwynwyd yn 2014/15. |
| Y Drefn Gwynion | Mae'r Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd yn parhau i ddatblygu'n dda, ac mae'r Swyddog Gwella Gwasanaethau yn sicrhau ein bod yn dysgu gwersi o gwynion, ac yn osgoi ailadrodd camgymeriadau. |
| Cydraddoldeb | Er fod Cynllun Cydraddoldeb yn ei le, mae tystiolaeth nad ydi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb wedi ei wreiddio fel y dylai, a'r meddylfryd wedi treiddio. Er enghraifft, nid oes tystiolaeth i ddangos fod y Cyngor yn meddwl am gynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb fel mater o drefn wrth wneud ei benderfyniadau.<br>Serch hynny, cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar bob un o'r cynigion i dorri a gyflwynwyd fel rhan o Her Gwynedd. |
| Defnydd o Dechnoleg | Mae'r gweithgareddau Technoleg Gwybodaeth dros y blynyddoedd a fu wedi canolbwyntio ar sicrhau isadeiledd priodol er mwyn gwarantu cefnogaeth sylfaenol i wasanaethau.<br>Tra bod yna enghreifftiau lle 'rydym wedi medru defnyddio technoleg gwybodaeth yn ehangach i wella sut yr ydym yn cyflawni gwasanaethau i drigolion Gwynedd, nid oes yna dystiolaeth fod hyn yn gyson ar draws yr awdurdod.a'i fod yn digwydd ar y cyflymder yr hoffem iddo ddigwydd.<br>Mae'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth sydd wedi ei fabwysiadu ar gyfer y cyfnod i ddod yn ceisio ymestyn ar y defnydd a wneir o dechnoleg er mwyn cefnogi'r amcanion gwella yn y Cynllun Strategol, gan hefyd wella gallu gwasanaethau i fanteisio ar y cyfleoedd sydd yna i ddefnyddio technoleg yn effeithiol. |

Derbyniodd yr elfennau eraill sgôr effeithiolrwydd o 4 neu 5:


| **Elfen** | **Sgôr Effeithiol-rwydd (allan o 5)** |
|---|---|
| Strategaeth ariannol<br>Rhaglen Arweinyddiaeth<br>Y Côd Llywodraethu Lleol<br>Perthynas Aelod/Swyddog<br>Côd Ymddygiad Aelodau<br>Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd<br>Y Pwyllgor Safonau<br>Côd Ymarfer Canu'r Gloch<br>Rheolaeth Asedau | **4** |
| Y Cyfansoddiad<br>Côd Ymddygiad Swyddogion<br>Polisi gwrth-dwyll a gwrthlygredd<br>Taflenni penderfyniad<br>Protocolau swyddogion statudol<br>Datganiad o'r cyfrifon | **5** |

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Archwilio, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu**. Mae'r meysydd sydd wedi derbyn sylw eisoes a'r rhai y mae'r Cyngor am fynd i'r afael â hwy yn benodol gyda chamau gweithredu newydd ar y gweill yn cael eu hamlinellu isod.

**Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

Wrth osod y sgoriau Impact ac Effeithiolrwydd yn y diagram isod, arddangosir y materion sydd angen sylw fel mater o flaenoriaeth, sef y meysydd hynny sy'n cael yr impact fwyaf, ond sydd lleiaf effeithiol ar hyn o bryd:

ASESIAD O ELFENNAU ALLWEDDOL Y SYSTEMAU A PHROSESAU SY'N RHAN O LYWODRAETHU CYNGOR GWYNEDD



Nid oes unrhyw un o'r 33 elfen bellach yn cael eu hystyried yn faterion o flaenoriaeth uchel iawn, ond mae nifer ohonynt yn flaenoriaeth uchel.

Mae camau gweithredu ar gyfer y meysydd sydd â Blaenoriaeth Uchel wedi eu nodi isod. Lle mae prosiect penodol o fewn y Cynllun Strategol wedi ei nodi fel ymateb, caiff cynnydd ei adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet yn Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet perthnasol.

## Blaenoriaeth Uchel

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Diwylliant y Cyngor***. Mae yna arwyddion calonogol fod y gwerthoedd o roi Pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud yn dechrau ymddangos o'r newydd yn llefaredd staff. Er hyn, mae angen parhau â'r ymdrech i sicrhau fod pawb yn "gwneud" yn ogystal â "dweud". | Mae Diwylliant y Cyngor yn derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect **C1 – Arfogi Unedau i roi Ffordd Gwynedd ar Waith**.<br>Erbyn diwedd Mawrth 2017, cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor. | Prif Weithredwr |
| ***Rheoli Perfformiad.*** Yn ystod 2015/16, llwyddwyd i sefydlu cyfundrefn newydd ac mae adrannau'r Cyngor wedi dechrau gweithredu y gyfundrefn berfformiad newydd gan adnabod pwrpasau a mesurau sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Ffordd Gwynedd. | Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect **C4 – Prosiect Gweithredu Cyfundrefn Berfformiad.**<br>Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y gyfundrefn newydd yn llwyr weithredol trwy'r Cyngor a bydd sicrwydd ein bod yn mesur a monitro y pethau priodol. | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| ***Cynllun Strategol y Cyngor.*** Mae pryder a yw holl staff y Cyngor yn rhoi'r flaenoriaeth dyledus i faterion sydd yn y Cynllun Strategol | Parhau i fireinio trefniadau cynllunio busnes holl unedau busnes y Cyngor, er mwyn rhoi sylw i'r blaenoriaethau cywir | Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol |
| ***Cynllunio'r Gweithlu*** Mae arbrofion wedi eu cynnal mewn gwahanol adrannau i edrych ar ffyrdd gwahanol er mwyn gwella'r drefn. | Parhau i ddatblygu a lledaenu'r drefn werthuso newydd sy'n seiliedig ar egwyddorion Ffordd Gwynedd | Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol |
| ***Gwasanaethau Cyhoeddus Integredig.*** Byddwn yn datblygu ein gweithdrefnau er mwyn ymateb i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. | Cwblhau'r dasg o sefydlu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. | Uwch Reolwr Cefnogaeth Corfforaethol |

| **Mater sydd wedi ei adnabod** | **Trefniadau i Ymateb** | **Cyfrifoldeb Pwy?** |
|---|---|---|
| ***Llywodraethu Gwybodaeth.*** Mae'r Cyngor yn cadw llawer iawn o ddata.. | Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiectau **C7 – Prosiect System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)** ac **C8 – Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth.**<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2017:<br>• Bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS.<br>• Bydd y Cyngor wedi asesu priodoldeb ei drefniadau diogelu gwybodaeth (gan gynnwys effeithiolrwydd ein trefniadau hyfforddiant) gan gyfathrebu a chyflwyno polisi diogelu data i staff, cyflwyno trefniadau hyfforddiant newydd a chyflwyno trefniadau archwilio er mwyn gwreiddio egwyddorion diogelu gwybodaeth drwy'r holl sefydliad. | Uwch Reolwr Cefnogaeth Corfforaethol |
| ***Ymgysylltu***. Nid yw trefniadau ymgysylltu'r Cyngor cystal ag y dylent fod ar gyfer yr hinsawdd newydd sydd o'n blaenau. | Derbyn sylw o dan maes blaenoriaeth Cyngor Effeithiol ac Effeithlon o fewn y Cynllun Strategol, sef prosiect **C3 – Prosiect Ymgysylltu.**<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2017, bydd y prosiect yma wedi sicrhau bod Strategaeth Ymgysylltu yn cael ei gweithredu ac yn cynnwys cyfres o weithgareddau i wella ymgysylltu ar draws y Cyngor. | Prif Weithredwr |
| ***Y Drefn Craffu.*** Mae gwendidau wedi eu hadnabod yn y trefniadau craffu a byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer canolbwyntio ar y deialog rhwng Craffu a'r Weithrediaeth, pwysau gwaith o fewn y gyfundrefn, arafwch ac eglurder am yr hyn y bwriedir ei wella a'r sgiliau ac adnoddau ar gyfer gwneud hynny. | Er nad oes prosiect Cynllun Strategol fel y cyfryw, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi sefydlu is-grwp tasg a gorffen i fynd i'r afael â'r themâu sydd wedi eu hadnabod.<br><br>Mae'r is-grwp yn gweithio ar rai elfennau ar gyfer eu gwella a'u gweithredu eleni a newidiadau eraill a fydd yn arwain at gynigion am drefniadau craffu newydd i'w gweithredu ar ôl etholiad Mai 2017. | Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol |

| Mater sydd wedi ei adnabod | Trefniadau i Ymateb | Cyfrifoldeb Pwy? |
|---|---|---|
| ***Trefniadau Rheoli Risg.*** Mae treiddiad rheolaeth risg ymysg unedau busnes unigol yn anghyson, a'r canfyddiad gyffredinol yw fod rheoli risg yn rwystr i wireddu amcanion, yn hytrach na chymorth. | Adeiladu ar y gwaith o sicrhau fod pob adran wedi paratoi cofrestr risg lefel adran ac yn ei adolygu'n rheolaidd. Parhau i gefnogi unedau busnes i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o rheolaeth risg yn eu gwaith dydd i ddydd, a hynny yng nghyd-destun egwyddorion Ffordd Gwynedd. | Uwch Reolwr Refeniw a Risg |
| ***Defnydd o Dechnoleg.*** Mabwysiadwyd Strategaeth Technoleg Gwybodaeth 2016-18 gan y Cabinet ar 3 Mai 2016. Wrth ei fabwysiadu, nododd y Cabinet fod TG yn arf critigol ac yn alluogwr pan ddaw i wella gwasanaethau a lleihau costau darparu gwasanaethau. | Gweithredu yn unol â'r rhaglen waith sydd wedi ei gynnwys yn y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth. | Pennaeth Cyllid / Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Trawsnewid Busnes |

**Yn ogystal â'r uchod, bydd y Cyngor hefyd yn adolygu ei fframwaith llywodraethu mewn perthynas â'r fersiwn ddiwygiedig o Fframwaith CIPFA/Solace *Delivering Good Governance in Local Government*.**

**Rhan 6: BARN**

Rydym yn bwriadu cymryd camau i ddelio gyda'r materion uchod yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn gwella ein trefniadau llywodraethu. Rydym yn fodlon bydd y camau hyn yn delio gyda'r angen i wella adnabuwyd yn yr adolygiad effeithiolrwydd a byddwn yn monitro eu gweithrediad fel rhan o'r adolygiad blynyddol nesaf.

| | |
|---|---|
| **DILWYN O WILLIAMS** | **Cyng. DYFED WYN EDWARDS** |
| **PRIF WEITHREDWR CYNGOR GWYNEDD** | **ARWEINYDD CYNGOR GWYNEDD** |
| **DYDDIAD** | **DYDDIAD** |